# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD IAU, 27 TACHWEDD 2014 am 2.00 o'r gloch | THURSDAY, 27 NOVEMBER, 2014 am 2.00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor — Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol / Independent**

D R Hughes (Cadeirydd/Chair), W T Hughes, Richard Owain Jones a
Dafydd Rhys Thomas

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Griffith, Carwyn Jones, Alun W Mummery (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) a Dylan Rees

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Sedd Wag/Vacant Seat

**Heb Ymuno / Unaffiliated**

R.Ll.Jones

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales) and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr Gerallt Llewelyn Jones ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

**R H A G L E N**

**1 <u>YMDDIHEURIADAU</u>**

**2 <u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3 <u>COFNODION</u>** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 25 Medi, 2014.

**4 <u>CYNLLUN INTEGREDIG SENGL (GWYNEDD AC YNYS MÔN) A CYD-DREFNIADAU SGRIWTINI ARFAETHEDIG AR GYFER Y BWRDD GWASANAETH LLEOL</u>** (Tudalennau 9 - 12)

Cyflwyno adroddiad gan yr Uwch Reolwr Partneriaethau Gwynedd a Môn.

**5 <u>CYMHORTHDAL CYFRIF REFENIW TAI - CYTUNDEB GWIRFODDOL</u>** (Tudalennau 13 - 20)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Tai.

**6 <u>NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R POLISI A'R STRATEGAETH AR GYFER ADNEWYDDU TAI SECTOR PREIFAT</u>** (Tudalennau 21 - 58)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasaneth Tai.

**7 <u>ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH GYDA'R GWASANAETH GWELLA YSGOLION RHANBARTHOL (GWE)</u>** (Tudalennau 59 - 72)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes.

**8 <u>ADRODDIAD BLYNYDDOL 'GWRANDO AR GWYNION A DYSGU ODDI WRTHYNT'</u>** (Tudalennau 73 - 90)

Cyflwyno adroddiad mewn perthynas â'r uchod.

**9 <u>TREFNIADAU DIOGELU I OEDOLION SY'N AGORED I NIWED</u>** (Tudalennau 91 - 102)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

**10 <u>DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD NEU IS-GADEIRYDD</u>**

**11 <u>RHAGLEN WAITH</u>** (Tudalennau 103 - 106)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

## PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO – 25.09.14

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Derlwyn Rees Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Alun Wyn Mummery (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, W T Hughes, Carwyn Jones, R Ll Jones, Richard Owain Jones and Dylan Rees |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cynaliadwyaeth) – Ar gyfer eitem 6<br>Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Tai) – Ar gyfer eitemau 4 & 5<br>Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion) - Ar gyfer eitem 7<br>Prif Swyddog Datblygu (Twristiaeth & Arforol) (IH) – Ar gyfer eitem 6<br>Rheolwr y Strategaeth Dai a Datblygu (LR) – Ar gyfer eitem 5<br>Swyddog Sgriwtini (GR)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas.<br>Y Cynghorydd H. Eifion Jones (Deilydd Portffolio - Cyllid) – Ar gyfer eitem 6.<br>Y Cynghorydd Jeff Evans (ar gyfer eitem 8) – Cynrychiolydd yr Awdurdod ar yr Awdurdod Tân. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd y Cyngor) – Ar gyfer eitem 3.<br>Y Cynghorydd Aled M. Jones - Deilydd Portffolio (Datblygu Economaidd, Twristiaeth a Hamdden) - ar gyfer eitem 6<br>Y Cynghorydd K. P. Hughes – Deilydd Portffolio (Gwasanaethau Cymdeithasol a Tai) – Ar gyfer eitemau 4, 5 a 7<br><br>Uwch Reolydd Partneriaethau (Gwynedd & Ynys Môn) (AD) – Ar gyfer eitem 3<br>Cynrychiolwyr Cymunedau'n Gyntaf – Ar gyfer eitem 4.<br>Cynrychiolwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru – Ar gyfer eitem 8. |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel a nodir uchod.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol :-

- Cofnodion y Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2014
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2014.

## 3 CYNLLUN INTEGREDIG SENGL – GWYNEDD AC YNYS MÔN

Cyflwynwyd – adroddiad diweddaru gan yr Uwch Reolydd Partneriaethau, Gwynedd ac Ynys Môn mewn perthynas â'r camau cychwynnol yn siwrnai trawsnewid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn wedi'i sefydlu yn Ebrill 2013. Nododd bod y Byrddau Gwasanaeth Lleol yn fyrddau strategol lefel uchel a'u haelodaeth yn cynnwys Prif Weithredwyr ac Arweinwyr y prif sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus.

Dywedodd yr Uwch Reolydd Partneriaethau bod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi mabwysiadu agwedd gychwynnol o 3 cham i'w siwrnai drawsnewid ac roedd manylion am hynny yn yr adroddiad. Roedd Cam 2 y siwrnai yn cael ei gynllunio ar hyn o bryd - sesiwn thematig i nodi blaenoriaethau allweddol y Bwrdd am y ddwy flynedd nesaf. Byddai'r Bwrdd yn cyfarfod nesaf ar 26 Medi (Cam 3) i gwblhau'r gwaith trawsnewid cychwynnol.

Un o'r ffrydiau gwaith fydd yn cael ei blaenoriaethu yn ystod y misoedd nesaf fydd datblygu ymhellach drefniadau sgriwtini gan aelodau etholedig fel sylfaen ar gyfer gwaith Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn. Y cam nesaf oedd cynnal trafodaethau manwl gyda Chyngor Gwynedd er mwyn :-

- Cadarnhau cytundeb / cymeradwyaeth y ddau Awdurdod Lleol i drefniadau sgriwtini Aelodau Etholedig ar y cyd fel sylfaen ar gyfer gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

- Trafod rhaglen o themâu i'w sgriwtineiddio drwy'r trefniadau / proses ar y cyd ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol / Cynllun Integredig Sengl / Partneriaethau Strategol.

Nododd y Swyddog ymhellach y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn un statudol erbyn 2016.

Yn dilyn sesiwn o gwestiynau ac atebion, **PENDERFYNWYD :-**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad a thrawsnewid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd rhwng Gwynedd ac Ynys Môn.**

- **Bod trefniadau sgriwtini ar y cyd i Aelodau Etholedig yn cael eu datblygu ymhellach a'u trefnu fel sylfaen ar gyfer gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.**

**GWEITHREDU : Bod adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yng nghyswllt y Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn; siwrnai trawsnewid Bwrdd Gwasanaethau Lleol a threfniadau sgriwtini Aelodau Etholedig ar y cyd.**

## 4 CYMUNEDAU'N GYNTAF MÔN – ADRODDIAD CYNNYDD

Rhoes y Cadeirydd groeso i gynrychiolwyr o Cymunedau'n Gyntaf Môn i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd – adroddiad cynnydd ar weithrediad y Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf ym Môn.

Dywedodd Rheolwr Grantiau'r Cyngor (y mae ei swydd yn cael ei chyllido'n rhannol gan Cymunedau'n Gyntaf Môn) mai'r Cyngor Sir yw'r Corff Darparu Arweiniol am £1.658m o gyllid am y cyfnod 1 Chwefror 2013 i 31 Mawrth 2015 ac mai Cymunedau'n Gyntaf Môn Cyf., yw'r sefydliad darparu. Roedd dadansoddiad o'r gwariant ar gyfer cyllideb 2013/14 a 2014/2015 ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Mae Cymunedau'n Gyntaf Môn wedi datblygu'n gyflym iawn dros y deunaw mis diwethaf a bu cynnydd yn y nifer o staff sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd ac yn y cyllid y bu modd ei sicrhau. Mae'r sefydliad yn darparu ystod o wasanaethau a gweithgareddau cefnogol i wardiau etholiadol Kingsland, Morawelon, Ffordd Llundain, Porth-y-Felin, Maes Hyfryd a'r Dref yng Nghaergybi yn ogystal â Ward Tudur yn Llangefni. Caiff Cymunedau'n Gyntaf Môn ei reoli gan Fwrdd o Gyfarwyddwyr gwirfoddol ac y mae'r Bwrdd hefyd yn cynnwys sylwedyddion gan gynnwys y Deilydd Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth y Gwasanaethau Tai a'r Rheolwr Grantiau.

Dewiswyd Cymunedau'n Gyntaf Môn gan Lywodraeth Cymru fel yr unig glwstwr yng Ngogledd Cymru i dreialu 'Cynllun Aelwydydd Di-waith' o'r enw LIFT. Bydd y cynllun yn darparu £228k o gyllid hyd Mawrth 2016 i dargedu ac i weithio'n benodol gydag aelwydydd lle mae oedolion wedi bod allan o waith am 6 mis neu fwy gyda golwg ar eu cael yn ôl i waith, profiad gwaith neu hyfforddiant. Mae DVD ar gael yn dangos astudiaethau achos.

Mae'r Academi Wirfoddol Gymunedol wedi mynd o nerth i nerth ac fe all yn awr ddarparu hyfforddiant achrededig i bobl 14-64 oed gan dargedu'r rhai sy'n lleiaf tebygol o fynychu darpariaeth coleg priflif. Mae Cymunedau'n Gyntaf Môn yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr i sicrhau bod y llefydd gweigion sydd ganddynt yn cael eu cyfatebu gyda'r cyfranogwyr yn yr Academi.

Mae'r banc bwyd Pantri Pobl wedi cyrraedd penllanw yn ystod Awst 2014 gyda dros 1,000 o brydau'n cael eu darparu. Mae pobl sy'n derbyn budd-daliadau a hefyd pobl sy'n gweithio a chyda theuluoedd sy'n ei chael yn anodd cael digon o arian i brynu bwyd.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai at esiamplau o blygu rhaglen rhwng Cymunedau'n Gyntaf Môn a'r Gwasanaethau Tai a bod angen gwneud mwy i hwyluso hyn ar draws y Cyngor.

Materion a godwyd gan yr Aelodau :-

- Cwestiynodd yr Aelodau a fyddai adroddiad cyllideb mwy cynhwysfawr ar gael i'r Awdurdod. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Tai) bod y datganiad

cyfrifon blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Lleol a'i fod hefyd yn cael ei archwilio gan Lywodraeth Cymru. Nododd y gallai copi o'r cyfrifon gael ei roi i'r Pwyllgor hwn er gwybodaeth neu i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor.

- Dywedodd yr Aelodau bod cymunedau eraill hefyd ar yr ynys sydd mewn ardaloedd difreintiedig e.e. Llanfaes. Nid yw'r ardaloedd hyn yn gallu denu cyllid. Ymatebodd y Swyddogion o Cymunedau'n Gyntaf a dweud nad yw'r ardaloedd hyn o fewn yr ardaloedd difreintiedig sydd wedi eu nodi, fel y diffinnir hwy drwy feini prawf Llywodraeth Cymru, ac na fyddai cyllid Cymunedau'n Gyntaf ar gael. Fodd bynnag, nodwyd y byddant yn barod i drafod y mater gyda'r Aelodau Lleol i geisio lliniaru rhai o'r problemau yn yr ardaloedd hyn.

**PENDERFYNWYD diolch i'r cynrychiolwyr o Cymunedau'n Gyntaf am fynychu'r cyfarfod ac i longyfarch y staff i gyd am y gwaith y maent wedi ei gyflawni.**

**CAMAU GWEITHREDU :**

- **Bod gwahoddiad yn cael ei roi i Cymunedau'n Gyntaf Môn i fynychu'r Pwyllgor Sgriwtini hwn yn flynyddol.**
- **Pennaeth y Gwasanaethau Tai i drafod gyda'r Rheolwr Archwilio Mewnol, waith sgriwtineiddio cyllideb a gwariant Cymunedau'n Gyntaf Môn;**
- **Bod gweithdy hanner diwrnod yn cael ei drefnu i Aelodau Etholedig ac Uwch Swyddogion er mwyn gallu rhannu'r profiadau dysgu o sefydlu Cymunedau'n Gyntaf Môn hyd yn hyn a rhannu arferion da.**
- **Ymweliad pellach i'w drefnu i Gymunedau'n Gyntaf Môn gan Aelodau Etholedig i weld prosiectau allweddol, staff, hyfforddeion a gwirfoddolwyr.**

**5 STRATEGAETH DAI LEOL YNYS MÔN 2014/2019**

Cyflwynwyd – adroddiad mewn perthynas â'r Strategaeth Dai Leol i Ynys Môn 2014/2019.

Dywedodd y Deilydd Portffolio (Gwasanaethau Cymdeithasol a Tai) i'r Strategaeth Dai Leol fod yn destun ymgynghori cyhoeddus ers dechrau Awst 2014 a bydd yn cau ddiwedd mis Medi. Nododd y bydd sylwadau'r Pwyllgor Sgriwtini hwn yn cael ei gynnwys yng Nghynllun Gwaith terfynol y Strategaeth, a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 20 Hydref 2014 ac wedyn i'r Cyngor llawn ar 4 Rhagfyr 2014. Mae Partneriaeth Dai wedi cael ei sefydlu i ddarparu ac i fonitro'r Strategaeth Tai Leol.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Tai) bod Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi dod yn gyfraith yn gynharach ym mis Medi a'i bod yn rhoi sylw i'r elfennau allweddol isod:-

- Cyflwyno cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol i landlordiaid sector rhent preifat ac asiantiaid gosod a rheoli;
- Diwygio cyfraith digartrefedd, yn cynnwys gosod dyletswydd gryfach ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd a chaniatáu iddynt ddefnyddio llety addas yn y sector preifat.

- Rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle bo angen wedi ei nodi;
- Cyflwyno safonau i awdurdodau lleol ar renti, taliadau gwasanaeth ac ansawdd llety;
- Diwygio'r system Nawdd Cyfrif Refeniw Tai.
- Rhoi pwerau i awdurdodau lleol godi mwy na'r gyfradd safonol o Dreth Gyngor ar eiddo sy'n wag am dymor hir a mathau penodol o ail gartrefi;
- Sefydliadau Tai Cydweithredol i helpu gyda'r ddarpariaeth o dai;
- Newidiadau i'r Ddeddf Diwygio Prydlesi, Tai a Datblygiad Trefol 1993.

Nododd y bydd gweithdai yn cael eu trefnu ar gyfer Aelodau Etholedig yn ystod y misoedd i ddod i roi ystyriaeth fanwl i oblygiadau'r Ddeddf Tai (Cymru) 2014 newydd i awdurdodau lleol.

Rhoddodd Rheolydd y Strategaeth Dai a Datblygu sylw i'r materion allweddol yn y Strategaeth Dai Leol fel yr oeddynt wedi eu cynnwys yn yr adroddiad i'r Pwyllgor.

Rhai materion a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor :-

- Mae angen tai fforddiadwy i bobl leol a rhaid mynd i'r afael ag anghenion tai.
- Bydd angen rhoi ystyriaeth i'r mewnlifiad o weithwyr i adeiladu'r orsaf newydd yn Wylfa a'r tai y byddant eu hangen.
- Rhaid i'r adnoddau a'r capasiti gael eu cefnogi gan y Cyngor Sir er mwyn gallu cyflawni anghenion Deddf Tai (Cymru) 2014 newydd a'r Strategaeth Tai Leol.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Bod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn argymell y dylid mabwysiadu'r Strategaeth Dai Leol i Fôn 2014/2019 gan y Cyngor llawn ym mis Rhagfyr.**

- **Bod gweithdy'n cael ei drefnu cyn y cyfarfod o'r Cyngor llawn i gael trafodaeth lawn ar y Strategaeth Dai.**

**GWEITHREDU : Nodi y bydd y Strategaeth Dai Leol yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn i'w fabwysiadu.**

## 6 FFIOEDD CYCHOD SIARTER/PLESER 2014/15

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Swyddog Datblygu Twristiaeth ac Arforol mewn perthynas â Ffioedd Cychod Siarter/Pleser 2014/2015.

Adroddwyd - ar wahân i'r ffioedd blynyddol ar gyfer gweithredwyr cychod pleser masnachol (edrych ar olygfeydd/pysgota/tripiau antur), mae'r holl ffioedd a thaliadau arforol eraill (angori/cofrestru a lansio ac ati) wedi eu mabwysiadu gan yr Awdurdod ac wedi eu hôl-ddyddio o 1 Ebrill 2014. Cafwyd trafodaethau dros nifer o fisoedd gyda'r gweithredwyr ynglŷn â'r mater hwn.

Mae anghytuno ynglŷn â'r ffioedd a'r taliadau arforol ym Mhorth Amlwch lle mae anghysondebau hanesyddol gyda'r ffioedd angori a hefyd y taliadau i gychod teithio trwyddedig (cychod siarter) yn amlwg. Roedd Atodiad 1 oedd ynghlwm wrth yr adroddiad yn dangos dadansoddiad 5 mlynedd o ffioedd ym Mhorth Amlwch. Ni chafodd ffioedd cychod siarter 2013/14 eu mabwysiadu erioed ac maent yn parhau 'mewn anghydfod' gyda'r gweithredwyr. Roedd Atodiad 2 oedd ynghlwm wrth yr adroddiad yn cynnwys dadansoddiad SWOT o'r pedwar porthladd/harbwr arforol lle mai'r awdurdod yw'r Awdurdod Porthladd statudol h.y. Porth Amlwch, y Pier ym Miwmares, Pier San Siôr, Porthaethwy ac y mae un cwch siarter yn gweithredu o'r Doc Pysgod yng Nghaergybi.

Cyfeiriodd y Swyddog y Pwyllgor at Atodiad 3 i'r adroddiad oedd yn rhoi 6 opsiwn ar gyfer Ffioedd Cychod Siarter / Pleser. Nodwyd mai Opsiwn 3 oedd yr opsiwn oedd yn cael ei ffafrio sef un taliad blynyddol o £840 neu daliad blynyddol llai o £420 gyda ffi o 26c y teithiwr. Rhywbeth i weithredwyr y Cychod Siarter fyddai dewis y naill opsiwn neu'r llall.

Materion a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor :-

- Os mai Opsiwn 3 fyddai'r opsiwn fyddai'n cael ei ffafrio, byddai hyn yn golygu y byddai rhaid iddynt dalu cyfanswm o £1,340. Mae gweithredwyr y Cychod Siarter eisoes yn talu ffi angori o £500. Gofynnwyd cwestiynau am ba gyfleusterau yr oedd gweithredwyr ym Mhorth Amlwch yn eu derbyn am y swm o £1,340 gan nad yw'r cyfleusterau yno o safon uchel o'u cymharu ag ardaloedd eraill. Roedd y Swyddogion yn cytuno nad oedd y cyfleusterau ym Mhorth Amlwch cystal â rhai mewn lleoliadau eraill.

- Gofynnwyd cwestiynau pam nad yw'r Cychod Pysgota Masnachol sy'n pysgota ym Môr Iwerddon yn gorfod talu am angori ym Mhorth Amlwch. Dylid ystyried codi tâl ar y cychod hyn yn unol â Phorthladdoedd eraill ym Mhrydain. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cynaliadwyaeth) y byddir yn rhoddi ystyriaeth ddyledus i'r mater.

- Mae'r ffioedd angori i'w gweld fel petaent yn wahanol mewn ardaloedd angori eraill. Rhoddodd yr Aelodau esiamplau o ffioedd angori ar hyd arfordir Gogledd Cymru. Holodd yr Aelodau o ble yr oedd y ffioedd angori hyn wedi deillio? Dywedodd y Swyddogion fod y rhain yn ffioedd hanesyddol a'i bod yn anodd iawn cymharu ffioedd ar hyd arfordir Gogledd Cymru. Gan ddefnyddio Biwmares fel esiampl, gall y cychod ddefnyddio'r pier yno i lansio ac fe ellid dadlau y gellir defnyddio'r cyfleuster 24 awr y dydd. Dywedodd y Swyddogion bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi buddsoddi swm sylweddol yn y Marina yng Nghonwy a thybir bod y ffioedd angori wedi eu gosod yn weddol isel yno er mwyn annog mwy i ddefnyddio'r cyfleusterau yn y Marina.

- Roedd Aelodau'r Pwyllgor eisiau cael ffioedd cychod realistig a theg ar draws arfordir yr ynys ac roeddent o'r farn na allent roi eu cefnogaeth i fabwysiadu Opsiwn 3 fel yr opsiwn oedd yn cael ei ffafrio gan y Swyddogion a hynny oherwydd y gwahaniaethau yn y ffioedd.

Yn dilyn trafodaethau hir, **PENDERFYNWYD bod Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn cytuno y dylai'r mater o Ffioedd Cychod Siarter / Pleser gael eu penderfynu gan y Pwyllgor Gwaith.**

**GWEITHREDU : Nodi y bydd y Ffioedd Cychod Siarter / Pleser yn cael eu trafod yn y Pwyllgor Gwaith yn y man.**

## 7 RHAGLEN WAITH AR GYFER BWRDD CYFLAWNI INTEGREDIG GWASANAETHAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL YNYS MÔN

Cyflwynwyd - adroddiad ar raglen waith y Bwrdd Cyflawni Integredig Ynys Môn ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion) mai nodau ac amcanion y Bwrdd Cyflawni Integredig (BCI) yw gweithio tuag at gael gwasanaethau mwy integredig. Mae hyn yn cynnwys gwell aleiniad o ran cynlluniau busnes, cyllidebau a diwylliannau sefydliadol. Bydd y BCI yn cynnwys rhoi ystyriaeth i agweddau arloesol i fframweithiau cyllidebol cronedig ar gyfer Ynys Môn i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Bydd y BCI yn cymryd arno rôl 'Fforwm Sirol' a bydd yn cymryd y cyfle i adolygu ei swyddogaeth yn dilyn cyhoeddi ailstrwythuriad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a hefyd adolygu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Mae strwythur poblogaeth sy'n newid yn golygu mwy o bwysau a mwy o alwadau ar ystod o wasanaethau e.e. gofal iechyd, gwasanaethau cartref a phreswyl, tai, lles a gwasanaethau eraill a ddefnyddir gan y boblogaeth. Mae hyn yn gofyn am weithredu ar y cyd ac ymyrraeth gynnar i rymuso a chefnogi pobl.

Gwahoddodd y Cadeirydd Mr. J. R. Jones, Medrwn Môn i ymateb i'r mater hwn. Dywedodd Mr. Jones bod angen cryfhau prosesau gweithio mewn partneriaeth gyda'r trydydd sector yng nghyswllt y mater hwn.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhaglen waith ar gyfer y Bwrdd Darparu Integredig fel y gall y Bwrdd helpu gyda datblygu gwasanaethau Iechyd A Gofal Cymunedol ym Môn.**

**GWEITHREDU : Dim.**

## 8 GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU – YMGYNGHORI AR Y CYNLLUN GWELLA 2015/2016

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Mr. Simon Smith, Prif Swyddog Tân, Ms Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân, Ms. Alwen Davies, Swyddog Cyswllt Aelodau a'r Cynghorydd Meirick Lloyd Davies (Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru) i'r cyfarfod.

Rhoddodd Mr Simon Smith a Ms Dawn Docx gyflwyniad byr i'r Pwyllgor ar yr ymgynghori a wnaed ar gynllun gwella Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru 2015/2016. Eglurwyd bod yr Awdurdod Tân ac Achub wedi rhewi ei gyllideb am y 3 blynedd diwethaf. Roedd hyn wedi gofyn am arbedion o 7.5% yn y gyllideb er mwyn

cynnal y gwasanaethau i'r cyhoedd. Rhoddodd y cynrychiolwyr o'r Awdurdod Tân ac Achub amlinelliad o'r taliadau cyfredol o'r dreth gyngor i breswylwyr yr ynys ac uchafswm y cynnydd a fwriedir mewn blynyddoedd i ddod.

Yn dilyn sesiwn o gwestiynau ac ateb **PENDERFYNWYD :-**

- **Diolch i'r cynrychiolwyr o'r Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am eu cyflwyniad.**
- **Disgwyl i'r cyfnod ymgynghori ar y Cynllun Gwella 2015/16 ddod i ben a bod y mater yn cael ei gyfeirio i'r Cyngor Sir i'w ystyried wedi hynny.**

**GWEITHREDU : Y bydd y Cyngor Sir yn ystyried y canlyniad a'r goblygiadau ariannol yng nghyswllt yr ymgynghori ar Gynllun Gwella Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 2015/2016.**

## 9 DIWEDDARIAD GAN GADEIRYDD / IS-GADEIRYDD

Nododd y Cadeirydd y bydd yr Is-Gadeirydd a'r Cynghorydd John Griffith a'r Swyddog Sgriwtini yn mynychu Pwyllgor Sgriwtini Gwasanaethau Cyngor Gwynedd ar 2 Hydref 2014. Rhoddwyd gwahoddiad iddynt fel sylwedyddion i gyflwyniad gan gynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

## 10 RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd a nodwyd – Rhaglen Waith ddrafft.

Dywedodd y Swyddog Sgriwtini bod cais wedi ei dderbyn i gynnwys yr eitemau canlynol ar raglen y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar 27 Tachwedd 2014 :-

- Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol 2013/2014 – Adroddiad Cwynion Blynyddol.
- Diogelu Oedolion

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor y dylai eitemau ar gyfer eu sgriwtineiddio yn y dyfodol gynnwys y canlynol :-

- Strategaeth Llety Gweithwyr Wylfa
- Argaeledd Safleoedd i Sipsiwn am arhosiad byr a pharhaol ar yr ynys.
- Perfformiad Ambiwlans yr ynys i gynnwys gwahoddiad i gynrychiolwyr o Wasanaethau Ambiwlans Cymru fod yn bresennol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**GWEITHREDU : Gofyn i'r Swyddog Sgriwtini wneud trefniadau i'r eitemau uchod gael eu trafod mewn cyfarfod o'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol.**

Daeth y cyfarfod i ben am 5.40 pm

**Y CYNGHORYDD D. R. HUGHES**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD AT:** | **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETHAU AC ADFYWIO** |
| **DYDDIAD:** | **27 Tachwedd, 2014** |
| **PWNC :** | **1. Cynllun Integredig Sengl - Gwynedd ac Ynys Môn;<br>2. Cyd drefniadau Sgriwtini arfaethedig ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.** |
| **PWRPAS:** | **1. Gwahodd sylwadau cychwynnol ar Brif Flaenoriaethau a Galluogwyr arfaethedig y Bwrdd Gwasanaethau Lleol;<br>2. Diweddaru Aelodau ar gynnydd hyd yma wrth ddatblygu cyd drefniadau sgriwtini aelodau etholedig o waith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Cynghorydd Ieuan Williams, Arweinydd y Cyngor** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD** | **Anwen Davies, Uwch Reolwr Partneriaethau Gwynedd ac Ynys Môn** |

**1. CEFNDIR/CYD-DESTUN**

1.1 Daeth cyrff sector cyhoeddus ynghyd i ffurfio Byrddau Gwasanaethau Lleol (BGLl) ar draws Cymru mewn ymgais i gydlynu a darparu canlyniadau gwell ar y cyd. Bydd Aelodau'n ymwybodol y penderfynwyd sefydlu un Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd i Wynedd ac Ynys Môn a ddaeth i fodolaeth yn Ebrill, 2013;

1.2 Bwrdd strategol lefel uchel yw'r BGLl sydd wedi'i adlewyrchu yn ei aelodaeth o Brif Weithredwyr ac Arweinyddion y prif asiantaethau cyhoeddus. Mae'n gyfrifol am:

- Gytuno ar ganlyniadau i bobl leol a blaenoriaethau strategol lleol ar gyfer gwaith aml-asiantaethol i gefnogi'r agenda ehangach a noder yn y Rhaglen Lywodraethu Genedlaethol ac ymateb i anghenion lleol a adnabuwyd trwy asesiad anghenion lleol, fel y sail i gynllun integredig;
- Sicrhau bod trefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad priodol ar waith i sicrhau gwelliannau a bod rheolwyr a staff rheng flaen mewn asiantaethau'n cydweithio'n effeithiol a bod blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn cael eu hadlewyrchu yng nghynlluniau corfforaethol sefydliadau unigol;
- Sicrhau bod strwythurau partneriaethol a strwythurau darparu gwasanaethau'n addas at y diben ac yn atebol;
- Herio lle y ceir tanberfformiad neu laesu dwylo a rhoi newidiadau ar waith sy'n adlewyrchu arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella canlyniadau i'r boblogaeth leol;
- Adolygu'r cynnydd a wnaed a chyflwyno adroddiadau blynyddol arno i'r cyhoedd, Llywodraeth Cymru, aelodau a etholwyd yn ddemocrataidd a sefydliadau sy'n aelodau o'r BGLl.

Y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yw'r bartneriaeth statudol ar gyfer yr holl feysydd o fewn ei faes llafur. Mae yna un eithriad sef Diogelwch Cymunedol sy'n parhau gyda Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn.

2. **TAITH DRAWSNEWID BWRDD GWASANAETHAU LLEOL GWYNEDD AC YNYS MÔN – BLAENORIAETHAU ALLWEDDOL AR Y CYD [CYNLLUN INTEGREDIG SENGL]**

2.1 Gwelwyd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn[1] yn gwneud nifer o benderfyniadau allweddol ynglŷn â'i weledigaeth a chyfeiriad strategol i'r dyfodol. Mae'r penderfyniadau yn cynnwys:


- Datblygu uchelgais newydd yn rhoi goel uwch na'r gorffennol ar lenwi'r bwlch cyllido gwasanaethau cyhoeddus – trwy sicrhau mwy o gydlynu a ffocws o amgylch rheoli galw (gwella gwasanaethau cyhoeddus) a chyflwyno rhaglen o ymyrraethau sy'n cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad sy'n gyrru galw (cyd-ddylunio a chynhyrchu);
- Blaenoriaethu nifer bychain o ffrydiau gwaith allweddol dros y flwyddyn neu ddwy nesaf a fydd yn galluogi'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i gyflawni cynnydd wedi'i dystioli yn erbyn ei uchelgais esblygol.

2.2 Bydd Aelodau'n ymwybodol fod yna 3 cham cychwynnol yn nhaith drawsnewid y BGLl. Gwnaed cynnydd sylweddol dros y chwe mis diwethaf i gyflawni yn erbyn y cerrig milltir a gytunwyd. Mae rhagor o waith wedi'i raglennu dros y misoedd i ddod er mwyn galluogi'r Bwrdd i gychwyn ar y broses o gyflawni ei uchelgais a chyfeiriad strategol newydd;

2.3 Rhoddwyd ystyriaeth i nifer o faterion yn y cyfarfod diwethaf o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a gynhaliwyd ar 26 Medi, 2014:

- Set drafft o egwyddorion gweithredu ynghlwm wrth waith a gweithredu'r Bwrdd;
- Rhai gwerthoedd partneriaethol allweddol;
- Cylch gorchwyl drafft;
- Blaenoriaethau allweddol ar y cyd i'w cyflawni dros y 2 flynedd nesaf;
- Y 10 mater uchaf ar radar y BGLl.

Gellir crynhoi blaenoriaethau allweddol y BGLl sy'n dod i'r amlwg fel a ganlyn:




[1] Cyfarfod o Fwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn a gynhaliwyd ar 12 Mawrth, 2014

Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y BGLl i'r Blaenoriaethau Allweddol a'r Galluogwyr uchod, y cam nesaf fydd datblygu pob un o'r ffrydiau gwaith gan roi sylw arbennig i'r materion canlynol:

I. Allbynnau sefydliadol a ddymunir fesul Blaenoriaeth Allweddol a Galluogwr ar gyfer pob partner BGLl dros y 2 flynedd nesaf;
II. Sail tystiolaeth ar gyfer pob Blaenoriaeth/Galluogwr;
III. Cyfraniad partneriaid BGLl at bob ffrwd gwaith;
IV. Strwythur cyflawni a llywodraethu o dan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i wireddu pob Blaenoriaeth Allweddol a Galluogwr.

3. **TUAG AT GYD DREFNIADAU SGRIWTINI BGLL CADARN AC EFFEITHIOL**

3.1 Bydd Aelodau'n ymwybodol mai un o'r meysyd gwaith blaenoriaeth yw datblygu ymhellach drefniadau sgriwtini gan aelodau etholedig o waith Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn. Y prif egwyddor oedd rhoi ystyriaeth i sut y gallem ddatblygu ymhellach drefniadau sgriwtini cadarn, yn cynnig lefel briodol o her i'r Bwrdd – a hynny ar y cyd ar draws y ddwy Sir i adlewyrchu mandad y BGLl. Mae Rhan 2 o Fesur Llywodraeth Leol 2009 yn gosod allan y disgwyliad sydd arnom:
*"…local authorities should have in place effective scrutiny processes to ensure local democratic accountability for partnership actions…"*

3.2 Yn sgîl cefnogaeth Aelodau Etholedig Cynghorau Sir Ynys Môn a Gwynedd[2], mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cyd drefniadau sgriwtini ar gyfer y BGLl. Isod mae crynodeb o ddatblygiadau hyd yma:

- Sefydlwyd Grŵp Prosiect Tasg a Gorffen aml-asiantaethol. Mae'r aelodaeth yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, Awdurdodau Lleol. Mae'r Grŵp yn negydu cynrychiolaeth 3ydd Sector ar hyn o bryd;
- Papur opsiynau cychwynnol wedi'i ddatblygu yn amlinellu modelau cyd sgriwtini posibl i'w hystyried gan Aelodau Etholedig;
- Mewnbwn a mentora wedi'i negydu gan y Ganolfan Sgriwtini Cyhoeddus a hynny drwy gydol y broses o ddatblygu'r cyd drefniadau sgriwtini i Ynys Môn a Gwynedd.

**<u>CAMAU NESAF:</u>**

**I.** Cwblhau'r papur gwerthusiad opsiynau gan roi ystyriaeth i fanteision ac anfanteision pob model sgriwtini arfaethedig;
**II.** Cyflwyno'r cynigion ar gyfer cyd drefniadau sgriwtini er ystyriaeth gan bwyllgorau sgriwtini aelodau etholedig y ddau Awdurdod Lleol yn fuan yn y Flwyddyn Newydd. Bydd y cynigion yn cynnwys gwerthusiad opsiynau llawn ar gyfer pob model;
**III.** Ceisio mewnbwn y 3ydd Sector i'r Gwerthusiad Opsiynau o'r modelau sgriwtini.

4. **ARGYMHELLION**

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio:

**A1 Gyflwyno sylwadau ar Flaenoriaethau Allweddol a Galluogwyr arfaethedig y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (fel y manylir ym mharagraff 2.3 uchod);**

**A2 Ffurfio barn ar gynnydd hyd yma/camau gweithredu nesaf a fwriedir i ddatblygu cyd drefniadau sgriwtini aelodau etholedig o waith y BGLl.**

---

[2] Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio a gynhaliwyd ar 25 Medi, 2014 (Ynys Môn) / Pwyllgor Craffu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Medi, 2014 (Gwynedd)

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Economaidd |
| **Dyddiad:** | 27 Tachwedd 2014 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai - Cytundeb Gwirfoddol |
| **Awdur:** | Shan Lloyd Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| **Aelod Portffolio:** | Y Cynghorydd Kenneth P Hughes |
| **Cyfarwyddwr Corfforaethol:** | Gwen Carrington |
| **Rheswm am adrodd i'r Pwyllgor Sgriwtini:** | Sgriwtineiddio a chymeradwyo gwneud Cytundeb Gwirfoddol gyda Llywodraeth Cymru i dynnu allan o'r system Cymhorthdal ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai |

**1.0 Cefndir a Chyd-destun**

**1.1** Mae Aelodau Etholedig yn ymwybodol o ddau adroddiad a gyflwynwyd eisoes i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf 2014 a Hydref 2014 ynghylch Deddf Tai (Cymru) 2014 ac yn benodol mewn perthynas â phrynu allan o'r system Cymhorthdal ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CCRT).

**1.2** Daethpwyd i gytundeb gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi a Llywodraeth Cymru a fydd yn caniatáu i'r un ar ddeg o awdurdodau yng Nghymru sydd wedi cadw eu stoc dai i ddod allan o'r system cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai (CRT) a bod yn hunangyllidol o Ebrill 2015. Mae'r swm i'w dalu ar gyfer dod allan o'r system wedi ei drafod hefyd.

**1.3** Mae dwy ran i'r cytundeb; yn gyntaf, bydd awdurdodau yn gorfod prynu eu ffordd allan o'r system cymhorthdal CRT trwy wneud taliad unwaith ac am byth i Drysorlys Ei Mawrhydi, yn ail bydd cyfyngiad ar awdurdodau o ran benthyciadau CRT.

**1.4** Bydd cyflwyno trefniadau hunangyllido o Ebrill 2015 yn rhoi adnoddau, anogaeth a chyfleon i awdurdodau ddarparu tai cyngor o safon dda ac sy'n cael eu rheoli'n dda. Bydd hefyd yn golygu y gellir cynllunio ar gyfer y tymor hir gyda sicrwydd. Bydd Awdurdodau Lleol yn medru cadw incwm o'r rhenti a'i ail-fuddsoddi'n lleol yn y cartrefi cyfredol ac mewn cyflenwad newydd fel sy'n briodol. Bydd yr awdurdodau lleol hefyd mewn gwell sefyllfa i gynorthwyo gyda mynd i'r afael â thlodi a sicrhau swyddi a thwf.

**1.5** Bydd hunangyllido yn rhoi mwy o gynaliadwyedd i'r Awdurdod Lleol ac yn darparu mwy o ryddid a hyblygrwydd o ran manteisio ar bob cyfle am dai cyngor a mwy o gyfrifoldeb ac atebolrwydd. Bydd cyfrif CRT yr Awdurdod Lleol ar ei ennill yn ariannol oddeutu £765k y flwyddyn yn sgil talu llai o log ar

y benthyciadau cyfredol. Er mwyn gwneud hyn bydd angen i'r un ar ddeg o Awdurdodau Lleol arwyddo Cytundeb Gwirfoddol. Gellir gweld mwy o wybodaeth am y Cytundeb Gwirfoddol yn rhannau 3 a 4 yr Adroddiad hwn.

**1.6** Ar ôl dod yn hunangyllidol bydd yr un ar ddeg o Awdurdodau yn medru:

- cyflymu gwaith dan raglen Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) i sicrhau y gellir ei gwblhau erbyn 2020 a'i gynnal i'r dyfodol. O'r un ar ddeg, dim ond pedwar sydd wedi cyflawni'r rhaglen SATC a Chyngor Sir Ynys Môn yw un ohonynt;
- mwy o fuddsoddiad yn y cartrefi cyfredol ac mewn adfywio cymunedau dros y tymor byr, canol a hir;
- sicrhau bod tenantiaid yn cael budd o wasanaethau tai sy'n fwy effeithiol ac effeithlon;
- cynyddu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy newydd;
- mwy o fuddsoddiad mewn ystod o flaenoriaethau lleol eraill a allai gynnwys gwella effeithlonrwydd ynni tai cyngor, adfywio stadau, ailfodelu cynlluniau tai gwarchod neu gynlluniau anghenion cyffredinol a phrynu cartrefi i gynyddu'r cyflenwad;
- cymryd agwedd mwy tymor hir a gweithredu mwy fel busnes o ran y stoc dai a'r asedau cysylltiedig megis garejis, eiddo masnachol a thiroedd;
- creu swyddi a chyfleon hyfforddi, a sicrhau mwy o fuddsoddiad yn yr economi leol.

## 2.0 Cynnydd hyd yma

### 2.1 Llywodraethiant

#### 2.1.1 Cenedlaethol

Ar lefel genedlaethol mae'r prosiect CCRT yn adrodd yn uniongyrchol i'r Gweinidog ar gyfer Cymunedau a Mynd i'r Afael â Thlodi. Sefydlwyd grŵp llywio a fydd yn gwneud argymhellion i'r Gweinidog ac mae pedair ffrwd waith hefyd yn gwneud argymhellion i'r Grŵp Llywio. Cynrychiolir Cyngor Sir Ynys Môn ar y ffrwd waith Trafodion gan y Pennaeth y Gwasanaethau Tai a'r Rheolydd Cyfrifeg ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai. Mae cynllun prosiect lefel uchel ynghlwm wrth yr Adroddiad hwn [atodiad 1].

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, pob un o'r un ar ddeg o Awdurdodau Lleol, Swyddfa Archwilio Cymru, Cymdeithas Tenantiaid Cymru, CIPFA a Llywodraeth Cymru oll wedi bod yn cydweithio'n sylweddol yn y maes hwn.

**2.1.2 Lleol**

Gan ddilyn fframwaith rheoli prosiect mewnol y Cyngor, sefydlwyd Bwrdd Prosiect a Grŵp Prosiect [gweithredol] a fydd yn adrodd i'r Bwrdd Rhaglen Ynys Ynni. Bydd gwaith y Grŵp Prosiect a'r Bwrdd yn sicrhau bod yr holl drefniadau angenrheidiol wedi eu gwneud a bod y prosesau llywodraethiant mewnol wedi eu sefydlu er mwyn bwrw ymlaen gyda'r trafodion setlo a'r benthyciadau. Yn ogystal â'r dogfennau prosiect corfforaethol, mae hyn yn cynnwys ystyried blaenoriaethau buddsoddi hunangyllidol, adolygiad o'r Strategaeth Rheoli Trysorlys, datblygu strategaeth rheoli asedau CRT, adroddiadau ar gyllidebau Cyfalaf a CRT gan gynnwys cyd-gronni dyledion, cael cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith, sicrhau lefelau awdurdod a dirprwyo priodol ar y dyddiadau allweddol [hyd at ac yn cynnwys y dyddiad trosglwyddo], gofynion staffio i'r dyfodol, adnoddau staffio ac amserlenni i arian glirio, trefniadau parhad busnes ac unrhyw systemau a phrosesau eraill sy'n briodol. Mae'r map proses ar gyfer cyflawni hyn yn cynnwys oddeutu 90 o gamau a cerrig milltir.

Ymgynghorwyd a chyfathrebwyd gyda thenantiaid a lesddeiliaid yn lleol trwy'r Newyddlen i Denantiaid a hefyd yn yr ymgynghoriad ar y Polisi Rhent a'r Taliadau Gwasanaeth sydd yn digwydd ar hyn o bryd. Bydd dod â'r system cymhorthdal CRT i ben yn golygu mai incwm o'r rhenti fydd y prif ffynhonnell o incwm ar gyfer y CRT. Bydd ymgysylltu gyda thenantiaid ynghylch sut i ddefnyddio'r incwm o'r rhent, safon y gwasanaethau tai a'r blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi yn llawer pwysicach nag yn y gorffennol. Dyna'r cyd-destun y tu ôl i gynnwys cwestiwn allweddol yn y broses ymgynghori sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Byddwn wedi ymgynghori gyda'r Aelodau Etholedig trwy seminar *'Tai ar gyfer y Dyfodol'* ar 18 Tachwedd 2014 a thrwy adroddiadau i'r Pwyllgor Gwaith. Mae'r prosiect hefyd yn adrodd i'r Bwrdd Rhaglen Ynys Fenter. Mae cydranddeiliaid allweddol eraill yn ymwybodol o'r bwriad trwy'r Bartneriaeth Tai newydd a sefydlwyd ar gyfer Ynys Môn.

**2.1.3 Llywodraethu i'r dyfodol**

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw penderfyniadau ar ddyledion CRT gan gynnwys sut y maent yn cael eu cyllido a'r buddsoddiadau. Bydd argymhellion ynghylch 'basged o fenthyciadau' – sef math a chyfnod y benthyciadau y bydd eu hangen gan PWLB i gyllido ein cyfran o'r setliad yn cael eu cofnodi yn y Cynllun Busnes ar gyfer y CRT ac yn Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor.

**2.2** Ar ôl Ebrill 2015, bydd angen i dai cyngor hunangyllidol weithredu yn llawer mwy fel cymdeithasau tai. Dan brif ddeddfwriaeth, bydd raid i'r Cyngor barhau i gynnal Cyfrif Refeniw Tai statudol a phwrpasol ac i gadw cyfrif o incwm a gwariant ar dai cyngor ar wahân i incwm a gwariant dan Gronfa'r Cyngor.

**2.3** Mae'r cynllun busnes ar gyfer CRT yn fodel ariannol o incwm, gwariant a dyled ar gyfer y 30 blynedd nesaf, gyda modelu manylach am y 5 mlynedd cyntaf. Mae'n darparu fframwaith cynllunio strategol a bydd yn canolbwyntio llawer mwy ar gynllunio gwasanaethau a chynllunio ariannol, monitro cynnydd a rheoli risg pan fydd trefniadau hunangyllido yn cael eu cyflwyno. Bydd y cynllun busnes yn golygu y gellir caffael a chynllunio'n well a bydd yn rhoi mwy o sicrwydd i denantiaid a thrigolion ynghylch pa fuddsoddiad sy'n cael ei wneud yn lle a pha bryd.

**2.4** Bydd angen ystyried a fydd angen cryfhau'r trefniadau llywodraethu cyfredol ar gyfer y CRT i ymateb i'r newidiadau sylweddol yn sgil hunangyllido. Er enghraifft, sefydlu Panel neu 'Fwrdd' Strategol ar gyfer y CRT neu gryfhau'r cyswllt rhwng y Panel Tenantiaid a'r Pwyllgor Sgriwtini i oruchwylio'r cynllun busnes ar gyfer CRT a'i argymell i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer ei gymeradwyo. Bydd angen adolygu'r trefniadau monitro ar gyfer y CRT hefyd o gofio'r posibilrwydd o lefelau uwch o risg sy'n gysylltiedig â hunangyllido. Er enghraifft, efallai y bydd angen monitro yn chwarterol neu'n fisol yn y blynyddoedd cyntaf.

**3.0 Ymadael o'r system CCRT: Y Cytundeb gyda Trysorlys Ei Mawrhydi**

**3.1** Mae'r cytundeb gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi, fydd yn caniatáu i awdurdodau ymadael o'r system CCRT a dod yn hunan-gyllidol o Ebrill 2015 yn cynnwys dwy ran :-

**3.1.1** Yn gyntaf, mae angen i'r 11 awdurdod sy'n cadw stoc brynu eu hunain allan o'r CCRT cyfredol. Mae'r cytundeb yn seiliedig ar daliadau llog £40 miliwn fydd yn dod yn lle'r taliad cymhorthdal negyddol presennol o £73 miliwn. Bydd y llog £40 miliwn yn cael ei drosi yn lwmp swm prynu allan (gwerth setlo) ychydig amser cyn y dyddiad setlo a gytunwyd a bydd angen i awdurdodau gymryd benthyciadau allan gyda'r BBGC i ariannu'r prynu-allan. Bydd hyn yn golygu y bydd yr holl awdurdodau mewn gwell sefyllfa yn sgil hunan-gyllido.

**3.1.2** Yr ail ran o'r cytundeb yw bod Trysorlys Ei Mawrhydi angen i gap benthyca tai gael ei osod ar gyfer pob un o'r 11 awdurdod. Cytunwyd ar gap benthyca o £1.85 biliwn gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi ym Mehefin 2013. Mae'r cap yn cynnwys yr Angen Cyllid Cyfalaf Cyfrif Refeniw Tai (CRT ACC) a'r gwerth setlo a amcangyfrifwyd. Mae hyn yn gadael hyblygrwydd posibl ar gyfer benthyciad o £471 miliwn i awdurdodau gyfarfod ag ymrwymiadau eu cynllun busnes. Mae'r holl ffigyrau a amcangyfrifwyd yn rhai all newid oherwydd bydd yn rhaid i'r CRT ACC gael ei ddiweddaru a bydd y gwerth setlo yn seiliedig ar y cyfraddau llog fydd yn bodoli ar y pryd pan gaiff y £40 miliwn ei drosi yn werth setlo prynu-allan.

**3.3** Pe bai'r ffigyrau'n newid yn sylweddol mae'n bosibl y bydd yr hyblygrwydd hwn yn cael ei ostwng yn is na'r £471 miliwn. Pe bai'r swm y mae angen i'r Awdurdodau Tai Lleol ei fenthyca yn fwy na'r lle wrth gefn, er mwyn diogelu buddsoddiad yn SATC, y peth cyntaf a wneir fydd lleihau'r benthyciad sydd ar gael ar gyfer adeiladu o'r newydd.

**4.0 Cytundeb Gwirfoddol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cyngor**

**4.1** Oherwydd nad oedd yr amserlenni ar gyfer Deddfwriaeth y DU yn glir, cytunodd Trysorlys Ei Mawrhydi y gallai'r 11 Awdurdod Tai Lleol Cymru (ATLl) ymadael â'r system CCRT ym Mawrth 2015, yn amodol ar i Lywodraeth Cymru sicrhau a rheoli cap benthyca trwy gytundeb gwirfoddol rhwng pob un o'r 11 ATLl a Gweinidogion Cymru.

**4.2** Mae'r pwerau i Weinidogion Cymru ac AALl wneud cytundeb gwirfoddol i'w cael yn Adran 80B Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

**4.3** Mae'n hanfodol bod pob un o'r 11 AALl yn cytuno ac yn arwyddo'r cytundeb gwirfoddol, ac yn ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru erbyn 19 Ionawr 2015. Bydd methu â gwneud hynny yn golygu y bydd y CCRT yn parhau yng Nghymru hyd nes y caiff deddfwriaeth DU briodol ei chymeradwyo. Mae hyn yn golygu y bydd o leiaf £73 miliwn yn parhau i gael ei dalu yn ôl i Drysorlys Ei Mawrhydi bob blwyddyn.

**4.4** Bydd y Cytundeb Gwirfoddol rhwng Llywodraeth Cymru a phob Awdurdod Lleol ac y mae'n hanfodol ar gyfer ein hymadawiad o'r CCRT. Y pwrpas yw gosod lefel y ddyled (neu'r cap benthyca) ar gyfer pob un o'r 11 Awdurdod Lleol sy'n cadw stoc.

Bydd y Cytundeb Gwirfoddol terfynol yn rhannu lefel y ddyled i bob awdurdod lleol fel a ganlyn :-

- Benthyciad presennol (ffigwr terfynol ar gael ym mis Rhagfyr - CRT ACC)
- Benthyciad ar gyfer adeiladu o'r newydd (eisoes yn hysbys) - tua £13 miliwn
- Fformiwla SHG newydd a ddefnyddir i ddyrannu balans (ar gael ym mis Rhagfyr)
- Taliad Setliad (ar gael 31 Mawrth 2015).

**4.5** Bydd y cytundeb gwirfoddol yn gweithredu fel trefniant dros dro hyd nes y daw Mesur Cymru i rym ac fel sefyllfa disgyn yn ôl pe bai Mesur Cymru yn methu am unrhyw reswm. Unwaith y bydd Mesur Cymru yn derbyn caniatâd Brenhinol a bod y darpariaethau priodol yn cychwyn, bydd angen i'r Trysorlys ryddhau penderfyniad i Weinidogion Cymru a bydd hynny yn gosod y cap benthyca macro i Gymru. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru, yn amodol ar ymgynghori, i ryddhau penderfyniad i Awdurdodau Tai Lleol fydd yn gosod y cap benthyca ar gyfer pob Awdurdod Lleol.

**4.6** Bydd y Penderfyniad Setliad Drafft yn cynnwys siâr wirioneddol y Cyngor o'r £40m gyda gwerthoedd setlo amcangyfrifiedig yn seiliedig ar ystod o gyfraddau llog, ac yn seiliedig ar CCRT terfynol y Cyngor wedi'u harchwilio am 2013-2014 ac yn cynnwys CRT ACC wrth gyfrifo'r cap benthyca.

**4.7** Bydd y Penderfyniad Setliad Terfynol a'r Atodlen Derfynol yn cael eu cyhoeddi ar 31 Mawrth 2015 a bydd yn nodi siâr pob ALl o'r gwerth prynu-allan (yn dilyn trosi). Bydd yr union ffigwr yn dibynnu ar y gyfradd log ar gyfer benthyciadau BBGC ar 31 Mawrth 2015 pan ofynnir am y benthyciadau.

**5.0 Argymhellion**

**5.1** Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini sgriwtineiddio'r Adroddiad a chyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor Gwaith sy'n cyfarfod ar 1 Rhagfyr 2014.

Gweler isod os gwelwch yn dda, restr o'r argymhellion a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 1 Rhagfyr 2014.

***"Argymhelliad 1***
*Y Pwyllgor Gwaith i gymeradwyo tynnu allan o'r Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai (CCRT) ar 31 Mawrth 2015 a thrwy hynny ddod yn hunan-gyllidol.*

***Argymhelliad 2***
*Y Pwyllgor Gwaith i gymeradwyo trosglwyddo ein benthyciadau CRT presennol a 'chap benthyca' yn y dyfodol o Drysorlys Ei Mawrhydi i'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC)*

***Argymhelliad 3***
*Y Pwyllgor Gwaith i gymeradwyo sefydlu Cytundeb Gwirfoddol drafft gyda Llywodraeth Cymru.*

***Argymhelliad 4***
*Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i arwyddo fersiwn derfynol y Cytundeb Gwirfoddol, i'w ddychwelyd i Lywodraeth Cymru erbyn 19 Ionawr 2015.*

***Argymhelliad 5***
*Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Bennaeth y Gwasanaethau Tai ac / neu'r Swyddog Adran 151 ar y dyddiadau hanfodol pan gaiff arian ei drosglwyddo, i awdurdodi unrhyw newidiadau munud olaf yn y ffigyrau, neu unrhyw ddiwygiadau eraill i'r dogfennau trosglwyddo, all godi ar y dyddiadau allweddol (dyddiad Trosi 31 Mawrth 2015 a dyddiad Trafodiad 2 Ebrill 2015).*

***Argymhelliad 6***
*Bod copi o gynllun busnes CRT 30 mlynedd 2015 – 2045 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith i ddarparu sicrwydd ar ei ymarferoldeb, cynaliadwyaeth a fforddiadwyaeth ym mis Chwefror 2015.*


***Argymhelliad 7***
*Bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo ynglŷn â'r angen posibl y bydd y trefniadau llywodraethu cyfredol ar gyfer y CRT angen eu cryfhau er mwyn ymateb i'r newidiadau arwyddocaol a ddaw yn sgil hunan-gyllido."*

| **Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Diwygio Cyfrif Refeniw Tai : Hunan gyllido yng Nghymru, Cyfarwyddyd cychwynnol i Gynghorwyr, CLlLC, Tachwedd 2014.<br>Diwygio Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai (Diwygio CCRT), Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith, Gorffennaf 2014.<br>Polisi Rhent newydd ar gyfer Tai Cymdeithasol a Ffioedd Gwasanaeth, Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith, Hydref 2014. |

Shan L Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai
10 Tachwedd 2014

**New Local Housing Authority Self Financing System (HRAS Reform) - High Level Project Plan**

**5th October 2014**



| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I :** | **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** |
| **DYDDIAD:** | **27 TACHWEDD 2014** |
| **PWNC :** | **NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R POLISI A'R STRATEGAETH AR GYFER ADNEWYDDU TAI SECTOR PREIFAT** |
| **DEILYDD(ION) PORTFFOLIO:** | **Cynghorydd Ken Hughes** |
| **PENNAETH GWASANAETH** | **Shan Lloyd Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**Ffôn: 01248 752201**<br>**E-bost: slwhp** | **J Gwynfor Davies, Prif Swyddog Technegol**<br>**Gwenda Owen, Swyddog Tai Gwag**<br>**jgdhp@anglesey.gov.uk/goxhp@anglesey.gov.uk** |

**1.0 <u>ARGYMHELLION</u>**

**A1- Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r newidiadau i'r strategaeth a'r polisi ar gyfer adnewyddu tai sector preifat (Atodiad 1) ar yr amod y byddir yn ymgynghori gyda phartneriaid a sefydliadau allanol.**

**R2 – Bod y Pwyllgor yn cefnogi penodi Street UK Services Limited, darparwr trydydd parti, i weinyddu a rheoli cynlluniau benthyciadau ar ran y Cyngor a throsglwyddo i Street UK Services Limited yr arian a ddyrannwyd i'r Cyngor ar gyfer rhoi benthyciadau fel "Arian Cyfleuster" er mwyn gwasanaethu'r benthyciadau, yn amodol ar argymhellion y Swyddog Adran 151.**

**2.0 <u>RHESYMAU</u>**

**2.1** Yn hanesyddol, mae'r Cyngor wedi bod yn cynnig grantiau i wella tai sector preifat. Mae lefel y cyllid ar gyfer yr holl grantiau, gan gynnwys Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, wedi gweld gostyngiad o 60% dros y chwe blynedd diwethaf, o £2,200,000 yn 2009-2010 i £900,000 yn 2014-2015.

**2.2.** Mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai)(Lloegr a Chymru) 2002 wedi newid y fframwaith deddfwriaethol a oedd yn llywodraethu gallu Awdurdodau Lleol i

ddarparu cymorth ariannol i berchenogion tai ac mae'n caniatáu i awdurdodau gynnig benthyciadau. Er yn cydnabod bod benthyca arian trwy ddarparu benthyciadau y mae'n rhaid eu had-dalu yn ffordd fwy economaidd o ddefnyddio adnoddau cyfyngedig y Cyngor, cynigir y dylai'r Gwasanaethau Tai gyflwyno cymorth sy'n seiliedig ar fenthyciadau i ddisodli rhai o'r grantiau cyfredol.

**2.3** Ym mis Ionawr 2015, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu lansio Cronfa Benthyciadau Ad-daladwy ar gyfer Gwella Cartrefi fel bod modd i awdurdodau lleol ddarparu cynllun benthyciadau ar gyfer gwella cartrefi. Er mwyn cymryd rhan yn y cynllun hwn, bydd angen i'r Cyngor fod mewn sefyllfa i gynnig benthyciadau dan ei Bolisi ar gyfer Adnewyddu Tai Sector Preifat cyn y gellir tynnu arian i lawr.

**2.4** O'r herwydd, bydd angen gwneud newidiadau i'r Polisi cyfredol ar gyfer Adnewyddu Tai Sector Preifat er mwyn adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig.

**2.5** Ni fydd hyn yn cael effaith ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl mandadol a bydd y rhain yn parhau i fod ar gael dan ddarpariaethau'r Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

**3.0 CEFNDIR**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan gyfeirio at y papurau cefndir isod:-
Polisi a Strategaeth Adnewyddu Tai Sector Preifat 2012
Deddf Tai (Cymru) 2014
Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.
Pecyn Cymorth - Cynllun Benthyciadau ar gyfer Gwella Cartrefi.

**3.1** Mae cynyddu opsiynau tai a gostwng tlodi yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor.

**3.2** Mae Deddf Tai(Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd gryfach ar awdurdodau lleol i rwystro digartrefedd a bydd yn caniatáu i Gynghorau gwrdd â'u cyfrifoldeb tuag at bobl ddigartref trwy ddefnyddio llety addas yn y sector preifat a fydd felly'n golygu y bydd mwy o alw am eiddo o'r fath. Mae hefyd yn cyflwyno cynllun trwyddedu a chofrestru mandadol ar gyfer landlordiaid, asiantaethau gosod a rheoli, gyda golwg ar wella safonau tai a rheolaeth yn y sector rhent preifat.

**3.3** Cynhaliwyd arolwg o Gyflwr Tai Sector Preifat yn 2008 a nododd bod 22.3% o dai sector preifat yn arddangos perygl Categori 1 fel y diffinnir hynny yn y System Graddio Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai. Cododd hyn i 35.4% o dai sector preifat. Y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai yw'r system genedlaethol yn awr ar gyfer asesu amodau tai dan Ddeddf Tai (2004) ac mae perygl Categori 1 yn dod o restr o 29 o beryglon tai yr ystyrir eu bod yn achosi risg uchel o niwed difrifol.

**3.4** Roedd Deddf Ynni 2011 yn cynnwys darpariaeth bod raid i dai rhent preifat gwrdd â safonau effeithlonrwydd ynni sylfaenol o fis Ebrill 2018 ymlaen. Bydd y ddarpariaeth hon yn golygu y bydd yn anghyfreithlon gosod y tŷ neu adeilad busnes nad yw'n cyrraedd y safon ofynnol hon.

**3.5** Mae'r fersiwn ddrafft o Strategaeth Tai 2014 yn dwyn sylw at bwysigrwydd annog perchenogion tai preifat i barhau i gynnal eu heiddo oherwydd y gallai methiant i wneud hynny arwain at iechyd gwael a gostwng ansawdd bywyd. Ar adeg pan fo arian grant yn debygol o ddisgyn, mae'r Strategaeth yn awgrymu y dylai'r Cyngor hyrwyddo argaeledd a hygyrchedd cynlluniau benthyca i wella cartrefi a'u targedu tuag at berchen-ddeiliaid a landlordiaid preifat.

**3.6** Mae gan y Fframwaith Ynys Ynni, sy'n cynnwys y Rhaglen Ynys Ynni a Parth Menter Ynys Môn, nifer o brosiectau buddsoddi strategol mawr yn yr arfaeth, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, yr Orsaf Niwclear Newydd yn Wylfa, Grid Cenedlaethol Gogledd Cymru, Cysylltiadau Grid, digomisiynu gorsaf pŵer niwclear Magnox a pharc eco/biomas arfaethedig Lateral Power. Bydd y rhain yn golygu y bydd mwy o alw am lety sector preifat o safon dda ond hefyd efallai yn golygu y bydd perygl y bydd landlordiaid yn dewis sicrhau'r incwm mwyaf iddynt eu hunain trwy godi rhenti a all olygu bod tenantiaid cyfredol yn gorfod symud allan. Gallai hynny gael sgil-effaith ar nifer y bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

## 4.0 Crynodeb o'r ddarpariaeth gyfredol dan y polisi ar hyn o bryd

Mae'r Polisi Cyfredol, a fabwysiadwyd ym Medi 2012, yn cefnogi'r cynlluniau a ganlyn yn amodol ar bod cyllid ar gael ar eu cyfer:-

1. Grant Gwaith Trwsio Brys
2. Grant Effeithlonrwydd Ynni
3. Prynwr Tro Cyntaf – Adnewyddu Cartrefi Gwag
4. Mesurau Diogelwch Tân mewn Tai Amlbreswyliaeth
5. Cartrefi Gweigion – Cynllun Benthyca - Troi Tai'n Gartrefi
6. Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Mae'r grant hwn yn fandadol ac yn seiliedig ar brawf modd. Mae'n cynorthwyo perchen-ddeiliaid neu denantiaid anabl i aros yn eu cartrefi eu hunain. Yn y flwyddyn a aeth heibio methwyd â symud ymlaen gydag oddeutu 20 o geisiadau oherwydd nad oedd ymgeiswyr yn gallu talu eu cyfraniad tuag at y gost.

## 5.0 Darpariaeth Arfaethedig i'r Dyfodol (Polisi Ddrafft Diwygiedig - Atodiad 1)

**5.1** Mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2013-2017 yn canolbwyntio ar ostwng tlodi. Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o faterion tlodi tanwydd

yn Ynys Môn, mae'r polisi arfaethedig yn ceisio cynnig y datrysiadau gorau posib i wella effeithlonrwydd ynni mewn tai sector preifat a gwella safonau tai.

**5.2** Mae tlodi tanwydd yn digwydd pan fo aelwyd angen gwario mwy na 10% o'i hincwm ar danwydd i sicrhau lefel foddhaol o wres yn y cartref. Yn Ynys Môn nid oes gan 5.3% o gartrefi unrhyw wres canolog ac mae'r rhwydwaith nwy cyfyngedig yn Ynys Môn yn golygu bod canran uwch o gartrefi yn dibynnu mwy ar wres canolog olew neu drydan sy'n ddrutach.

**5.3** Ac eithrio Grantiau mandadol ar gyfer Cyfleusterau i'r Anabl, mae'r polisi arfaethedig yn ceisio cyflwyno benthyciadau yn lle grantiau tai sector preifat.

**5.4** Y Cynllun Arfaethedig ar gyfer Benthyciadau i Wella Cartrefi

**5.4.1** Cynigir y dylid cyflwyno un cynllun benthyciadau cyffredinol a fydd yn golygu y gallai'r cynllun weithredu gyda chyllid y Cyngor neu gyllid allanol a ddyfernir o bosib.

**5.4.2** Ym mis Ionawr 2015 mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno "Cronfa Ad-daladwy Gwella Cartrefi" fel ffordd o ddarparu cyllid ychwanegol i unigolion a busnesau i wella eu cartrefi. Pwrpas y gronfa yw sicrhau bod Awdurdodau Lleol sy'n cymryd rhan yn medru datblygu Cynllun "Benthyciadau ar gyfer Gwella Cartrefi" a dylid ei ystyried fel cronfa sy'n ychwanegu at y cymorth a gynigir ar hyn o bryd gan Awdurdodau Lleol ac nid fel rhywbeth sy'n ei ddisodli.

**5.4.3** Rhagwelir y bydd Ynys Môn yn derbyn £254,000 dros y ddwy flynedd nesaf.

**5.4.4** Bydd angen ad-dalu'r arian i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth 2030.

**5.4.5** Mewn perthynas ag ymgeiswyr nad ydynt yn ad-dalu'r benthyciadau, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad i rannu'r risg gydag Awdurdodau Lleol hyd at uchafswm o 5% o'r gronfa wedi ei rannu'n gyfartal rhwng Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru.

**5.4.6** Bydd angen ad-dalu'r benthyciadau cyn pen 5 mlynedd (ar gyfer landlordiaid preifat/datblygwyr), ond gellir estyn y cyfnod i hyd at 10 mlynedd lle darperir benthyciad i ddibenion perchen-ddeiliadaeth. Rhoddir y flaenoriaeth gyntaf i berchenogion cartrefi ac yna i landlordiaid sy'n cynnig tai fforddiadwy/hawliau enwebu dros rent marchnad.

**5.4.7** Rhoddwyd hyblygrwydd i'r Awdurdodau Lleol o ran y math o waith gellir ei gyllido trwy'r cynllun hwn. Bydd unrhyw fenthyciad ar gyfer gwneud gwaith yn gorfod bod i

bwrpas cyfrannu at wneud yr eiddo yn gynnes ac yn ddiogel. O’r herwydd, gellid defnyddio’r cynllun benthyciadau i gefnogi’r elfennau a ganlyn:-

- Tai Is-safonol gyda pheryglon Categori 1 a/neu 2 (tai rhent preifat yn unig) o restr o 29 o beryglon tai lle mae bygythiad difrifol i iechyd neu ddiogelwch preswylydd (cyfeirir at 3.3) e.e. gwres annigonol sy’n golygu bod cartrefi’n rhy oer neu’n damp, llwydni, diffyg offer diogelwch tân.
- Trwsio, Diogelwch Tân neu Ddiogelwch
- Cartrefi Gweigion (Adnewyddu/Addasu)
- Annog preswylwyr i newid drosodd i’r prif gyflenwad nwy o fewn ardaloedd mewnlenwi nwy.
- Cyllido unrhyw ddiffyg ariannol rhwng cynlluniau allanol fel Eco neu VVP a chyfanswm cost y gwaith.
- Cynorthwyo ymgeiswyr i dalu eu cyfraniad tuag at Grant Cyfleusterau i’r Anabl sy’n seiliedig ar brawf modd.

**5.4.8** Cynigir y dylid cynnig y cynllun Benthyciadau ar gyfer Gwella Cartrefi i ymgeiswyr am Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl nad ydynt yn gallu talu eu cyfraniad nhw tuag at gost y gwaith, gan sicrhau bod eu cartrefi’n cael eu haddasu’n briodol felly i gwrdd â’u hanghenion newidiol. Yn 2013-14, methwyd â bwrw ymlaen gydag oddeutu 20 o geisiadau oherwydd nad oedd ymgeiswyr un ai yn medru fforddio neu’n fodlon cwrdd â’u cyfraniad tuag at gost y gwaith. Y risg o beidio â chynnig benthyciad yw na fydd pobl fregus yn bwrw ymlaen gyda’r gwaith y mae angen ei wneud fel bod modd iddynt aros yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain.

**5.4.9** Bwriedir na fydd angen talu llog ar y benthyciadau, ond y byddai ffi weinyddol o 15%. Y benthyciad isaf fydd £1000 yn codi i uchafswm o £25,000.

**5.4.10** I liniaru’r risg na fydd pobl yn ad-dalu, cynhelir asesiad fforddiadwyedd i sicrhau bod ymgeiswyr yn gallu fforddio’r benthyciad ac nad oes ganddynt hanes credyd gwael, e.e. dyledion i’r Cyngor. Bydd yr holl fenthyciadau’n cael eu sicrhau gan bridiant yn erbyn yr eiddo. Mae gwybodaeth bellach mewn perthynas â lliniaru’r risgiau hyn i’w gweld yn y Pecyn Cymorth ar gyfer Gwella Cartrefi.

## 6.0 Gweinyddu’r Cynllun Gwella Cartref Arfaethedig

**6.1** Bydd angen asesiad ariannol trwyadl ar gyfer darparu benthyciadau i ymgeiswyr i sicrhau eu bod yn fforddiadwy, gan gymryd i ystyriaeth incwm a gwariant yr aelwyd. Bydd angen lefel uchel o reolaeth dydd i ddydd ar gyfer y cynllun hefyd i leihau’r risg y bydd ymgeiswyr ddim yn ad-dalu. Bwriedir felly allanoli’r elfen hon o’r gwaith i sefydliad trydydd parti.

**6.2** Cynigir felly bod y Cyngor yn ymuno â'r Cytundeb Fframwaith cyfredol a gafaelwyd gan Gyngor Sir Ddinbych ac a ddyfarnwyd i Street UK Services Cyf., ar ran y chwe awdurdod yng Ngogledd Cymru. Cymeradwywyd hyn mewn egwyddor gan Swyddog Adran 151 y Cyngor yn amodol ar (i) bod yr Adain Gyfreithiol yn cymeradwyo'r benthyciad a'r trefniadau pridiant, a (ii) bod yr 'arian cyfleuster' yn dod o gyllid gan LlC ar gyfer y cynllun ac, os yn llwyddiannus, y cais am arian cyfalaf i'r Adran Gyllid.

**6.3** Mae Street UK Services Cyf., yn sefydliad trydydd parti sydd wedi rheoli'r gwaith o weinyddu Benthyciadau Eiddo a Benthyciadau i Berchenogion Cartrefi sydd ar incwm isel ar ran Cynghorau Sir y Fflint, Ddinbych a Gwynedd. Mae'r tri Chyngor wedi bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth a ddarparwyd. Trwy ddefnyddio Street UK Services Cyf., i ddarparu'r cynllun ar ran Ynys Môn, byddwn yn sicrhau ymagwedd gyson ar draws y rhanbarth gan gydymffurfio gyda gofynion Llywodraeth Cymru.

**6.4** O fewn y cytundeb fframwaith byddai'r Cyngor yn cytuno i drosglwyddo'r gronfa a ddyrannwyd iddo i Street UK Services Cyf., fel "Arian Cyfleuster" er mwyn gwasanaethu'r benthyciadau. Mae "Arian Cyfleuster" yn golygu'r swm a ddarparwyd gan neu ar ran y Cyngor i'r Cwmni i bwrpas darparu benthyciadau.

**7.0 <u>Cynllun Troi Tai'n Gartrefi (2)(2015-2016)</u>**

**7.1** Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cyhoeddiad ynghylch cyllid ad-daladwy ychwanegol (oddeutu £245,000) fel bod modd i Ynys Môn gynnig ail gynllun Troi Tai'n Gartrefi. Y prif wahaniaeth rhwng yr ail gynllun hwn a'r cynllun cyntaf yw y bydd raid ad-dalu'r cyllid i Lywodraeth Cymru yn 2030.

**7.2** Mae'r Gwasanaethau Tai wedi gweinyddu'r Cynllun Troi Tai'n Gartrefi'n llwyddiannus, sef y cynllun cyntaf a lansiwyd yn 2012, a bwriedir defnyddio'r broses sydd eisoes wedi ei sefydlu i ddarparu'r ail gynllun.

**7.3** Mae'r cynllun Troi Tai'n Gartrefi yn cynnig cymorth ariannol i berchenogion eiddo sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac sy'n fodlon eu hadnewyddu i ddod a nhw'n ôl i ddefnydd, un ai i'w gosod neu i'w gwerthu ymlaen. Er y rhoddir blaenoriaeth i gartrefi cyfredol, gellir cynnig cymorth ariannol hefyd i addasu adeiladau gwag. Gall y gwaith cymwys fod yn waith strwythurol, ailweirio, gosod systemau gwresogi, gosod ceginau/ystafelloedd ymolchi newydd.

## 8.0 Cyllid Mewnol – Gronfa Gyfalaf Gyffredinol

**8.1** Mae'r Gwasanaethau Tai wedi cyflwyno cais i'r Gwasanaethau Cyllid am gyllid cyfalaf i ddisodli grantiau tai sector preifat dewisol gyda chynllun benthyciadau ar gyfer gwella cartrefi. Os bydd y cais yn llwyddo, bydd y cynllun hwn yn rhedeg ochr yn ochr â chynllun benthyciadau a gyllidir trwy Gronfa Ad-daladwy Llywodraeth Cymru.

## 9.0 Cyfleon Cyllido Allanol

**9.1** Bydd y Gwasanaethau Tai yn parhau i fanteisio ar bob cyfle i ddenu cyllid allanol er mwyn lleihau'r baich ariannol ar y Cyngor.

**9.2** Bydd y Cyngor, gan weithio gyda Gofal a Thrwsio, Canolfannau Cynghori ar Bopeth a'r Swyddog Cynhwysiad Ariannol, yn annog preswylwyr cymwys bregus sy'n byw mewn tai sy'n aneffeithiol o ran arbed ynni i edrych ar y posibilrwydd o gael cyllid gan gwmnïau ynni neu Lywodraeth Cymru ar gyfer mesurau effeithlonrwydd. Os nad yw deiliaid yn gymwys byddant yn cael eu hystyried ar gyfer Benthyciad Gwella Cartref.

**9.3** Mewn ymdrech i fanteisio ar bob cyfle am gyllid allanol, mae'r Cyngor yn cydweithio gydag Uned Ynni arbenigol a phrofiadol Cyngor Sir y Fflint i wneud cais am gyllid Arbed gan Lywodraeth Cymru a chais am arian dan Raglen Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni. Mae gan yr Uned hon y profiad a'r arbenigedd i wneud cais am arian ac i wneud gwaith effeithlonrwydd ynni ar gyfer deiliaid preifat mewn partneriaeth gyda'r Cyngor. Ceir gwybod am ganlyniad y cais am arian cyn diwedd y flwyddyn.

**9.4** Mae'r Cyngor yn targedu £1,215,000 o gyllid a gafwyd dan Raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ar gyfer adnewyddu trefol am y cyfnod 2014-17 er mwyn gwneud gwell defnydd o'r stoc dai trwy welliannau sydd wedi eu targedu at eiddo neu dai gweigion, a hynny er mwyn dod â nhw'n ôl i ddefnydd a helpu prynwyr tro cyntaf i foderneiddio tai is-safonol neu dai gweigion a gwelliannau effeithlonrwydd ynni a gwelliannau ailweirio trydanol.

# STRATEGAETH A PHOLISI ADNEWYDDU'R SECTOR TAI PREIFAT 2014

# STRATEGAETH A PHOLISI ADNEWYDDU'R SECTOR TAI PREIFAT

## TUDALEN GYNNWYS


| Tud | ADRAN 1 - CEFNDIR |
|---|---|
| 4 | Cefndir - cyflwyniad |
| 5 | Cyd-destun Strategol Lleol a Chenedlaethol |
| 7 | Amcanion Strategol |
| 9 | Mathau o Gymorth sydd ar Gael |
| 9 | Grant Cyfleusterau i'r Anabl |
| 12 | Cynllun Benthyca Gwella Cartrefi |
| 13 | Gweinyddu Benthyciadau |
| 14 | Materion Cyffredinol yn ymwneud â Benthyciadau Gwella Cartrefi |
| 16 | Cynllun Benthyca Troi Tai'n Gartrefi |
| 17 | Amodau ynghlwm wrth Fenthyciadau Troi Tai'n Gartrefi |
| 19 | Grantiau / Benthyciadau – Ystyriaethau Pwysig |
| 20 | Elfennau Allweddol o'r Cymorth sydd ar Gael |
| 20 | Grant Cyfleusterau i'r Anabl |
| 21 | Grant Cyfleusterau i'r Anabl ( Adleoli) |
| 22 | Grant Cyfleusterau i'r Anabl – Benthyciad Cyfrannu |
| 23 | Benthyciadau Atgyweirio Cartrefi |
| 24 | Benthyciad Effeithlonrwydd Ynni |
| 25 | Benthyciad Diogelwch Tân |
| 25 | Benthyciad Adnewyddu i Brynwyr Tro Cyntaf |
| 26 | Troi Tai'n Gartrefi - Benthyciad Eiddo Gwag |
| 28 | Crynodeb o Gyfrifoldeb y Cyngor, yr Ymgeisydd, yr Asiant a'r Contractwr |

**ATODIADAU**

**Pecyn Cymorth Benthyciadau Gwella Cartrefi**

**Côd Ymarfer i Asiantiaid**

**Côd Ymarfer - Derbyn a chytundeb**

**Asesiad o Fforddiadwyedd i Brynwyr Tro Cyntaf**

**Troi Tai'n Gartrefi – Benthyciadau Adnewyddu Eiddo**

## STRATEGAETH A PHOLISI ADNEWYDDU'R SECTOR TAI PREIFAT

## CEFNDIR

**CYFLWYNIAD**

Yn sgil Cyflwyno Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymru a Lloegr) 2002 cymeradwywyd Polisi Adnewyddu Tai'r Sector Preifat yn 2004 a chafodd ei adolygu ym mis Medi 2012.

Nod y polisi hwn oedd cysylltu canfyddiadau arolwg 2009 o gyflwr stoc dai'r sector preifat trwy flaenoriaethu ceisiadau am gymorth gan deuluoedd yn byw mewn eiddo oedd â pheryglon a nodir yn rhai Categori 1 neu eiddo yr oedd angen eu hatgyweirio'n strwythurol.

At hyn, rhoddwyd blaenoriaeth i gynorthwyo deiliaid tai i wella safonau effeithlonrwydd ynni cartrefi, mynd i'r afael â thlodi tanwydd a gostwng allyriadau carbon. Rhoddwyd y cymorth hwn trwy arian grant nad yw bellach yn gynaliadwy dan y pwysau ariannol sydd ohoni.

I gydnabod ansicrwydd ynghylch dyfodol arian cyfalaf, mae wedi gyrru'r angen i symud i ffwrdd oddi wrth grantiau traddodiadol i fath o fenthyciadau ailgylchadwy. Mae hefyd yn ymateb i gyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynghylch Cronfa Benthyciadau Gwella Cartrefi sydd i'w lansio ym mis Ionawr 2015. Daw hyn ag Arian Ad-daladwy yn 2014-15 a 2015-16, yn ogystal â chyllid y Cyngor ei hun ar gyfer benthyciadau. Gall y Cyngor ddefnyddio'r arian hwn i gynorthwyo deiliaid tai'r sector preifat yn unol â'u polisïau tai yn y sector preifat.

O'r herwydd, mae'r polisi isod yn adlewyrchu'r gwasgu sydd ar arian grant ac mae'n nodi'r mathau o gymorth ariannol sydd ar gael i berchenogion tai, tenantiaid y sector preifat a'u landlordiaid i wella cyflwr eiddo neu i wneud addasiadau i bobl ag anableddau. Ynddo mae gwybodaeth am feini prawf cymhwyso, gweithdrefnau ac amodau cymorth yn unol â nodau Llywodraeth Cymru.

Mae'r Polisi hwn yn cydnabod pwysigrwydd cyfleoedd ariannu allanol sy'n cynnwys adnoddau o:-

- Raglen Arbed Llywodraeth Cymru (a gefnogir yn rhannol trwy'r Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd (yr ERDF)
- Cronfa Benthyca Ad-daladwy Gwella Cartrefi
- Cronfa Benthyca Ad-daladwy Troi Tai'n Gartrefi
- Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru
- Cynllun NYTH Llywodraeth Cymru
- Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO).

## CYNNWYS STRATEGOL LLEOL A CHENEDLAETHOL

Blaenoriaeth allweddol yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2013 - 2017 yw "cynyddu ein hopsiynau tai a gostwng tlodi" ac i gydnabod yr amgylchedd ariannol cynyddol anodd, mae'r Adran Cymuned wedi ymrwymo i:

- Gefnogi Nodau a Blaenoriaethau Strategol y Cyngor
- Cynorthwyo i gynnal cartrefi sy'n addas i fyw ynddynt
- Mynd i'r Afael â Thlodi Tanwydd
- Hyrwyddo'r defnydd gorau o stoc dai'r Ynys
- Creu cymunedau i bobl leol, gan annog defnyddio'r Gymraeg
- Trwy ddefnyddio benthyciadau ailgylchadwy ( ac eithrio Grantiau Cyfleusterau i'r anabl sy'n fandadol) a lle bo'n briodol ysgogi gwaith i eiddo y mae'n angenrheidiol eu hatgyweirio, eu gwella, diogelwch tân ac effeithlonrwydd ynni yn y sectorau perchen-feddianwyr a rhentu preifat
- Blaenoriaethu'r angen i ailddefnyddio eiddo addas gwag ac sydd wedi mynd â'u pennau iddynt fel llety
- Gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael, gan gydnabod mai, yn sylfaenol, cyfrifoldeb pob perchennog tŷ/eiddo yw cynnal ei eiddo ei hun.

Fel y nodwyd yn fersiwn ddrafft Strategaeth Dai 2014, oherwydd y perygl i iechyd a'r effaith ar ansawdd bywyd, mae'n bwysig bod perchenogion tai preifat yn parhau i gael eu hannog i gynnal eu heiddo. Ar adeg pan fo'n debygol na fydd cymaint o arian grant i gynorthwyo hyn, rhaid sicrhau bod cynlluniau benthyca ar gael. Gallai arian benthyca hefyd gynorthwyo landlordiaid preifat i wella ansawdd tai ar rent.

Mae gan y Fframwaith Ynys Fenter, sy'n ymgorffori'r Rhaglen Ynys Ynni a Pharth Menter Môn nifer o brosiectau buddsoddi strategol mawr ar y gweill gan gynnwys yr Adeilad Niwclear Newydd yn yr Wylfa, Grid Cenedlaethol Gogledd Cymru, Grid Connections, datgomisiynu'r Atomfa Magnox bresennol a pharc eco/biomas arfaethedig Lateral Power. Nid yn unig y bydd y rhain yn cynyddu'r galw am lety sector preifat o ansawdd dda ond byddant hefyd yn codi'r perygl o landlordiaid yn troi allan tenantiaid gan ddewis gwneud mwy o arian trwy ofyn rhent uwch. O'r herwydd, bydd mwy o bobl yn wynebu bod yn ddigartref.

### Strategaeth Dai Genedlaethol i Gymru:
### Gwella Bywydau a Chymunedau – Cartrefi yng Nghymru.

Yn hon, nodir tair blaenoriaeth allweddol i Gymru, sef:

- Mwy o dai a mwy o ddewis
- Gwella cartrefi a chymunedau
- Gwella gwasanaethau cefnogi sy'n ymwneud â chartrefi a chefnogaeth yn enwedig felly i bobl fregus a phobl o grwpiau lleiafrifol.

**Y Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd i Gymru 2009-2019**

Dyma'r nodau strategol a nodir yn y ddogfen hon:

- Rhwystro digartrefedd lle bynnag y bo modd;
- Gweithio ar draws ffiniau sefydliadau a pholisïau;
- Gwneud defnyddwyr gwasanaethau'n ganolbwynt i gyflenwi gwasanaethau;
- Sicrhau cynhwysiad cymdeithasol a mynediad cyfartal at wasanaethau;
- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

Adlewyrchir nodau'r strategaethau hyn yn Neddf Tai Cymru a gafodd gydsyniad brenhinol ym mis Medi 2014.

Bydd y pwerau a'r rhwymedigaethau tai newydd yn y Ddeddf yn bwysig i lunio dull gweithredu'r awdurdod mewn meysydd allweddol o waith tai gan gynnwys atal digartrefedd, gwella safonau yn y sector rhentu preifat ac ailddefnyddio cartrefi gwag.

Mae'r cyd-destun deddfwriaethol ar gyfer rhoi sylw i gyflwr tai gwael yn y sector preifat a chefnogi teuluoedd bregus i'w weld yng Ngorchymyn Diwygio Rheoleiddio (CymorthTai) (Cymru a Lloegr) 2002. Gwnaeth erthygl 3 y Gorchymyn hwn hi'n bosib i Awdurdodau Lleol ddatblygu dulliau newydd o gymorth ariannol trwy ddarparu benthyciadau, yn cynnwys cynhyrchion rhyddhau ecwiti, llog yn unig, llog a gronnir a benthyciadau ad-dalu. Bydd yr Adran Cymuned yn defnyddio'r pwerau hynny i roi mwy o ddewis o ran cymorth ariannol.

Bydd rhoi sylw i faterion tai'r sector preifat gydag ychydig yn unig o adnoddau'n golygu bod yn rhaid bod yn arloesol er mwyn sicrhau bod cymaint o eiddo â bo modd yn cael y buddsoddiad gofynnol i sicrhau dyfodol tymor hir y stoc dai.

Mae gan waith Adnewyddu Tai'r Sector Preifat rôl allweddol i'w chwarae trwy:

- Gynorthwyo preswylwyr hŷn ac anabl i fyw'n annibynnol trwy ddarparu grantiau cyfleusterau i'r anabl.
- Cynyddu cyflenwad o dai fforddiadwy trwy gynorthwyo i wella eiddo gwag a'u troi i fod yn dai y mae modd eu hailddefnyddio.
- Gwella effeithlonrwydd ynni anheddau trwy annog deiliaid tai i ddefnyddio rhaglenni a ariennir gan y Llywodraeth a Chwmnïau Ynni megis, NYTH, ECO ac ARBED.
- Datblygu cymorth sy'n seiliedig ar fenthyciadau fel bod modd i berchenogion cartrefi incwm isel wella eu heiddo.
- Defnyddio'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid i gefnogi gwaith gwella tai.

Yn ogystal, mae galw cynyddol am dai fforddiadwy a welwyd yn y Gofrestr Tai Cymdeithasol a gedwir gan y Cyngor, gwaith y Swyddog Galluogi Tai Gwledig, Datganiad Darparu Tai Fforddiadwy ac Astudiaethau Llywodraeth Cymru.

Mae tai gwag a rhai sy'n mynd â'u pennau iddynt ym Môn yn adnoddau hynod wastraffus. Caiff hyn ei gydnabod trwy Strategaeth Tai Gwag y Cyngor. Ceisia'r strategaeth hon annog perchenogion i ailddefnyddio'r eiddo hyn trwy nifer o ffyrdd a darparu tai fforddiadwy y mae eu dirfawr angen.

Pe bai'r Cyngor yn gwybod am sefyllfa sy'n gwarantu cymryd camau gorfodi statudol, byddid yn ystyried cymryd y cyfryw gamau. Y brif ddeddfwriaeth a ddefnyddir gan y Cyngor i weithredu safonau yn y sector rhentu preifat yw Deddf Tai 2004.

**AMCANION STRATEGOL**

Ceir gwahaniaethau amlwg rhwng ardaloedd mwyaf ffyniannus yr ynys a'r rhai mwyaf difreintiedig. Ar sail Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011, ceir ar yr ynys rai o wardiau mwyaf difreintiedig (yng Nghaergybi a Llangefni) a rhai lleiaf difreintiedig Cymru. Yn y mynegai amddifadedd hwn ceir elfennau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â thai (h.y. gorlenwi, dim gwres canolog) ac eraill y mae absenoldeb tai addas yn cael effaith arnynt (iechyd, diogelwch cymunedol, addysg).

Yn ôl Arolwg o Gyflwr Tai'r Sector Preifat a gynhaliwyd yn 2008, roedd 22.3% o dai'r sector preifat yn dangos perygl Categori 1 yn y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai. Cododd y ganran i 35.4 o dai rhent preifat. Daeth y system Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai i fod y system genedlaethol ar gyfer asesu cyflwr tai dan y Ddeddf Tai (2004) a daw'r perygl Categori 1 o restr o 29 o beryglon tai a restrir lle credir bod peryglo o niwed difrifol.

Yn y Bil Ynni (2011) roedd darpariaeth bod raid i bob eiddo rhent preifat sgorio o leiaf E yng nghyswllt ei effeithlonrwydd ynni. Bydd y ddarpariaeth hon yn ei gwneud yn anghyfreithlon i rentu tŷ neu eiddo busnes nad yw'n cyrraedd y safon sylfaenol hon.

Mae gan Wasanaethau Tai rôl bwysig i'w chwarae wrth roi sylw i'r heriau o'n blaenau o ran darparu yn erbyn y blaenoriaethau yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor ac maent wedi ymrwymo i:

- Gefnogi perchen-feddianwyr sy'n byw mewn cartrefi o ansawdd isel i'w gwella, gan roi pwyslais penodol ar effeithlonrwydd ynni gwell, gostwng tlodi tanwydd a sicrhau bod cartrefi 'n gynnes, yn saff ac yn ddiogel.
- Cynnig anogaeth i berchenogion sy'n dymuno ailddefnyddio eiddo sydd wedi bod yn wag ers tro maith.
- Cefnogi landlordiaid/datblygwyr i ddarparu llety o ansawdd uchel a chynyddu nifer yr eiddo gan gynnwys tai amlbreswyliaeth.

Yr amcan allweddol fydd symud oddi wrth y system grantiau traddodiadol a chyflwyno cynlluniau sy'n hunangyllidol yn y dyfodol oherwydd wrth i'r benthyciadau gael eu had-dalu, caiff yr arian ei ailddefnyddio i ariannu cynlluniau'r dyfodol.

Wrth ddatblygu'r polisi hwn, rhoddwyd ystyriaeth i'r materion allweddol a ganlyn:

- Canllawiau Adnewyddu Tai Llywodraeth Cynulliad Cymru (Cylchlythyr 20/02), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r strategaeth fod yn seiliedig ar dystiolaeth, yn realistig ac yn gyraeddadwy.
- Canfyddiadau Arolwg 2009 o Gyflwr Stoc Dai'r Sector Preifat.
- Bod angen i'r Cyngor chwarae ei ran o ran cwrdd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru.
- Bod angen darparu Grantiau statudol Cyfleusterau i'r Anabl gan gydnabod fod newidiadau demograffig yn cynyddu nifer y bobl hŷn a bregus.
- Bydd raid wrth groestoriad sylweddol o feysydd gwasanaeth i weithredu'r Strategaeth yn effeithiol a bydd raid i sefydliadau allanol gytuno ar ddarparu dulliau gweithredu wedi'u blaenoriaethu.
- Nid oes modd gwahanu gweithredu oddi wrth ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r Cyngor fel yr Awdurdod Tai Lleol.
- Mae gan y Cyngor bwerau statudol helaeth i ymyrryd os yw'n credu bod cyflwr y tai'n annerbyniol.
- Effaith cyflwr gwael tai ar iechyd corfforol a meddyliol a lles.

Yr hyn y mae'r strategaeth yn canolbwyntio arno fwyaf yw blaenoriaethu cefnogaeth i bobl anabl gael at grantiau cyfleusterau i'r anabl, mynd i'r afael â thlodi tanwydd, eiddo gwag a chynorthwyo prynwyr tro cyntaf.

Bydd y polisi hwn hefyd yn rhoi sylw i flaenoriaethau eraill megis cynorthwyo landlordiaid y sector rhentu preifat gyda thai sy'n is na'r safon yng nghyswllt peryglon a nodwyd yn beryglon Categori 1 neu Gategori 2.

Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o faterion tlodi tanwydd ar yr ynys, mae'r polisi hwn yn ceisio cynnig yr atebion gorau posib, gyda chymorth sefydliadau ac adnoddau allanol i roi sylw i dlodi tanwydd a chynyddu effeithlonrwydd ynni yn nhai'r sector preifat.

Mae tlodi tanwydd yn digwydd pan fo raid i deulu wario mwy na 10% o'i incwm ar danwydd i'r teulu er mwyn cynnal lefel dderbyniol o wres. Amcangyfrifir bod 30% o deuluoedd a 33% o deuluoedd bregus mewn tlodi tanwydd yng Nghymru yn ei chyfanrwydd (Rhagamcanion 2012 yn seiliedig ar wybodaeth sylfaenol 2008 - Y Sefydliad Ymchwil Adeiladu BRE). Er nad oes gan yr Awdurdod Lleol ffigwr, gan nad oes cyflenwad nwy mewn rhannau o'r ynys ac oherwydd oes y stoc dai, mae'n golygu bod y lefel yn debygol o fod yn uwch ym Môn. At hyn, Ym Môn, nid oes gan 5.3% o gartrefi wres canolog ac mae'r rhwydwaith nwy cyfyngedig ar yr ynys yn golygu bod canran uchel o gartrefi'n dibynnu ar wres canolog olew neu drydan sy'n ddrutach.

# MATHAU O GYMORTH SYDD AR GAEL

## GRANTIAU CYFLEUSTERAU I'R ANABL

Gweinyddir y **Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (**mandadol) a'r Grant Adleoli Cyfleusterau i'r Anabl ( dewisol) dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996, fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 3 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002 ac Atodiad J2 Cylchlythyr 59/96.

Mae dau grant ar gael i ymgeiswyr cofrestredig neu gofrestradwy yn sgil cyfeiriad gan Therapydd Galwedigaethol fel eu bod, cymaint â bo modd, yn ateb tymor hir i'w hanghenion tai.

Dylai ymgeiswyr sy'n dymuno gwneud cais gysylltu'n gyntaf â Swyddog Dyletswydd y Gwasanaethau Cymdeithasol ar 01248 752734 neu 752054

**Materion Cyffredinol sy'n ymwneud â Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl**

**Ymgeiswyr sy'n Cymhwyso**

- Byddant yn gorfod cael y 'prawf modd' Statudol Cenedlaethol er mwyn asesu faint o gyfraniad y mae modd ei wneud.
- Fel arfer, ni fydd y rhai sy'n derbyn budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd yn gorfod gwneud cyfraniad o gwbl.
- Gall y rhai a all ddangos nad oes modd iddynt dalu eu cyfraniadau oherwydd caledi ariannol neu resymau eraill y mae modd eu cyfiawnhau, wneud cais am fenthyciad am gyfnod i'w bennu gan yr aseswr ariannol trydydd parti.
- Gyda chaniatâd yr ymgeisydd, bydd y Cyngor yn cyfeirio ymholiadau at Asiantaeth Gofal a Thrwsio Môn sy'n ymroddedig i gynorthwyo pobl hŷn ac anabl ac maent yn cymryd rhan weithgar yng ngwaith cefnogi ymgeiswyr sy'n gymwys am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

**Noder: Gallai ymgeiswyr ddewis Asiant Proffesiynol eu hunain i weithredu ar eu rhan.**

**Ffïoedd a Thaliadau Cymwys**

Os penodir Asiantiaid Proffesiynol, ar ôl i'r Cyngor ei gymeradwyo a'r ymgeisydd ei gadarnhau, mae modd talu iddo ffi o 10% yn cynnwys TAW gost gwaith cymwys dros £10,000 a ffi o 12% am waith dan £10,000. Mae modd talu ffi o o leiaf £250 os yw cost y gwaith cymwys yn syrthio dan £2,084.

Mae modd ystyried y ffioedd a ganlyn hefyd ar gyfer cymorth:
- Rheoliadau Cynllunio a Chaniatâd Cynllunio
- Arolwg o nwy Radon
- Arolwg technegol a strwythurol

- Adroddiadau arbenigol, e.e. trydanol, cwrs atal lleithder, trin coed

**Amodau Talu**

Taledigion:
Gwneir y taliadau'n uniongyrchol i'r ymgeisydd oni ddefnyddir Asiant a fydd yn tystio pa bryd y bydd taliadau'n cael eu gwneud i'r Contractwr.

**Pridiant Tir**

Bydd maint y grant a ddyfernir ac sydd dros £5000.00 a hyd at £36,000 yn cael ei gofrestru fel Pridiant Tir ar yr eiddo am gyfnod o hyd at 5 mlynedd o'r dyddiad y tystiwyd y cwblhawyd y gwaith. Ar ddiwedd y cyfnod 5 mlynedd neu ar ôl gwerthu/trosglwyddo'r eiddo, bydd y Cyngor yn tynnu'r pridiant tir oddi ar y teitl cofrestredig.

Bydd unrhyw grant a ddyfernir dros £36,000 yn cael ei gofrestru fel Pridiant Tir Lleol am byth.

**Ad-dalu grant ar ôl gwerthu**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dan bwerau Erthygl 3 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002 y fframwaith ar gyfer grantiau a gynhwysir yn Neddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 fel y'i deddfwyd yn wreiddiol ac mae'n berthnasol i'r holl Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (ac eithrio dan £5,000).

Lle mae perchennog yr eiddo a gafodd gymorth grant yn gwerthu ei fudd yn yr eiddo, un ai'n gyfan neu'n rhannol, heb ganiatâd blaenorol y Cyngor, yna bydd y perchennog yn gyfrifol am ad-dalu swm y grant a ddyfarnwyd ar gais yn ogystal ag adlog ar raddfa fenthyca gyffredinol y banc.

Lle mae perchennog yr eiddo a gafodd gymorth grant yn gwerthu ei fudd yn yr eiddo, un ai'n gyfan neu'n rhannol, gyda chaniatâd blaenorol y Cyngor, yna efallai bydd y perchennog yn gyfrifol am ad-dalu swm cyfan y grant a ddyfarnwyd neu ran ohono, gan ddibynnu ar amgylchiadau'r gwerthu. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei haeddiant.

Caiff eiddo a werthir hyd at y terfyn cyffredinol eu heithrio pan fyddant yn gysylltiedig â'r isod:

- Mae'r perchennog yn gwerthu er mwyn mynd i fyw i ysbyty, hosbis, tŷ arbenigol, cartref gofal preswyl neu sefydliad tebyg fel ei brif neu unig breswylfa.
- Mae'r perchennog yn gwerthu er mwyn byw gydag aelod o'i deulu a gofalu amdano.
- Mae morgeisai mewn meddiant
- Mewn amgylchiadau eithriadol bydd y Cyngor yn gweithredu ei ddisgresiwn i beidio â mynnu ad-daliad o'r grant neu fynnu swm llai os gwerthir yn sydyn. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei haeddiant.

**Twyll – Camddefnyddio Arian Grant**

Mae gan y Cyngor bolisi lle na fydd yn goddef achosion o dwyllo a chamddefnyddio'r system grantiau. Bydd yn edrych i mewn yn drylwyr i achosion lle amheuir twyll a lle canfyddir achos o gamddefnyddio, bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at yr heddlu er mwyn cynnal achos troseddol.

**Adolygu cwynion / penderfyniadau**

Mae gan y Cyngor drefn gwyno ffurfiol ac mae copi ar gael ar gais.

Dylai unigolion sy'n bryderus ynghylch unrhyw agwedd o'r gwasanaeth grant ysgrifennu'n gyntaf at Gyfarwyddwr yr Adran Cymuned, gan nodi y dylid ymdrin â'r mater fel cwyn a rhestru'r union bryderon. Pan fo'r pryder yn ymwneud â pheidio â rhoi ystyriaeth briodol i gais am gymorth yn unol â'r amodau hyn, yna mae modd gofyn am i'r penderfyniad gael ei adolygu.

**Targedau Perfformiad**

Y targed cenedlaethol yw y dylid gwneud penderfyniad ar gais am grant llawn cyn pen chwe mis i ddyddiad y cais. Mae'r adain Adnewyddu Tai wedi mabwysiadu targed mewnol o dri mis i wneud penderfyniad. Caiff y targed hwn ei fonitro'n fewnol ac mae modd i ymgeiswyr nad ymdriniwyd â nhw o fewn yr amserlen hon ymdrin â'r mater hwn fel cwyn gan ysgrifennu at Gyfarwyddwr yr Adran Cymuned fel yr uchod.

**Benthyciadau Gwella Cartrefi**

**(Gweler Atodiad 1 - Pecyn Cymorth Benthyciadau Gwella Cartrefi) Noder – Bwriad unrhyw gymorth ariannol a gynigir yw helpu i gwrdd ag anghenion tai ac nid i greu incwm ychwanegol i'r derbynnydd. Rhoddir pob cefnogaeth ar yr amod bod arian ar gael.**

Bydd raid cymryd prawf fforddiadwyedd i gael Benthyciad Gwella Cartrefi a bydd ffi weinyddol o 15% yn cael ei rhoi ar bob benthyciad yn unol â'r cytundeb cydweithredol rhanbarthol.

Er mwyn sicrhau na roddir pobl ar incwm isel dan anfantais a chydag eithriad y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl sy'n grantiau gorfodol (sy'n destun prawf modd statudol), bydd raid cynnal asesiad fforddiadwyedd i gael y benthyciadau.

Fel bod modd i awdurdodau gynnig Benthyciadau Gwella Cartrefi, mae Llywodraeth Cymru'n lansio cynllun Benthyciad Gwella Cartrefi newydd ym mis Ionawr 2015 ac yn rhoi i awdurdodau Gronfa Ad-daladwy a fydd yn ad-daladwy yn 2030.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddant yn ariannu hyd at hanner o ddim mwy na 5% o achosion lle nad ad-delir y taliadau gyda'r Cyngor yn gyfrifol am ariannu'r gweddill.

Dyma'r math o fenthyciadau y bydd Gwasanaethau Tai yn eu darparu dan y cynllun:-

- **Atgyweirio a Gwella Cartrefi**
  Cymorth i berchenogion cartrefi na fyddai, fel arall, yn gallu fforddio'r costau sydd ynghlwm wrth ymdrin â pheryglon yn sgil atgyweiriadau hanfodol neu frys, e.e. oherwydd nam trydanol difrifol, strwythur yn dymchwel, problemau difrifol gyda thamprwydd ac ati.
  Mae Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan sicrhau bod benthyciadau ar gael i berchen-feddianwyr a landlordiaid preifat gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i berchen-feddianwyr ac i eiddo y nodir bod ynddynt beryglon Categori 1 a/neu 2.

- **Gwaith Effeithlonrwydd Ynni a diffyg y rhaglenni ECO a Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid**
  Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o faterion tlodi tanwydd ar yr ynys, mae'r polisi hwn yn ceisio cynnig yr atebion gorau posib i gynyddu effeithlonrwydd ynni mewn tai yn y sector preifat. Bydd cymorth ar gael i wella effeithlonrwydd ynni tai'r sector preifat a'i brif nod fydd ychwanegu at gymorth ariannol cynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru a chwmnïau ynni. Bydd benthyciadau ar gael pan na fydd y cynlluniau hyn yn medru bod o gymorth.

Mewn ymgais i wneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu allanol, mae'r Cyngor yn cydweithio gydag Uned Ynni profiadol ac arbenigol Cyngor Sir y Fflint er mwyn bidio ar gyfer Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO) ac arian Arbed Llywodraeth Cymru. Mae gan yr Uned hon yr arbenigedd a'r profiad i fidio am waith effeithlonrwydd ynni a'i ddarparu i ddeiliaid tai preifat mewn partneriaeth â'r Cyngor.

Bydd y cynllun Benthyciadau Gwella Cartrefi'n cael ei gynnig i ddeiliaid tai i ariannu unrhyw ddiffyg rhwng arian ECO/Llywodraeth Cymru/Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid a chyfanswm cost y gwaith.

Dan y rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yng Nghaergybi, mae'r Cyngor wedi sicrhau arian i wella ansawdd ac effeithlonrwydd ynni cartrefi a all redeg law yn llaw â chynlluniau ECO i ddarparu systemau gwresogi newydd a rhai sydd wedi'u huwchraddio.

- **Camau Diogelwch Tân**
  I gydnabod pwysigrwydd camau diogelwch tân priodol mewn eiddo amlbreswyliaeth h.y.Tai Amlbreswyliaeth, rhoddir Benthyciadau Diogelwch Tân i landlordiaid iddynt osod neu uwchraddio offer diogelwch tân. Bydd benthyciadau hefyd ar gael i annog gwelliannau strwythurol a diogelwch mewn eiddo amlbreswyliaeth dan Adrannau 254, 257 a 258 Deddf Tai 2004 "lle meddiannir eiddo gan dri neu fwy o unigolion nad ydynt yn perthyn i'w gilydd ac nid ydynt yn un teulu".

- **Benthyciad Cyfrannu at Grant Cyfleusterau i'r Anabl**
  Cynorthwyo ymgeiswyr cofrestredig neu gofrestradwy i dalu eu cyfraniadau, pan nad oes dull arall o ariannu ar gael neu pan nad yw'n fforddiadwy, er mwyn cael Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

- **Cysylltu â'r Brif Bibell Nwy mewn Ardaloedd Mewnlenwi**
  Y bwriad yw y gall y cynllun benthyca hefyd annog perchenogion cartrefi preifat i gysylltu â'r brif bibell nwy mewn ardaloedd mewnlenwi nwy ac, felly, ostwng tlodi tanwydd.

### Gweinyddu Benthyciadau

Bydd raid wrth asesiad ariannol cadarn i ddarparu benthyciadau i ddeiliaid tai er mwyn sicrhau bod y gwaith yn fforddiadwy gan gadw mewn cof incwm a gwariant y teulu. Bydd raid hefyd reoli'r cynllun i lefel uchel yn ddyddiol er mwyn lleihau i'r eithaf y perygl na fydd unigolion yn medru ad-dalu'r taliadau. Bydd yr elfen hon o'r gwaith yn cael ei allanoli i sefydliad trydydd parti.

Ymunodd y Cyngor â'r Cytundeb Fframwaith presennol a sicrhawyd gan Gyngor Sir Dinbych fel y'i dyfarnwyd i Street UK Services Limited ar ran chwe Chyngor Sir gogledd Cymru.

Sefydliad trydydd parti yw Street UK Services Limited sydd wedi rheoli gwaith gweinyddol Benthyciadau Arbrisiant Eiddo a benthyciadau i berchenogion cartrefi incwm isel ar ran Gynghorau Sir y Fflint, Dinbych a Gwynedd. Trwy ddefnyddio Street UK Services Limited i ddarparu'r cynllun ar ran Môn, byddwn yn sicrhau dull gweithredu cyson ar draws y rhanbarth sy'n cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru.

O fewn y cytundeb Fframwaith byddai'r Cyngor yn cytuno i drosglwyddo ei gronfa a ddyrannwyd i Street UK Services Limited fel "Arian Cyfleusterau" er mwyn gwasanaethu'r benthyciadau. Ystyr "Arian Cyfleusterau" yw'r swm o arian a roddir gan y Cyngor neu ar ei ran i'r Cwmni at ddibenion rhoi benthyciadau.

Cyn dyfarnu benthyciadau rhaid i'r Cyngor ystyried gallu'r unigolyn dan sylw i ad-dalu. O'r herwydd, mae'n rhaid i ni sicrhau bod y cynnyrch a gynigir yn addas ac yn fforddiadwy.

**Materion Cyffredinol yn ymwneud â Benthyciadau Gwella Cartrefi**

Er cydnabod mai cyfrifoldeb y perchennog/deiliad yw cynnal cartref, targedir cymorth i'r cartrefi hynny y mae angen eu hatgyweirio, eu gwella neu eu haddasu er mwyn cwrdd ag anghenion penodol deilydd y tŷ.

Er mwyn gwneud y mwyaf o'r adnoddau ariannol cyfyngedig sydd ar gael, bydd y Cyngor yn ceisio targedu'r cartrefi hynny sydd â'r mwyaf o angen a lle nad yw'r unigolyn yn gallu fforddio gwneud y gwaith gofynnol o'i boced ei hun.

Er mwyn cael cymorth bydd raid wrth asesiad fforddiadwy ariannol a gynhelir gan drydydd parti arbenigol (Street UK Ltd) a bydd arian ar gael i sicrhau y bodlonir elfennau adnewyddu hanfodol a bod yr eiddo'n saff, yn gyfforddus neu/ac yn gynnes.

Bydd y Cyngor yn rhoi cyngor a chymorth priodol fel a ganlyn:

- Rhoddir gwybod i holwyr am y meini prawf cymhwyso am fenthyciad a, lle bo'n briodol, gofynnir iddynt gwblhau 'Ffurflen Mynegi Diddordeb'.
- Caiff unigolion cymwys eu cyfeirio at aseswr ariannol Street Uk Limited er mwyn penderfynu a yw'n gymwys a lle bo'n briodol, rhoi'r benthyciad.
- Os yw'n annhebyg y bydd cymorth ar gyfer benthyciad ar gael, rhoddir gwybod i ddeiliaid tai cyn gynted â bo modd fel bod modd iddynt wneud trefniadau eraill.

Ni fydd swm y benthyciad sy'n daladwy'n fwy na 80% o'r symiau uchaf a nodir gan y gymhareb benthyciad-gwerth. Fel blaenoriaeth, bydd taliad y benthyciad yn ceisio gwneud yr eiddo'n saff, yn gynnes neu/ac yn gyfforddus i fyw ynddo.

**Unigolion Cymwys**

I gael grantiau a benthyciadau rhaid i unigolion cymwys fod:

- Yn 18 oed neu drosodd ddyddiad y cais
- Yn berchen yr eiddo – yr unigolyn â'r hawl gyfreithiol i feddiannu'r eiddo fel ei gartref a gallu gwerthu ei fudd
- Yn Landlord yr eiddo– sydd â dyletswydd i gynnal yr eiddo a chytuno i gadw'r eiddo fel ei fod ar gael i'w osod am bum mlynedd.

**O.N. Ni fydd Lesddeiliad/Tenant yn gymwys am fenthyciadau**

**Cysylltiadau Lleol**

Pan geir cyfleoedd ariannu, megis fel ar hyn o bryd yn y rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yng Nghaergybi, efallai y cynigir Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf i ymgeiswyr cymwys. Mae gofyn i fuddiolwyr y dyfodol fod â chysylltiad â Môn a ddiffinnir fel:

- Er o leiaf bum mlynedd, bod eu hunig neu brif breswylfa ym Môn neu fod eu man gwaith ym Môn neu gyfuniad o'r ddau.
- Os nad ydynt yn preswylio ym Môn, tystiolaeth ysgrifenedig yn cadarnhau y cynigwyd cyflogaeth iddynt
- Bod â chysylltiadau sefydledig, e.e. pobl hŷn y mae arnynt angen symud i ardal benodol i fod yn agos at berthnasau.

Hefyd Grant Adnewyddu i Brynwyr Tro Cyntaf. Bydd ymgeiswyr yn gymwys os ydynt yn cydymffurfio â'r meini prawf cymhwyso uchod ac:-

- Yn brynwr tro cyntaf
- Wedi sicrhau'r eiddo i fod yn gartref iddynt
- Bod yr eiddo a nodwyd yn wag er chwe mis neu fwy adeg gwneud yr ymholiadau.

**O.N.** Er mwyn cymhwyso am grant mae gofyn cael cadarnhad gan eu darparwr morgeisi eu bod yn brynwyr tro cyntaf.

**Gwaith Cymwys:**

Bydd hwn yn cael ei gadarnhau yn sgil archwiliad gan y Cyngor a bydd un ai:

- Yn fforddiadwy o fewn terfynau'r benthyciad cyffredinol
- Neu
  - Yn uwch na'r benthyciad mwyaf a delir. Yn yr achos hwn bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r elfennau mwyaf hanfodol

Rhaid i'r Cyngor fod yn fodlon mai'r gwaith yw'r weithred fwyaf priodol a'r defnydd mwyaf priodol o arian cyhoeddus.

**Asiantiaid Proffesiynol:**

Bydd gofyn i ymgeiswyr am Fenthyciadau ddefnyddio Asiantiaid os nad ydynt yn gallu cyflwyno cais priodol neu lle bydd y Cyngor yn gofyn iddynt wneud hynny oherwydd bod y gwaith yn gymhleth. Cyn eu penodi, rhaid i'r Cyngor gadarnhau derbyn y Dystysgrif Cydymffurfio ofynnol wedi'i llofnodi gan yr Asiant.
Ar ôl iddynt gael eu penodi, bydd gofyn i Ymgeiswyr gyflwyno Tystysgrifau'n cadarnhau eu bod yn fodlon gydag ansawdd y gwaith a wnaed a chyda faint o waith a wnaed.

Yn y Côd Ymarfer i Asiantiaid, **(gweler Atodiad III)** a gyflwynir gan y Cyngor nodir elfennau allweddol o rôl yr Asiantiaid ac ynddo mae Tystysgrif Cydymffurfio/Cytundeb Penodi Ymgeiswyr **(Atodiad IV)** y mae'n rhaid ei llofnodi a'i dychwelyd, a derbyniad ysgrifenedig a gyflwynir gan yr Adain Adnewyddu Tai, cyn bo modd penodi Asiant.

***At hyn, gweler Crynodeb o Gyfrifoldebau'r Cyngor, Ymgeiswyr, Asiantiaid a Chontractwyr***

**Y Côd Ymarfer i Asiantiaid**

Mae'r Côd, sy'n cael ei gyflwyno gan y Cyngor, yn nodi elfennau allweddol rôl yr Asiantiaid ac ynddo mae Tystysgrif Cydymffurfio/Cytundeb Penodi Ymgeiswyr y mae'n rhaid ei llofnodi a'i dychwelyd, a derbyniad ysgrifenedig a gyflwynir gan yr Adain Adnewyddu Tai cyn bo modd penodi asiant.

## CYNLLUN BENTHYCA 'TROI TAI'N GARTREFI LLYWODRAETH CYMRU

**Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i fabwysiadu egwyddorion allweddol Llywodraeth Cymru Cynllun Benthyca "Troi Tai'n Gartrefi" er mwyn ysgogi perchenogion cartrefi i ailddefnyddio eiddo gwag.**

Yn sgil cyflwyno'r Strategaeth a Chynlluniau Cartrefi Gwag yn 2012, a'u llwyddiant, sicrhaodd yr awdurdod Gynllun Benthyciadau Cartrefi Gwag a gafodd gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar ffurf arian Troi Tai'n Gartrefi. Bwriad y cynllun hwn yw ailddefnyddio cartrefi gwag er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfraniad y gall cartrefi gwag ei wneud i gwrdd ag anghenion tai fforddiadwy.

Cronfa ad-daladwy ddi-log a sicrhawyd gan Lywodraeth Cymru yw'r arian ac mae modd i'r Cyngor ei ddefnyddio i roi cyfalaf ymlaen llaw i berchenogion tai gwag i'w hadnewyddu a'u hailddefnyddio, i'w gwerthu neu i'w gosod.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd rhagor o arian ad-daladwy ar gael yn 2015-16 fel bod modd i awdurdodau barhau gyda'u rhaglen Troi Tai'n Gartrefi.

**Amodau ynghlwm wrth Fenthyciadau Troi Tai'n Gartrefi**

Bydd y Cyngor yn rhoi Cyngor i ddarpar ymgeiswyr ar y broses ymgeisio am fenthyciad a'r meini prawf y mae gofyn eu bodloni er mwyn llwyddo gyda chais am grant.

Cynllun yw hwn sydd wedi'i ddatblygu i gynnig benthyciadau di-log o £1,000 hyd at £25,000 i adnewyddu a/neu droi eiddo gwag fel eu bod yn addas i fyw ynddynt. Mae'r wybodaeth yn Atodiad V yn nodi sut y bydd y cynllun Benthyciadau Gwella Cartrefi a'r Cynllun Benthyciadau "Troi Tai'n Gartrefi" yn gweithio, sut i wneud cais a'r amodau fydd ynghlwm wrth y benthyciad.

Bydd nifer o amodau ynghlwm wrth bob benthyciad a gymeradwyir i sicrhau bod arian y gronfa fenthyciadau'n cael ei 'ailgylchu' er mwyn rhoi rhagor o gymorth i gynlluniau eiddo gwag a gwaith atgyweirio a gwella. Ni fydd yr un cynnig o fenthyciad wedi'i warantu hyd oni byddwch wedi cael cymeradwyaeth ffurfiol gan yr Aseswr Ariannol trydydd parti neu'r Cyngor. Arnoch chi y bydd cyfrifoldeb am unrhyw waith y byddwch chi'n ei wneud cyn cael y gymeradwyaeth hon .

Rhesymau pam y gwneir cais am Fenthyciad Troi Tai'n Gartrefi:

- Troi eiddo gwag neu adeilad masnachol yn un uned neu ragor i'r safon Troi Tai'n Gartrefi (safon sylfaenol) fel ei bod yn addas i fyw ynddi'n syth, p'un ai wrth ei gwerthu (benthyciad i werthu) neu i'w gosod (benthyciad i osod).

Rhesymau pam y gwneir cais am Fenthyciad Gwella Cartrefi:

- Atgyweirio neu wella annedd i safon resymol, nad oes ynddi beryglon Categori 1 na 2 (gofynion sylfaenol), gyda mesurau effeithlonrwydd ynni neu newid tanwydd, fel ei bod yn saff, yn gynnes ac yn gyfforddus i fyw ynddi. Trowch at Atodiad V – atodiad C (safon Gwella Cartrefi). Rhaid i'r eiddo fod wedi bod yn wag am o leiaf chwe mis.

Wedi cwblhau'r gwaith, rhaid iddo: -

- Olygu bod yr eiddo/unedau'n addas i bobl fyw ynddynt yn syth fel annedd (anheddau),
- Cydymffurfio â'r holl Reoliadau Adeiladu perthnasol, a
- Cyrraedd y Safon Troi Tai'n Gartrefi

Bydd yr ymgeisydd yn cytuno â rhestr o waith, wedi'i phrisio'n gystadleuol gan ddau gontractwr, a hynny cyn y cynigir benthyciad a bydd y rhestr hon yn rhan o amodau'r benthyciad.

Ni fydd unrhyw gostau a fyddai'n gymwys am gymorth dan hawliad yswiriant neu hawliad gan drydydd parti yn cael cymorth am fenthyciad. Mewn achosion eithriadol, efallai y rhoddir benthyciad ar yr amod y caiff ei ad-dalu o elw unrhyw hawliad a wneir yn y dyfodol.

Nid yw gwaith a wneir y tu allan i gwrtil yr eiddo'n gymwys am gymorth onid yw'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth hanfodol megis dŵr, nwy neu drydan.

Mae modd gwneud ymholiadau am fenthyciad un ai dros y ffôn, trwy lythyr, wyneb yn wyneb yn swyddfeydd y Cyngor neu drwy'r wefan Troi Tai'n Gartrefi.

Bydd pob ymholiad am fenthyciad yn cael ei gydnabod trwy lythyr ac ymdrinnir ag ef yn unol â gweithdrefnau'r 'Cynllun Troi Tai'n Gartrefi' (Atodiad V - Atodiad B)

Ni fydd cymorth ar gael ar gyfer benthyciad i'r isod: -

- Eiddo nad ydynt o natur barhaol megis tŷ cwch a charafanau
- Siediau, adeiladau allanol ac estyniadau megis ystafelloedd haul.
- Adeiladau nad ydynt yn addas i'w tro'n anheddau y mae modd byw ynddynt.
- Adeilad lle defnyddir o leiaf 40% ohono gan yr ymgeisydd a/neu ei deulu fel eu cartref.

Gall unigolion sy'n ymgeisio am fenthyciadau fod un ai'n berchenogion cyfredol neu'n ddarpar berchenogion ond yn y naill achos a'r llall rhaid iddynt fedru sicrhau gwarant ar gyfer y benthyciad fel y manylir arno yn Atodiad V Atodiad B. A fyddech cystal â nodi bod yn rhaid i'r eiddo fod wedi'i gofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir yn enw'r ymgeisydd cyn bod modd cymeradwyo'r benthyciad. Ni fydd benthyciadau ar gael i denantiaid.

**Asiantiaid Proffesiynol: fel ar gyfer Benthyciadau Gwella Cartrefi uchod**

**Taliadau Benthyciadau:**

Gwneir taliadau'n uniongyrchol i'r ymgeisydd

**Gwarant Benthyciad**

Bydd gofyn i bob ymgeisydd am fenthyciad gytuno i Dâl Cyfreithiol gael ei roi ar yr holl eiddo y gwneir y cais am fenthyciad ar ei gyfer er mwyn gwarantu'r benthyciad. Mae modd cytuno mewn amgylchiadau eithriadol i dderbyn tâl ar eiddo arall. Rhaid i bob Tâl Cyfreithiol fod un ai'n dâl cyntaf neu'n ail dâl, lle bo'r Cyngor Sir yn derbyn cadarnhad gan ddeilydd y Tâl Cyntaf ei fod yn caniatáu ail dâl. <u>Ni fydd trydydd tâl neu daliadau wedi hynny'n cael eu derbyn.</u>

Lle cytunwyd i dderbyn Tâl Cyfreithiol ar eiddo arall na wnaed cais am fenthyciad ar ei gyfer, rhaid i'r eiddo arall fod un ai yng Nghymru neu yn Lloegr. Fodd bynnag, rhaid i'r ymgeisydd dalu am y costau cyfreithiol ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r trefniant hwn. Bydd raid prisio unrhyw eiddo a gynigir fel gwarant ar gyfer y benthyciad cyn y rhoddir unrhyw fenthyciad. **Mewn achosion eithriadol**, lle nad oes morgais ar yr eiddo a bod tystiolaeth glir i gefnogi'r farn fod yr eiddo'n warant ddigonol ac addas ar gyfer y benthyciad, ni fydd raid wrth adroddiad prisio.

**Twyll – Camddefnyddio Benthyciadau:**

Mae gan y Cyngor bolisi lle na fydd yn goddef achosion o dwyllo a chamddefnyddio'r system grantiau. Bydd yn edrych i mewn yn drylwyr i achosion lle amheuir twyll a lle canfyddir achos o gamddefnyddio, bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at yr heddlu er mwyn cynnal achos troseddol.

**Adolygu Cwynion/Penderfyniadau:**

Mae gan y Cyngor drefn gwyno ffurfiol ac mae copi ar gael ar gais.

Dylai unigolion sy'n bryderus ynghylch unrhyw agwedd o'r gwasanaeth benthyciadau ysgrifennu'n gyntaf at Gyfarwyddwr yr Adran Cymuned, gan nodi y dylid ymdrin â'r mater fel cwyn a rhestru'r union bryderon. Pan fo'r pryder yn ymwneud â pheidio â rhoi ystyriaeth briodol i gais am gymorth yn unol â'r amodau hyn, yna mae modd gofyn i'r penderfyniad gael ei adolygu.

**GRANTIAU / BENTHYCIADAU – YSTYRIAETHAU PWYSIG:**

- Mae pob cymorth am grant / benthyciad yn amodol ar arian fod ar gael wrth ei ddyrannu'n flynyddol.
- Mae'r angen am gymorth grant/benthyciad yn fwy na'r arian sydd ar gael felly mae'n rhaid blaenoriaethu ceisiadau i gynorthwyo'r unigolion hynny sydd â'r angen mwyaf.
- Wrth flaenoriaethu cymorth bydd y Cyngor yn ceisio cwrdd â'i Amcanion Strategol a Chorfforaethol.
- Er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael, lle nodir yn y ddogfen hon, defnyddir 'prawf modd' i bennu lefel y cyfraniad unigol tuag at gostau'r gwaith gofynnol.
- Ar wahân i Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl sy'n grantiau mandadol, dewisol yw cymorth felly nid oes hawl awtomatig i fenthyciad.

- Gwahoddir ymgeiswyr cymwys i ymgeisio am grant /benthyciad a chedwir Rhestr Aros o Ymholiadau Cymwys, yn nhrefn dyddiad sy'n ymwneud â'r math o grant/benthyciad sy'n ofynnol. Mae'r Rhestr Aros yn pennu blaenoriaethu dyraniad yr arian fel y mae adnoddau'n caniatáu. Nid yw derbyn cais yn gwarantu y bydd cymorth ariannol ar gael.
- Gallai cymorth fod ar ffurf cyngor a chyda chaniatâd yr unigolyn i gydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Gwarchod Data, gyfeirio at sefydliadau eraill.
- Bydd yr Adain Grantiau / Benthyciadau'n rhoi cymorth gyda'r gwaith papur gofynnol os bydd rhaid ar yr amod y rhoddir yr awdurdod Gwarchod Data angenrheidiol.
- Mae Amodau Grant a Benthyciadau Adnewyddu Tai'r Sector Preifat yn rhoi mwy o fanylion am y broses.
- Dylai'r holl waith gael ei gwblhau o fewn y cyfnodau a bennir ac a gynhwysir yn y rhybudd cymeradwyo. Ni fydd modd ymestyn heibio i'r cyfnod a bennir onid oes Cais am Estyniad wedi'i gyflwyno i'r Cyngor a'i gymeradwyo ganddo.
- Os methir cyflwyno cais o'r fath CYN diwedd y cyfnod cwblhau ni fydd rhagor o daliadau'n cael eu gwneud.

## ELFENNAU ALLWEDDOL O GYMORTH SYDD AR GAEL

### GRANT CYFLEUSTERAU I'R ANABL

**Blaenoriaeth:** Grant mandadol a roddir dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio Act 1996 Adrannau 19-24 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 3 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002. Ar gael i ymgeiswyr cofrestredig neu gofrestradwy er mwyn bod, cymaint â bo modd, yn ateb tymor hir i'w hanghenion tai.

**Ar gael i:** Berchennog-feddianwyr, tenantiaid preifat a landlordiaid preifat ar gyfer eu tenantiaid anabl.

Statws: Grant mandadol.

**Rhagamodau:**

- Rhaid i'r gwaith gofynnol fod yn rhesymol ac yn ymarferol a chael cefnogaeth Therapydd Galwedigaethol yn seiliedig ar asesiad o anghenion.
- Bydd swyddogion Tai'n ystyried a yw'r gwaith yn rhesymol ac yn ymarferol gan gadw mewn cof oed a chyflwr yr eiddo.
- Dim tŷ addas arall ar gael (Gweler Grant Adleoli).

- Ymgeisydd yn cymryd prawf modd o’r adnoddau ariannol ac yn talu cyfraniad cyn dechrau’r gwaith
- Os yw’r ymgeisydd yn denant rhaid cyflwyno llythyr caniatáu wedi’i lofnodi a’i ddyddio gan berchennog yr eiddo
- Rhaid darparu Tystysgrif Teitl neu gael cadarnhad gan y Gofrestrfa Tir.

**Grant Taladwy:** Hyd at swm statudol o £36,000.00 gyda grant dewisol yn ei godi i £80,000 gyda chymeradwyaeth Pennaeth Gwasanaethau Tai’r Cyngor a’r Deilydd Portffolio. Rhaid i bob grant dros £80,000 gael cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith.

**Taliadau:**

- Bydd cyfraniad yr ymgeisydd yn cael ei dalu i’r Cyngor cyn cymeradwyo’r grant.
- Bydd y grant yn cael ei dalu i’r Contractwr (Contractwyr) fesul cam lle bo’n briodol neu unwaith y bydd y gwaith wedi’i gwblhau. Bydd y taliadau’n cael eu cadarnhau trwy archwilio’r safle a derbyn anfonebau manwl. Bydd archwiliad o fewn pum diwrnod i gyflwyno anfoneb.
- Pan benodir Asiant Proffesiynol a’r Cyngor yn cytuno â hyn, rhoddir 50% o’i ffi adeg cymeradwyo’r grant a 50% unwaith y bydd y gwaith wedi’i gwblhau.

**Noder:**

- Rhaid i’r gwaith grant gael ei gwblhau cyn pen 12 months i’r dyddiad cymeradwyo.
- Bydd grant uwchlaw £5000.00 yn cael ei gofrestru fel Pridiant Tir ar yr eiddo am bum mlynedd o’r dyddiad y tystiwyd y cwblhawyd y gwaith.

  Bydd grant a ddyfernir dros £36000.00 yn parhau wedi’i gofrestru fel Pridiant Tir am byth h.y. tan iddo gael ei ad-dalu, er enghraifft pan werthir yr eiddo neu ei drosglwyddo, neu ynghynt gan ddeiliad y tŷ.

## GRANT CYFLEUSTERAU I’R ANABL ( ADLEOLI)

**Blaenoriaeth:** Grant dewisol a roddir dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio Act 1996 Adrannau 19-24 fel y’i diwygiwyd gan Atodlen 3 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002.

**Ar gael i**: gynorthwyo ymgeiswyr anabl cofrestredig neu gofrestradwy sy’n berchen-feddianwyr i brynu ac addasu cartref mwy addas a chost effeithiol sy’n cwrdd â’u hanghenion yn well a symud i mewn iddo. Un Grant Adleoli y mae modd ei ddyfarnu mewn cyfnod pum mlynedd.

**Statws**: Grant dewisol

**Rhagamodau:**

- Rhaid i’r eiddo fod yn y Sir.
- Bydd raid wrth adroddiad Sefydliad y Siartredig Brenhinol ar yr eiddo ar gyfer Prynwyr.

- Rhaid i'r gwaith gofynnol fod yn rhesymol ac yn ymarferol a chael cefnogaeth Therapydd Galwedigaethol yn seiliedig ar asesiad o anghenion.
- Bydd swyddogion Tai'n ystyried a yw'r gwaith yn rhesymol ac yn ymarferol gan gadw mewn cof oed a chyflwr yr eiddo.
- Dim tŷ addas arall ar gael (Gweler Grant Adleoli).
- Prawf modd o'r adnoddau ariannol
- Rhaid darparu Tystysgrif Teitl neu gael cadarnhad gan y Gofrestrfa Tir.

**Grant Taladwy:** Hyd at uchafswm o £36,000.00 00 neu 50% o amcangyfrif cost gwaith addasu eu cartref presennol, gyda chymeradwyaeth y Panel.

Fe'i telir pan geir tystiolaeth y sicrhawyd tŷ addas arall un ai trwy ei brynu neu trwy ei rentu/brydlesu lle rhaid sicrhau y byddir yn byw ynddo am bum mlynedd.

**Taliadau:**

- Grant i'w dalu i'r ymgeisydd unwaith y bydd y gwerthiant wedi'i gwblhau
- Telir ffioedd proffesiynol gyda chytundeb y Cyngor

**Archwiliad**: Cyn pen pum diwrnod i'r cais.

**Noder:**

- Bydd grant uwchlaw £5000.00 yn cael ei gofrestru fel Pridiant Tir ar yr eiddo am bum mlynedd o'r dyddiad y tystiwyd y cwblhawyd y gwaith.
  Neu ynghynt er enghraifft pan werthir yr eiddo neu ei drosglwyddo o fewn y cyfnod pum mlynedd.

## BENTHYCIAD CYFRANNU AT GRANT CYFLEUSTERAU I'R ANABL.

Grant statudol sy'n dibynnu ar brawf modd yw Grant Cyfleusterau i'r Anabl ac yn aml iawn mae ymgeiswyr nad ydynt yn gallu talu eu cyfraniadau prawf modd yn methu cael at grant mandadol. Gan mai ar gyfer incwm a chynilion yn unig y mae'r prawf modd yn cyfrif, diystyrir gwariant ac yn aml iawn mae hyn yn arwain at ymgeiswyr yn methu fforddio eu cyfraniad ac, felly, yn cael eu heithrio rhag cael at y grant.

Er mwyn cynorthwyo ymgeiswyr i dalu eu cyfraniadau, pan nad oes ffordd arall o ariannu ar gael neu nad oes modd fforddio'r ffordd hon, er mwyn cael at y Grant Cyfleusterau i'r Anabl.

**Ar gael:** I berchen-feddianwyr a thenantiaid

**Rhagamodau:**

- Asesiad o fforddiadwyedd adnoddau ariannol

**Benthyciadau Taladwy:**

Gydag asesiad fforddiadwyedd nid oes isafswm ond ceir uchafswm o £5,000 yn ogystal â ffi weinyddol o 15% a ychwanegir at y benthyciad a'i ad-dalu dros gyfnod y benthyciad.

**Taliadau:**

- Bydd y benthyciad yn cael ei dalu i'r Ymgeisydd unwaith y cyflwynir tystiolaeth o fforddiadwyedd.

**Noder:**

Bydd y benthyciad yn parhau wedi'i gofrestru fel Ffi Gyfreithiol gyda'r Gofrestrfa Tir hyd oni bydd wedi'i ad-dalu neu ynghynt os caiff yr eiddo ei werthu neu ei drosglwyddo.

**BENTHYCIAD ATGYWEIRIO CARTREFI**

**Blaenoriaeth:** Gwneud atgyweiriadau brys i beryglon a nodir fel rhai Categori 1 a 2 dan y System Mesur Iechyd a Diogelwch Tai er mwyn gwneud yr eiddo'n saff, yn gynnes ac yn gyfforddus.

**Ar gael i:** Berchen-feddianwyr a landlordiaid

**Rhag amodau:**

- Rhaid bod angen atgyweirio'r eiddo fel y nodwyd gan y Cyngor.
- Asesiad o fforddiadwyedd adnoddau ariannol

**Benthyciadau Taladwy:**

Gydag asesiad fforddiadwyedd, ceir isafswm o £1,000 ac uchafswm o £5,000 yn ogystal â ffi weinyddol o 15% a ychwanegir at y benthyciad a'i ad-dalu dros gyfnod y benthyciad.

**Taliadau:**

- Benthyciad yn cael ei dalu i'r ymgeisydd unwaith y derbynnir anfoneb ddilys
- Gwaith yn cael ei archwilio o fewn pum diwrnod i dderbyn anfoneb

**Noder:**

- Bydd gwaith ar fenthyciadau'n cael ei gwblhau o fewn yr amserlen a bennwyd fel y gwelir ar gytundeb y benthyciad.

Bydd y benthyciad yn parhau wedi'i gofrestru fel Ffi Gyfreithiol gyda'r Gofrestrfa Tir hyd oni bydd wedi'i ad-dalu neu ynghynt os caiff yr eiddo ei werthu neu ei drosglwyddo.

**BENTHYCIAD EFFEITHLONRWYDD YNNI**

**Blaenoriaeth: -** cynorthwyo i leddfu tlodi tanwydd a gwella effeithlonrwydd ynni eiddo.

**Ar gael i:** Berchen-feddianwyr a landlordiaid

Rhoddir blaenoriaeth i:

- Unigolion heb system wresogi ganolog
- Cynorthwyo deiliaid tai i gael at arian ECO/Arbed ECO a fydd yn eu helpu i gwrdd â'r gwahaniaeth yn y gost rhwng costau gwaith a faint o arian sydd ar gael o ffynonellau allanol.
- Unigolion mewn ardaloedd mewnlenwi y brif bibell nwy sy'n dymuno achub ar y cyfle i newid tanwydd i'r brif bibell nwy.

**Benthyciad Taladwy:**

- I annog perchenogion/deiliaid a landlordiaid i gysylltu â'r brif bibell nwy mewn ardaloedd mewnlenwi nwy.
- I gynnig cymorth i ynysu llofftydd (gan gynnwys ychwanegu at yr hyn sydd eisoes yno), ynysu waliau allanol, ynysu ceudodau, atal drafftiau a lagio pibellau lle nad oes ffynhonnell arall o arian allanol ar gael.
- I roi system wresogi ganolog, neu system newydd neu ran o'r system bresennol, syn hŷn na 15 oed lle nad yw'n ariannol ymarferol ei hatgyweirio h.y. mae cost atgyweirio'n fwy na 50% cost system newydd
- Gwydrau dwbl os oes arian ar gael
- Lle bo'n briodol bydd yr ymgeisydd yn cael ei gyfeirio yn y lle cyntaf at gynlluniau eraill am gymorth a ariennir gan y Llywodraeth e.e. NYTH, Y FARGEN WERDD neu ECO.

**Rhagamodau:**

- Rhaid i ymgeiswyr fod yn methu cael cymorth trwy gynlluniau eraill y Llywodraeth neu gwmnïau ynni
- Cymorth gyda gwresogi/gwydrau dwbl os bodlonir gofynion ynysu ac atal drafftiau
- Asesiad fforddiadwyedd ariannol

**Benthyciad Taladwy:**
Gydag asesiad fforddiadwyedd ceir isafswm o £1,000 ac uchafswm o £25,000 yn ogystal â ffi weinyddol o 15% i'w thalu unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau ac anfoneb dderbyniol wedi'i derbyn.

**Noder:**

- Bydd gwaith ar fenthyciadau'n cael ei gwblhau o fewn yr amserlen a bennwyd fel y gwelir ar gytundeb y benthyciad.

- Bydd y benthyciad yn parhau wedi'i gofrestru fel Ffi Gyfreithiol gyda'r Gofrestrfa Tir hyd oni bydd wedi'i ad-dalu neu ynghynt os caiff yr eiddo ei werthu neu ei drosglwyddo.

## BENTHYCIAD DIOGELWCH TÂN

**Pwrpas: -** Cymorth i Landlordiaid roi camau diogelwch tân priodol mewn eiddo amlbreswyliaeth h.y. Tai Amlbreswyliaeth. Gallai gwaith o'r fath olygu gosod neu uwchraddio offer diogelwch tân neu waith gwella strwythurol a diogelwch.

**Ar gael i:** I'r unigolyn sy'n gyfrifol am wead yr adeilad

**Rhagamodau:**

- Rhaid i'r eiddo fod yn hŷn na 10 oed.
- Rhaid i'r gwaith gwrdd â gofynion Gorfodi'r Gwasanaeth Iechyd Amgylcheddol.
- Bydd gofyn i'r Landlord ymuno â Chynllun Achredu Landlordiaid cyn derbyn benthyciad. Mae manylion ar gael ar http://www.welshlandlords.org.uk/landlord-accreditation/other-accreditation-schemes.aspx

**Benthyciad Taladwy:** Gydag asesiad fforddiadwyedd ceir isafswm o £1,000 ac uchafswm o £25,000 i'w dalu unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau ac anfoneb dderbyniol wedi'i derbyn

**Archwiliad**: Cyn pen pum diwrnod i'r cais.

**Noder:**

- Bydd gwaith ar fenthyciadau'n cael ei gwblhau o fewn yr amserlen a bennwyd fel y gwelir ar gytundeb y benthyciad.
- Bydd y benthyciad yn parhau wedi'i gofrestru fel Ffi Gyfreithiol gyda'r Gofrestrfa Tir hyd oni bydd wedi'i ad-dalu neu ynghynt os caiff yr eiddo ei werthu neu ei drosglwyddo.

## BENTHYCIAD ADNEWYDDU I BRYNWYR TRO CYNTAF

**Blaenoriaeth:** ymateb i'r angen cynyddol am gartrefi fforddiadwy**.** Bydd Benthyciad Prynwr Tro Cyntaf ar gael i gynorthwyo adnewyddu cartrefi gwag a'u hailddefnyddio. Bydd raid cael Asesiad Fforddiadwyedd ar gyfer y benthyciad hwn.

**Ar gael:** I Brynwyr Tro Cyntaf â chysylltiad lleol i adnewyddu eiddo gwag a'u hailddefnyddio fel eu cartref.

**Rhagamodau:**

- Rhaid i'r eiddo fod wedi bod yn wag a neb yn byw ynddo er o leiaf chwe mis cyn ymgeisio am y grant.

- I unigolion sydd wedi cadarnhau nad ydynt wedi bod yn berchen ar eiddo'n flaenorol.
- I unigolion nad oes modd iddynt gael benthyciad gan fanciau'r stryd fawr oherwydd caledi
- I unigolion y mae eu hincwm blynyddol yn llai na £40,000.
- I unigolion nad yw eu morgais yn llai na 75% o werth cyfredol yr eiddo.
- Rhaid i'r ymgeisydd fyw yn yr eiddo am o leiaf bum mlynedd ar ôl i waith gael ei gwblhau.
- Dylai'r eiddo fod yn ddiogel, yn gynnes ac yn gyfforddus unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau a chyn belled â bo modd, gwrdd â Safon Ansawdd Tai Cymru.

**Benthyciad Taladwy:** Gydag asesiad fforddiadwyedd ceir isafswm o £1,000 ac uchafswm o £25,000 i'w dalu unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau ac anfoneb dderbyniol wedi'i derbyn

**Archwiliad**: Cyn pen pum diwrnod i'r cais.

**Noder:**

- Bydd gwaith ar fenthyciadau'n cael ei gwblhau o fewn yr amserlen a bennwyd fel y gwelir ar gytundeb y benthyciad.
- Bydd y benthyciad yn parhau wedi'i gofrestru fel Ffi Gyfreithiol gyda'r Gofrestrfa Tir hyd oni bydd wedi'i ad-dalu neu ynghynt os caiff yr eiddo ei werthu neu ei drosglwyddo.

## CYNLLUN BENTHYCA EIDDO GWAG TROI TAI'N GARTREFI

**Blaenoriaeth:**

- I berchenogion cartrefi gwag neu eiddo masnachol i wneud gwaith adnewyddu i ailddefnyddio eiddo gwag fel cartrefi wrth 'fenthyca i werthu' neu 'fenthyca i osod'.

- Bydd arian sydd ar gael yn cael ei dargedu at eiddo mewn ardaloedd y mae angen tai ynddynt.

**Benthyciad Dewisol**

**Ar gael:**

- I unigolion a chwmnïau os ydynt eisoes yn berchen ar eiddo gwag neu'n ystyried prynu eiddo gwag ym Môn.

**Rhagamodau:**

- Cyn belled â bo modd, dylai'r eiddo gwrdd â safon Troi Tai'n Gartrefi. **(Atodiad V - Atodiad C)**

- Rhaid i’r gwaith addasu/atgyweirio gael ei wneud o fewn cyfnod amser y cytunwyd ag o.
- Rhaid i’r eiddo/unedau gael eu rhoi ar y farchnad i’w gwerthu neu i’w gosod o fewn cyfnod rhesymol ar ôl i’r gwaith gael ei gwblhau (12 wythnos) Os yw’r eiddo/unedau ar gael i’w rhentu a neb yn symud i mewn iddynt yn y cyfnod hwn yna efallai y byddai rhaid ad-dalu’r benthyciad.
- Rhaid ad-dalu’r benthyciad ar neu cyn y dyddiad a nodir yn y Cytundeb Cyfleuster Benthyciad.
- Rhoddir ffi gyfreithiol ar yr eiddo i warantu’r benthyciad am oes y benthyciad.
- Rhaid i’r eiddo fod yn wag a neb yn byw ynddo er o leiaf chwe mis

**Benthyciad Taladwy:-**

- Hyd at £25,000 yr uned llety unigol, hyd at £150,000 yr ymgeisydd.
- Gan gadw mewn cof unrhyw forgais cyfredol, nid oes modd i unrhyw fenthyciad fod yn fwy na 80% o werth cyfredol yr eiddo.
- **Taliadau:**
- Bydd taliad yn cael ei wneud i’r ymgeisydd o fewn pedwar diwrnod gwaith ar ddeg i Wasanaethau Cyfreithiol y Cyngor gadarnhau bod y Ffi (Ffïoedd) Ariannol wedi’i (eu) chofrestru (cofrestru).
- Os yw’r benthyciad yn fwy na £25,000 ceidw’r Cyngor yr hawl i dalu fesul tipyn.

**Ad-dalu:-**

- Os yw’r benthyciad a gymeradwyir yn “Benthyciad i Werthu” byddir yn ad-dalu’r benthyciad yn syth unwaith y byddir wedi gwerthu a dim hwyrach na’r dyddiad a bennir yn y Cytundeb Cyfleuster Benthyciad (dim mwy na dwy flynedd).
- Os yw’r benthyciad a gymeradwyir yn “Benthyciad i Osod” byddir yn ad-dalu’r benthyciad dim hwyrach na’r dyddiad a bennir yn y Cytundeb Cyfleuster Benthyciad (dim mwy na tair blynedd) oni chaiff yr eiddo ei werthu ynghynt neu y rhennir unedau’r eiddo a’u gwerthu i gyd yr un diwrnod.
- Os bydd yr eiddo’n cael ei droi’n unedau a bod un neu fwy o’r unedau’n cael eu gwerthu (cyn y dyddiadau penodedig ac a osodir yn nhelerau’r Cytundeb Cyfleusterau Benthyciad) yna ar gyfer pob uned a werthir, rhaid i’r ymgeisydd

ad-dalu’r swm lleiaf o elw’r gwerthiant gros a swm y benthyciad sydd heb ei gasglu.

- Os oes arian yn parhau’n ddyledus dan y benthyciad ar ôl gwerthu’r holl unedau, yna rhaid i’r ymgeisydd ad-dalu’r cyfryw arian ar p’un bynnag adeg ddaw gyntaf – gwerthu’r uned olaf neu’r dyddiad perthnasol a nodir yn y cytundeb benthyciad.

**Noder**

- Un benthyciad yn unig a ddyfernir fesul eiddo.
- Gellid caniatáu benthyciadau dilynol ar yr amod nad oes gan yr ymgeisydd fenthyciad trwy’r Cynllun Eiddo Gwag Troi Tai’n Gartrefi, i werth mwy na £150,000 ar unrhyw adeg benodol.
- Rhaid i waith gael ei gwblhau o fewn amserlen benodol fel y nodir yn nogfen y cytundeb benthyciad.
- Byddir yn blaenoriaethu arian i ardaloedd ac eiddo lle mae’r Cyngor yn ymwybodol y mae’r angen mwyaf am dai ar yr ynys a bod ganddo dystiolaeth yn hynny o beth.

## CRYNODEB O GYFRIFOLDEBAU’R CYNGOR, YR YMGEISYDD, YR ASIANT A’R CONTRACTWR

### Y Cyngor

- Prosesu’r Cais am Grant / Benthyciad o fewn amser y cytunwyd ag o.
- Lle gwneir cais i ystyried penodi asiant ac ymateb yn ysgrifenedig fel bo’n briodol.
- Cyn awdurdodi taliad, sicrhau bod yr ymgeisydd wedi cytuno ag unrhyw amrywiaethau cytundebol a bod modd cyfiawnhau’r costau a wnaed a’u bod yn fathemategol gywir.
- Gwirio pob tendr a dderbynnir i sicrhau bod yr holl eitemau wedi’u cynnwys ac yn gymwys am grant/benthyciad.
- Rhoi cyngor a chymorth priodol trwy gydol y broses grantiau / benthyciadau.
- Cysylltu gyda’r ymgeisydd, yr asiant a’r Contractwr fel bo’r gofyn gan dynnu sylw at bryderon wrth iddynt godi.
- Sicrhau bod yr holl ddogfennau’n gywir ac yn ddilys ac os oes unrhyw amheuon cynnal ymchwiliad priodol.
- Cynnal cofnod ffotograffig o’r gwaith a gafodd gymorth grant/benthyciad.
- Cymryd sampl ar hap o geisiadau a gymeradwywyd i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau’r Cyngor yn cael eu dilyn.

**Yr Ymgeisydd**

- Cadarnhau penodiad asiant a / neu Gontractwr yn ôl y gofyn, gan gyflwyno'r Dystysgrif Cydymffurfio /Cytundeb Penodi'r Ymgeisydd wedi'u llofnodi'n briodol a derbyn llythyr wedi'i lofnodi gan yr Adran Grantiau / Benthyciadau'n cadarnhau derbyn cyn penodi asiant.
- Monitro perfformiad asiant a benodwyd gan gynnal perthynas weithio effeithiol.
- Tynnu sylw at bryderon wrth iddynt godi.
- Lle bo'n berthnasol, talu symiau dyledus ar amser.
- Cadarnhau diwygiadau cytundebol ac amcangyfrifon costau gwaith yn ysgrifenedig.
- Sicrhau bod yswiriant tŷ a chynnwys yn ei le a bod unrhyw unigolion sydd â budd cyfreithiol yn yr eiddo yn gwybod am y gwaith a wneir e.e. darparwyr morgeisi, Landlord.
- Cwblhau'r gwaith o fewn yr amser y cytunwyd ag o.

**Yr Asiant**

- Llofnodi'r Dystysgrif Cydymffurfio a chydymffurfio â Chod Ymarfer Asiantiaid. .
- Sicrhau bod budd yr ymgeisydd yn cael ei warchod bob amser.
- Rhoi cefnogaeth, cyngor a chymorth ychwanegol lle bo gofyn, i ymgeiswyr hŷn a bregus.
- Gwneud gwaith tendro i benodi Contractwyr gan gynnal tystiolaeth bod gweithdrefnau tendro wedi'u dilyn yn briodol.
- Sicrhau mai Contractwyr cymwys yn unig sy'n cael eu defnyddio.
- Monitro perfformiad y Contractwyr ac ansawdd y gwaith a chynnal archwiliadau o bryd i'w gilydd.
- Cysylltu gyda'r Cyngor a thynnu sylw at bryderon wrth iddynt godi.
- Cyflwyno diwygiadau cytundebol ac amcangyfrifon costau gwaith gan sicrhau eu bod yn cael eu gwrthlofnodi gan yr ymgeisydd.
- Gwirio, cadarnhau a chymeradwyo taliadau.
- Cael cadarnhad ysgrifenedig gan yr ymgeisydd ei fod yn fodlon gydag ansawdd a faint o waith a wnaed.
- Gwirio, cadarnhau a chymeradwyo cyfrifon terfynol

**Y Contractwr**

- Rhoi cadarnhad ysgrifenedig o ddyddiadau dechrau a chwblhau gwaith.
- Gwneud gwaith i safonau a Chodau Ymarfer proffesiynol cydnabyddedig.
- Sicrhau y cydymffurfir â Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch perthnasol a gofynion arfer da.
- Tynnu sylw at bryderon wrth iddynt godi.
- Cymryd camau rhesymol a phriodol i warchod pethau'r ymgeisydd.
- Dim ond dechrau ar waith ychwanegol os yw'r ymgeisydd/asiant wedi rhoi cyfarwyddiadau ysgrifenedig i'r perwyl hynny.
- Sicrhau bod Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus wedi'i warantu cyn dechrau ar unrhyw waith.

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MôN** | |
|---|---|
| **ADRODDIAD AT:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **DYDDIAD:** | **27 Tachwedd, 2014** |
| **PWNC:** | **Adroddiad Blynyddol ar y Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE)** |
| **AELODAU PORTFOLLIO( AU):** | **Cyng. Ieuan Williams** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Gwynne Jones** |

**1.0 <u>ARGYMHELLION</u>**

A1 - Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor graffu ar gynnwys yr adroddiad er mwyn gallu ateb y math o gwestiynau a nodir isod.

**Materion ar gyfer craffu**
Mae'r math o wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad, a'r cyfle i holi cwestiynau pellach, yn gyfraniad pwysig at y broses hunan arfarnu.Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig bod aelodau etholedig yn ymwybodol bod Fframwaith Estyn, gofynion Swyddfa Archwilio Cymru a disgwyliadau Llywodraeth Cymru parthed dulliau llywodraethu a rheoli gwaith y consortia rhanbarthol, yn gosod disgwyliad arnynt, fel rhan o brosesau hunan arfarnu a sicrhau ansawdd, i allu ateb y math o gwestiynau a restrir isod:

- Sut mae'r awdurdod yn monitro ac yn herio gwaith y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion [GwE]?
- Sut mae'r awdurdod yn gwybod os ydyw yn cael gwerth am arian pan yn comisiynu gwasanaeth gan GwE?
- Sut mae'r awdurdod yn sicrhau bod gwaith GwE wedi'i alinio gyda chynlluniau a bwriadau lleol a bod yr agweddau allweddol sydd angen sylw yn cael eu targedu'n effeithiol?
- Pa wahaniaeth y mae cefnogaeth GwE wedi'i wneud i ddeilliannau, safonau cyflawniad ac ansawdd arweinyddiaeth ym Môn
- Ym mha agweddau/ysgolion/cyfnodau allweddol y gwelir y gwahaniaethau amlycaf ?
- Pa agweddau sydd angen eu blaenoriaethu ymhellach er mwyn sicrhau gwelliannau pellach?

## 2.0 <u>RHESWM</u>

2.1

**Pwrpas yr Adroddiad**

Prif bwrpas yr adroddiad yw cyflwyno gwybodaeth i ganiatáu aelodau etholedig i graffu ar waith y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion [GwE] gydag ysgolion Môn ac i bwyso a mesur effaith y gweithredu hwnnw ar ddeilliannau, safonau cyflawniad ac ansawdd arweinyddiaeth.

Cafodd y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion [GwE] ei sefydlu mewn partneriaeth rhwng 6 Awdurdod Lleol Gogledd Cymru [Mon; Gwynedd; Conwy; Dinbych; Wrecsam; Flint] i fod yn atebol i'r cynghorau ac i gyflawni eu swyddogaethau statudol mewn perthynas â gwella ysgolion [ac yn benodol felly, i fonitro, herio a darparu gwasanaethau cefnogol]. Amlygir natur ac ystod y disgwyliadau mewn *Cytundeb Lefel Gwasanaeth* a lluniwyd y model darparu ar sail nifer o ddyddiau penodol ar gyfer :

- cynnal ymweliadau monitro tymhorol
- cefnogi ysgolion categori risg [oren/coch]
- cefnogi cyn ac ol-arolwg

Yn 2014, trwy gyfrwng y Model Cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol, cyflwynwyd disgwyliadau cenedlaethol pellach ac ehangach ar waith y consortia gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gwaith o gynllunio i ymateb i'r gofynion hynny yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

| | |
|---|---|
| Awdur: | Gwynne Jones |
| Teitl Swydd: | Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes |
| Dyddiad: | 11 Tachwedd, 2014 |

ATODIAD 1-

Caiff y gwasanaeth rhanbarthol ei gyd-gyllido gan y 6 Awdurdod [seiliedig ar fformiwla gytunedig].

Mae tim sy’n cyfateb i 30 Ymgynghorydd Her llawn amser yn gweithio ar draws y rhanbarth gyda 10 o’r rheiny yn gweithio’n benodol yn Hwb Gwynedd/Mon.

**Blaenoriaethau Strategol Rhanbarthol 2013-2014**
1. Cynyddu cyfran y dysgwyr 16-oed sy’n cyflawni Trothwy Lefel 2+ ar ddiwedd CA4
2. Codi safonau cyflawniad dysgwyr sydd â hawl PYD
3. Codi safonau cyflawniad dysgwyr yn y profion darllen a rhifedd cenedlaethol
4. Cynyddu niferoedd a safonau cyflawniad mewn Cymraeg Iaith Gyntaf
5. Cynyddu cyfran y dysgwyr 16-oed sy’n ennill o leiaf 5 gradd A*/A erbyn diwedd CA4

Meysydd ffocws ychwanegol ar gyfer 2014-15 :

1. Sefydlu ac hyrwyddo model rhanbarthol effeithiol ar gyfer cydweithio Ysgol>Ysgol
2. Gwella ansawdd arweinyddiaeth a dysgu/addysgu
3. Cefnogi ysgolion i rymuso gweithdrefnau ar gyfer asesu, safoni a chymedroli asesiadau athrawon

**Deilliannau diwedd Cyfnod Allweddol [CS>CA4]**
Cyflwynir dadansoddiad o berfformiad ysgolion Mon yn erbyn yr amryfal ddangosyddion yn yr adroddiad blynyddol. Nodir isod y prif benawdau yn unig mewn cymhariaeth ag awdurdodau eraill y rhanbarth:

| **Awdurdod** | **Cyfnod Sylfaen : Dangosydd Cyfnod Sylfaen** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2012** | **2013** | **2014** | **+/- 2012>2014** | **+/- 2013>2014** |
| Mon | 84.1 | 85.9 | 84.6 | +0.5 | -1.3 |
| GwE | 81.7 | 83.5 | 84.3 | +2.6 | +0.8 |
| Cymru | 80.5 | 83.0 | 85.2 | +4.7 | +2.2 |

| **Awdurdod** | **Cyfnod Sylfaen : Dangosydd Cyfnod Sylfaen Perfformiad Dysgwyr PYD** | | |
|---|---|---|---|
| | **2013** | **2014** | **+/- 2013>2014** |
| Mon | 71.5 | 67.2 | -4.3 |
| GwE | 69.8 | 70.6 | +0.8 |

| **Awdurdod** | **Cyfnod Allweddol 2 : Dangosydd Pwnc Craidd** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2012** | **2013** | **2014** | **+/- 2012>2014** | **+/- 2013>2014** |
| Mon | 84.7 | 88.0 | 87.8 | +3.1 | -0.3 |
| GwE | 83.6 | 85.5 | 85.6 | +2.0 | +0.1 |
| Cymru | 82.6 | 84.3 | 86.1 | +3.5 | +1.8 |

| Awdurdod | Cyfnod Allweddol 2 : Dangosydd Pwnc Craidd Perfformiad Dysgwyr PYD | | |
|---|---|---|---|
| | 2013 | 2014 | +/- 2013>2014 |
| Mon | 79.5 | 79.2 | -0.3 |
| GwE | 72.4 | 70.8 | -2.6 |

| Awdurdod | Cyfnod Allweddol 3 : Dangosydd Dangosydd Pwnc Craidd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | +/- 2012>2014 | +/- 2013>2014 |
| Mon | 77.9 | 81.5 | 83.5 | +5.6 | +2.0 |
| GwE | 75.7 | 78.7 | 83.7 | +8.0 | +5.0 |
| Cymru | 72.5 | 77.0 | 81.0 | +8.5 | +4.0 |

| Awdurdod | Cyfnod Allweddol 3 : Dangosydd Pwnc Craidd Perfformiad Dysgwyr PYD | | |
|---|---|---|---|
| | 2013 | 2014 | +/- 2013>2014 |
| Mon | 60.9 | 70.2 | +0.3 |
| GwE | 54.3 | 65.7 | +11.4 |

| Awdurdod | Cyfnod Allweddol 4 : TL2+ | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | +/- 2012>2014 | +/- 2013>2014 |
| Mon | 52.3 | 54.2 | 53.0 | +0.7 | -1.2 |
| GwE | 53.2 | 56.0 | 57.0 | +3.8 | +1.0 |
| Cymru | 51.1 | 52.7 | 55.0 | +3.9 | +2.3 |

| Awdurdod | Cyfnod Allweddol 4 : TL2+ Perfformiad Dysgwyr PYD 2014 | |
|---|---|---|
| | Nifer/% PYD yn llwyddo i gael TL2+ | Nifer/% PYD Dim AAA yn llwyddo i gael TL2+ |
| Ysgol A | 7/16 [43.7%] | 7/13 [53.8%] |
| Ysgol B | 12/25 [48.0%] | 11/22 [50.0%] |
| Ysgol C | 10/25 [40.0%] | 10/22 [45.4%] |
| Ysgol CH | 4/15 [26.6%] | 4/8 [50.0%] |
| Ysgol D | 8/17 [47.0%] | 8/15 [53.3%] |

| Awdurdod | Cyfnod Allweddol 4 : Cymraeg | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | +/- 2012>2014 | +/- 2013>2014 |
| Mon | 62.4 | 66.4 | 72.0 | +9.6 | +5.6 |
| GwE | 71.3 | 70.9 | 72.7 | +1.4 | +1.8 |
| Cymru | 73.8 | 73.6 | | | |

| Awdurdod | Cyfnod Allweddol 4 : Saesneg | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | +/- 2012>2014 | +/- 2013>2014 |
| Mon | 57.2 | 61.5 | 65.0 | +7.8 | +3.5 |
| GwE | 62.6 | 65.4 | 67.8 | +5.2 | +2.4 |
| Cymru | 62.2 | 62.9 | | | |

| Awdurdod | Cyfnod Allweddol 4 : Mathemateg | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2012** | **2013** | **2014** | **+/- 2012>2014** | **+/- 2013>2014** |
| Mon | 61.0 | 62.2 | 60.0 | -1.0 | -2.2 |
| GwE | 61.0 | 63.5 | 63.2 | +2.2 | -0.3 |
| Cymru | 58.4 | 60.3 | | | |

**Data Arolygiadau Haf 2013- Hydref 2014 [cyfnod gweithredu GwE]**

| Arolygiadau ysgolion Mon [cyfanswm 16 arolygiad] | Proffil Arolygiadau | Canlyniad gweithredu dilynol GwE |
|---|---|---|
| Blwyddyn Addysgol 2013 [Haf] :<br>*3 ysgol gynradd* | 1 ysgol dim dilyniant; 2 ysgol Monitro Estyn | 1 ysgol wedi gwneud y cynnydd disgwyliedig ac wedi cael ei thynnu o gategori dilyniant. Yr ysgol arall yn aros ymweliad ar 18 Tachwedd gyda rhagolygon cadarn y caiff ei thynnu o'r categori. |
| Blwyddyn Addysgol 2013>2014 [Hydref/Gwanwyn/Haf] :<br>*8 ysgol gynradd ac 1 uwchradd* | 4 ysgol dim dilyniant; 1 Monitro Awdurdod; 4 Monitro Estyn [roedd sefyllfa 2 o'r ysgolion hyn yn hanesyddol fregus a gwnaed cynnydd sylweddol mewn cyfnod byr i'w cael i'r categori hwn] | Nid yw Estyn wedi ail ymweld eto. |
| Blwyddyn Addysgol 2014>2015 [Hydref] :<br>*2 ysgol gynradd, 1 ysgol arbennig ac 1 ysgol uwchradd* | Er nad yw'r adroddiadau wedi'u cyhoeddi ni osodwyd unrhyw un o'r ysgolion mewn categori dilyniant | D/B |
| Proffil cyfredol Mon [holl ysgolion] :<br>• Nifer/% ysgolion Monitro Awdurdod : 1 [1.8%]<br>• Nifer/% ysgolion Monitro Estyn : 5 [9.2%]<br>• Nifer/% ysgolion Gwelliant Sylweddol : 0 [0.0%]<br>• Nifer/% ysgolion Mesurau Arbennig : 0 [0.0%] | | |
| Proffil barnau [o'r ysgolion arolygwyd yn y cyfnod]:<br>• Nifer/% ble dyfarnwyd Da neu well ar draws y 3 Cwestiwn Allweddol : 9 [56.2%]<br>• Nifer/% ble dyfarnwyd CA1 yn Dda neu well : 12 [75.0%]<br>• Nifer/% ble dyfarnwyd CA2 yn Dda neu well : 11 [68.7%]<br>• Nifer/% ble dyfarnwyd CA3 yn Dda neu well : 10 [62.5%]<br>• Nifer/% ble dyfarwnyd anfoddhaol ar gyfer un o'r Cwestiynau Allweddol : 0 [0.0%]<br>• Nifer/% ysgolion ble dyfarnwyd Rhagorol ar gyfer Cwestiwn Allweddol/Barn Gyffredinol : 1 [1.8%] | | |

**Categoreiddio Ysgolion Mon 2013-2014**

***Proffil Categori Cytundeb Partneriaeth Awdurdod>Ysgolion Mon [2013-2014]***

| | Gwyrdd Dim angen monitro llawer | % | Melyn Monitro Ysgafn | % | Oren Monitro Penodol | % | Coch Monitro Sylweddol | % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd | 7 | 14% | 24 | 48% | 17 | 34% | 2 | 4% |
| Uwchradd | 0 | 0% | 3 | 60% | 1 | 20% | 1 | 20% |
| Pawb | 7 | 12.7% | 27 | 49.1% | 18 | 32.7% | 3 | 5.4% |

**Ymweliadau Monitro Tymhorol 2013-2014**

***Proffil barnau yn dilyn cynnal ymweliadau monitro Hydref/Haf 2013-14***

| Ymweliad Monitro | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
|---|---|---|---|---|
| Tymor Hydref : Safonau | 0 | 66.0% | 32.1% | 1.9% |
| Tymor yr Haf : Arweinyddiaeth | 3.8% | 57.7% | 36.5% | 1.9% |

***Ymateb ysgolion Mon i gwestiynau holiadur rhanddeiliaid [ymateb ysgolion y rhanbarth mewn italig]***

| YMWELIAD MONITRO TYMOR YR HYDREF | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Anghytuno'n Gryf | Anghytuno | Dim sylw |
| Proses o fudd i'r Pennaeth a'r ysgol. | 58.4% *[58.6%]* | 41.6% *[36.3%]* | 0 *[3.2%]* | 0 *[1.9%]* | 0 |
| Cyfarwyddiadau a'r gofynion cyn yr ymweliad yn glir | 33.3% *[46.5%]* | 58.3% *[48.4%]* | 8.3% *[5.1%]* | 0 | 0 |
| Trafodaeth a'r argymhellion dilynol o fudd i symud yr ysgol yn ei blaen | 50.0% *[57.3%]* | 50.0% *[36.3%]* | 0 *[4.5%]* | 0 *[1.9%]* | 0 |
| Lefel yr her yn briodol | 33.3% *[52.2%]* | 58.3% *[41.4%]* | 8.3% *[5.1%]* | 0 *[1.3%]* | 0 |

| YMWELIAD MONITRO TYMOR Y GWANWYN | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cytuno'n Gryf** | **Cytuno** | **Anghytuno'n Gryf** | **Anghytuno** | **Dim sylw** |
| Proses o fudd i'r Pennaeth a'r ysgol. | *71.4% [64.9%]* | *28.6% [31.4%]* | *0 [2.9%]* | 0 | *0 [0.8%]* |
| Cyfarwyddiadau a'r gofynion cyn yr ymweliad yn glir | *42.9% [56.2%]* | *57.1% [38.7%]* | *0 [4.4%]* | 0 | *0 [0.7%]* |
| Trafodaeth a'r argymhellion dilynol o fudd i symud yr ysgol yn ei blaen | *64.3% [62.0%]* | *28.6% [32.8%]* | *7.1% [4.4%]* | 0 | *0 [0.7%]* |
| Lefel yr her yn briodol | *57.1% [59.8%]* | *42.9% [38.0%]* | *0 [0.7%]* | *0 [0.7%]* | *0 [0.7%]* |

| YMWELIAD MONITRO TYMOR YR HAF | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cytuno'n Gryf** | **Cytuno** | **Anghytuno'n Gryf** | **Anghytuno** | **Dim sylw** |
| Proses o fudd i'r Pennaeth a'r ysgol. | 69.2% *[62.7%]* | 30.8% *[35.7%]* | 0 *[1.6%]* | 0 | 0 |
| Cyfarwyddiadau a'r gofynion cyn yr ymweliad yn glir | 53.8% *[55.5%]* | 46.2% *[42.9%]* | 0 *[1.6%]* | 0 | 0 |
| Trafodaeth a'r argymhellion dilynol o fudd i symud yr ysgol yn ei blaen | 69.2% *[59.5%]* | 30.8% *[37.3%]* | 0 *[2.4%]* | 0 *[0.8%]* | 0 |
| Lefel yr her yn briodol | 58.3% *[52.8%]* | 33.3% *[44.8%]* | 8.3% *[0.8%]* | 0 *[1.6%]* | 0 |

**Enghreifftiau penodol o weithredu GwE gydag ysgolion categori oren/coch 2013>2014 :**

| Amlinelliad o agweddau gweithredu/cefnogaeth | Effaith |
|---|---|
| Ysgol: Uwchradd Categori Risg: Coch | |
| Rhwng Hydref 2013>Hydref 2014 mae'r ysgol wedi derbyn hyd at 42 diwrnod gwaith o gefnogaeth ac ymweliadau monitro i wirio cynnydd a chynllunio'r camau nesaf [cyfuniad o amser yr Ymgynghorydd Her ac arbenigwyr allanol sydd wedi'u comisiynu gan GwE. Yn ystod y cyfnod rhoddwyd sylw i : datblygu Cynllun Gwella; adolygu trefniadau cwricwlwm; cefnogaeth i'r adran Saesneg mewn meysydd megis addysgeg/marcio ac asesu/tracio/datblygu sgiliau arholiad dysgwyr/gweithio gyda grwpiau targed; hyrwyddo ymweliadau canfod arferion da i ysgolion eraill; datblygu cyfundrefn tracio; gwella'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd; ffocws i ddatblygu sgiliau dysgwyr; gwella sgiliau arweinwyr wrth graffu ar waith ac arsylwi gwersi; mentora Uwch Arweinwyr ac Arweinwyr Canol; gwella sgiliau arweinwyr wrth ddadansoddi data. Yn ychwanegol i'r uchod bu i'r ysgol dderbyn 20 diwrnod pellach o gefnogaeth i ddysgwyr B11 ym maes Saesneg a Mathemateg. | Ysgol wedi cael ei thynnu allan o gategori.<br>Canlyniadau 2014 yn dangos gwelliannau ar draws mwyafrif helaeth y dangosyddion [TL2+ +4.0%; DPC +4.8%; Cymraeg +42.3%; Mathemateg + 12.5% ond Saesneg -4.6% yn is na ffigwr 2013 [hyn yn siomedig ac wedi arwain at weithredu pellach gyda'r adran].<br>Gwelliannau ym mherfformiad dysgwyr PYD [46.0% yn ennill TL2+ mewn cymhariaeth â 42.0% dysgwyr Dim PYD].<br>Gwell cysondeb yn ansawdd arweinyddiaeth ganol ar draws ystod o agweddau ee craffu ar waith; arwain ar y dysgu ac addysgu ac asesu; hunan arfarnu.<br>Gwell miniogrwydd yn ansawdd y gwaith arfarnu a chynllunio gwelliannau ar lefel UDRh. |
| Ysgol: Cynradd Categori Risg: Coch | |
| Roedd sefyllfa hanesyddol yr ysgol yn fregus a chyflwynwyd cynhaliaeth ddwys yn ystod Haf a Hydref 2013 i'w pharatoi ar gyfer arolygiad [Ionawr 2014]. Roedd y gefnogaeth honno wedi rhoi sylw i agweddau o arweinyddiaeth a safonau ac ar gynorthwyo'r Pennaeth i sefydlu gweithdrefnau arfarnu a llunio adroddiad arfarnol yn erbyn gofynion y Fframwaith Arolygu. Er i'r ysgol gael ei gosod mewn categori *Monitro Estyn* yn dilyn yr arolygiad, roedd cynnydd sylweddol wedi digwydd ar sawl agwedd mewn cyfnod byr iawn. Yn dilyn hynny, cyflwynwyd cefnogaeth i lunio *Cynllun Gwella Ol-Arolwg* sydd yn finiog ac ymarferol ac arweiniad ar sut orau i roi'r | Ysgol wedi mabwysiadu CGOA sy'n gosod cyfeiriad clir i'r gwaith ac sy'n amlygu'r camau monitro a'r cerrig milltir allweddol.<br>Safonau cyflawniad yn llyfrau dysgwyr yn dangos gwelliannau ac yn benodol, safonau ysgrifennu da ym mrig yr ysgol [ac yn datblygu yng ngweddill yr ysgol]; gwell cysondeb yn ystod y ffurfiau/mathau o ysgrifennu a gyflawnir; mwy o arferion da asesu ar gyfer dysgu/rhoi adborth ar waith a mwy o gysondeb yn eu defnydd; strategaethau i alluogi disgyblion i wella eu gwaith yn dechrau gafael.<br>Rol craffu aelodau'r Corff Llywodraethol |

| | |
|---|---|
| CGOA ar waith. Cynhaliwyd ymarferiadau craffu ar waith ar y cyd ac mae cefnogaeth wedi bod i gynorthwyo gyda llunio adroddiadau arfarnol ac i fonitro cynnydd ac effaith gweithredu dilynol. Cyflwynwyd arweiniad ar wella a chryfhau ymhellach weithdrefnau arfarnu'r ysgol gan sicrhau perchnogaeth ehangach i'r gwaith. Hefyd, trwy drefn froceru GwE, trefnwyd cynhaliaeth gan Bennaeth lleol ar arferion effeithiol yn y defnydd o Incerts. | wedi'i finiogi.<br>Incerts wedi'i sefydlu fel trefn asesu a thracio a'r holl staff addysgu yn ei ddefnyddio. |
| Ysgol: Cynradd Categori Risg: Oren | |
| Yn dilyn cael ei gosod mewn categori *Monitro Estyn* yn Ebrill 2013, mae'r ysgol wedi derbyn cefnogaeth ac arweiniad ar ystod o agweddau gan gynnwys llunio CGOA manwl i ymateb i argymhellion Estyn a sefydlu gweithdrefnau cadarnach er mwyn monitro cynnydd yn erbyn yr amryfal flaenoriaethau [sefydlwyd trefn ble roedd y Pennaeth yn adrodd ar gynnydd i Gadeirydd y Corff Llywodraethu yn rheolaidd]. Mae'r ysgol wedi derbyn sawl diwrnod o gefnogaeth gan Bartneriaid Cynorthwyol GwE ym maes llythrennedd a rhif ac fel rhan o'r targedu, cafodd athro CA2 gyfleoedd i gyd cynllunio a chyd-addysgu gyda'r partneriaid ac mae hynny wedi gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu.<br>Cyflwynwyd sawl cyfle i'r ysgol weld arferion da mewn ysgolion lleol ac fel canlyniad i'r gynhaliaeth roddwyd i ddatblygu system mwy effeithiol o dracio cynnydd dysgwyr, mae'r Pennaeth wedi cael cyfle i rannu arferion yr ysgol gyda phenaethiaid ysgolion teulu Môn.<br>Hwyluswyd hyfforddiant ar *Asesu ar Gyfer Dysgu* ar draws yr ysgol a chefnogwyd y Pennaeth i ddatblygu prosesau hunan arfarnu miniocach ar sail amserlen benodol. | Gweithredu cadarn a chyson wedi digwydd dros y cyfnod dan sylw, a hynny yn erbyn bob un o'r argymhellion [Estyn yn ail-ymweld yn ystod Tachwedd].<br>Cynlluniau gwaith wedi cael eu haddasu er mwyn ymateb i ofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd ac i sicrhau gwell dilyniant yn ddatblygiad medrau ar draws yr ysgol. Mae'r cynlluniau tymor byr yn cyfeirio at sgiliau penodol ar lefel priodol yn ôl oedran a gallu'r disgyblion ac mae'r gwahaniaethu yn fwy effeithiol erbyn hyn.<br>Mwy o gysondeb yn y defnydd o strategaethau AaGD ar draws yr ysgol.<br>Rol arweinyddol y Cydlynydd Llythrennedd wedi'i ddatblygu mewn perthynas â gofynion y Fframwaith a hyn wedi arwain at gynllunio ac addysgu mwy effeithiol i ddatblygu sgiliau ysgrifennu.<br>Cydlynydd yn monitro darpariaeth ar gyfer llythrennedd yn fwy cyson ac effeithiol.<br>Pennaeth/Llywodraethwyr a'r staff yn llawer mwy ymwybodol o berfformiad yr ysgol ac yn deall yn wella y materion sydd angen sylw pellach. |

**Categoreiddio Cenedlaethol 2014-2015**

Mae tri cam i'r broses o gategoreiddio ysgolion :

- Cam 1 : ysgol yn cael ei hasesu gan Lywodraeth Cymru ar sail ystod o fesurau perfformiad a'i gosod mewn un o 4 categori dyfarniad [1 yn uchaf a 4 yn isaf]. Caiff hyn ei wirio gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr/Ionawr bob blwyddyn.
- Cam 2 : GwE a'r Awdurdod yn dod i farn ar ansawdd yr arweinyddiaeth a'r dysgu ac addysgu yn yr ysgol ac yn ei gosod mewn un o 4 categori [A yn ychaf a D yn isaf]. Bydd y broses o ddod i ddyfarniad ar allu'r ysgol i wella yn dechrau gyda hunan arfarniad yr ysgol ond bydd rhaid i'r Ymgynghorwyr Her gael eu bodloni a gweld tystiolaeth, fod pob arweinydd ysgol yn defnyddio data ar berfformiad mewn modd cadarn fel rhan o broses effeithiol o reoli a gwella [llywodraethwyr, penaethiaid, athrawon, arweinwyr canol ac arweinwyr pwnc]. Rhaid bod yna dystiolaeth o ddefnydd effeithiol o ddata cywir ar lefel disgybl, dosbarth, grŵp, cohort, pwnc ac ysgol. Bydd Ymgynghorwyr Her yn ystyried perfformiad pob dysgwr a grŵp o ddysgwyr yn ogystal ag ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn yr ysgol.
- Cam 3 : GwE a'r Awdurdod yn cytuno ar gategori lliw trosfwaol yr ysgol [Gwyrdd/Melyn/Melyngoch/Coch] fydd yn arwain at raglen o gefnogaeth, her ac ymyrraeth fydd wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer yr ysgol. Bydd broceru'r gefnogaeth yn un o swyddogaethau allweddol GwE.

**Proffil Categoreiddio Cenedlaethol Cynradd 2014-2015 [Cam 1 – Data]**

| | Nifer ysgolion Categori 1 | % C1 | Nifer ysgolion Categori 2 | % C2 | Nifer ysgolion Categori 3 | % C3 | Nifer ysgolion Categori 4 | % C4 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mon | 11 | 22.92% | 16 | 33.33% | 14 | 29.17% | 7 | 14.58% |
| **GwE** | **51** | **13.46%** | **125** | **32.98%** | **150** | **39.58%** | **53** | **13.98%** |
| **Cymru** | **186** | **13.77%** | **487** | **36.05%** | **503** | **37.23%** | **175** | **12.95%** |

| | Nifer ysgolion Categori 1 a 2 | % C1 a 2 | Nifer ysgolion Categori 3 a 4 | % C3 a 4 |
|---|---|---|---|---|
| Mon | 27 | 56.25% | 21 | 43.75% |
| **GwE** | **176** | **46.44%** | **203** | **53.56%** |
| **Cymru** | **673** | **49.81%** | **678** | **50.19%** |

Nid yw'r wbodaeth gyfatebol ar gyfer ysgolion uwchradd wedi ei gyhoeddi hyd yma.

***Y meysydd ffocws a’r gofynion ar gyfer ymweliadau monitro tymhorol 2014-15:***

*Ymweliad Tymor yr Hydref 2014* : ymweliad sydd yn arfarnu perfformiad a deilliannau diwedd cyfnod allweddol ynghyd ag ansawdd yr ysgol o’i pherffomiad. Byddwn hefyd yn cynnal trafodaeth ar briodoldeb a her targedau’r blynyddoedd nesaf. Eleni, rhoddir ffocws penodol ar wirio addasrwydd a phriodoldeb y Cynllun Datblygu Ysgol. Golyga hynny edrych ar y cyswllt rhyngddo â deilliannau 2014 a chanfyddiadau’r hunan arfarnu. Wrth arfarnu’r CDY byddwn yn ystyried addasrwydd y blaenoriaethau, manylder y cynllunio wrth adnabod yr union gamau i’w cymryd [a’r tebygolrwydd y bydd y gweithredu yn arwain at y gwelliannau ddeisyfir], y trefniadau monitro fydd yn weithredol a hefyd miniogrwydd ac addasrwydd y deilliannau sydd wedi’u pennu. Ymhob ymweliad monitro eleni, rhoddir sylw i’r modd y mae’r ysgol wedi ymrwymo i gydweithio fel rhan o’r model *Ysgol>Ysgol*. Yn ystod ymweliad monitro Tymor yr Hydref, byddwn yn casglu gwybodaeth am gynlluniau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn, ac yn monitro cynnydd ac effaith y gweithredu hwnnw wedyn yn ystod ymweliadau Tymor y Gwanwyn a Thymor yr Haf. Ar derfyn yr ymweliad, cytunir ar agweddau penodol o’r CDY fydd yn cael eu monitro yn ystod ymweliad Tymor y Gwanwyn 2015 [ymarfer fydd yn cynnwys craffu ar waith dysgwyr i fonitro effaith eich gweithredu]. Mae hyn yn sicrhau mai gweithredu tuag at amcanion y CDY fydd prif ffocws gweithredu yr ysgol yn ystod y cyfnod dan sylw, ac mai’r cynnydd tuag at y blaenoriaethau fydd prif ffocws y trafodaethau dilynol. Y dogfennau tystiolaeth y bydd disgwyl i’r ysgol eu cyflwyno ymlaen llaw i sylw’r Cynghorydd Her : Hunan arfarniad yr ysgol o berfformiad [1.1] **ym mha bynnag fformat/arddull ddefnyddir gan yr ysgol; Targedau 2015 a 2016; Cynllun Datblygu Ysgol a manylion am gynlluniau cydweithio *Ysgol>Ysgol*. Mae’r Awdurdodau Lleol wedi comisiynu GwE i weithredu fel eu henwebeion ym mhroses Rheoli Perfformiad y Pennaeth ac felly bydd y drafodaeth yn gosod sylfaen ar gyfer y cyfarfod adolygu a gosod amcanion ffurfiol gyda’r Llywodraethwyr.

*Ymweliad Tymor y Gwanwyn 2015 :* rhoddir y prif ffocws ar arfarnu ansawdd y cynnydd yn erbyn blaenoriaethau’r CDY ac ansawdd arfarniad yr ysgol o’i chynnydd [gan fanylu yn benodol ar yr agweddau y cytunwyd arnynt yn ystod ymweliad yr hydref]. Yn ystod yr ymweliad byddwn yn cynnal ymarfer craffu ar waith dysgwyr [union sampl a ffocws i’w gytuno arnynt ymlaen llaw gyda’r ysgol]. Byddwn hefyd yn defnyddio arfarniad yr ysgol i fonitro cynnydd yn erbyn y cydweithio *Ysgol>Ysgol*. Yn ystod ymweliad Gwanwyn 2015, ar gais Is-Grwp Rhanbarthol Cyfrwng Cymraeg ac Adeiladu Cynhwysedd, byddwn hefyd yn cynnal trafodaethau gyda’r ysgol ar safonau a’r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg. Bwriad yr ymarfer ydy casglu gwybodaeth ac arferion da ar y sefyllfa ranbarthol. Y dogfennau tystiolaeth y bydd angen i’r ysgol eu cyflwyno ymlaen llaw i sylw’r Cynghorydd Her : hunan arfarniad yr ysgol o gynnydd yn erbyn y CDY; hunan arfarniad yr ysgol o ddangosyddion perfformiad 1.1.5 [Safonau yn yr Iaith Gymraeg] a 2.1.3 [Darpariaeth Gymraeg a’r Dimensiwn Cymreig]; gwybodaeth am gynnydd tuag at dargedau 2015 a 2016 ac rfarniad o gynnydd ac effaith cydweithio Ysgol>Ysgol

*Ymweliad Tymor yr Haf 2015 :* yn ystod ymweliad Tymor yr Haf, byddwn yn cynnal arfarniad terfynol o gynnydd yr ysgol yn erbyn blaenoriaethau’r CDY, gan gynnwys barnu ansawdd hunan arfarniad yr ysgol ei hun o gynnydd. Byddwn hefyd yn dod i farn ar ansawdd ac effaith gweithdrefnau hunan arfarnu’r ysgol ac ar effaith y gweithredu *Ysgol> Ysgol* ac yn cytuno ar yr agweddau a’r materion fydd angen sylw pellach fel rhan o CDY 2015-16. Y dogfennau tystiolaeth y bydd angen i’r ysgol eu cyflwyno wythnos ymlaen llaw i sylw’r Cynghorydd Her : hunan arfarniad yr ysgol yn erbyn y tri cwestiwn allweddol ac droddiadau o gynnydd ac effaith y CDY a’r cydweithio *Ysgol>Ysgol.*

**Cefnogaeth Llythrennedd a Rhifedd i Ysgolion Môn 2013-14**

***Perfformiad yn y profion cenedlaethol***
% dysgwyr efo sgoriau safonedig >85 yn ysgolion Mon yn uwch na chyfartaledd Cymru a chyfartaledd GwE mewn tri o'r pedwar prawf – sef Darllen Saesneg, Ymresymu Rhifyddol a Rhifedd Gweithdrefnol. Hyn hefyd yn wir am sgoriau safonedig >115. Perfformiad dysgwyr Môn oedd uchaf yn y rhanbarth yn y prawf Darllen Saesneg, ond y gwanaf yn y Prawf Darllen Cymraeg. Yn y ddau brawf rhifedd, roedd perfformiad dysgwyr Môn fymryn islaw yr ALl oedd yn perfformio uchaf yn y rhanbarth, sef Gwynedd.

***Hyfforddiant Dyfal Donc***
Yn ystod y flwyddyn trefnwyd tri hyfforddiant *dal-i-fyny* llythrennedd a thri rhifedd yn Mhlas Menai ar gyfer ysgolion yr hwb. Mynychoedd 11 o ysgolion cynradd ac uwchradd y sir yr hyfforddiant rhifedd a 14 yr hyfforddiant llythrennedd.
Mae dau gwrs dal-i-fyny arall wedi ei drefnu ar gyfer mis Tachwedd 2014 gyda nifer o ysgolion yn dewis anfon aelodau ychwanegol o staff ar yr hyfforddiant, sy'n awgrymu eu bod wedi gweld gwerth ynddo.

***Cefnogaeth Partneriaid Cynorthwyol***
Darparwyd cefnogaeth i 16 o ysgolion gan bedwar aelod o'r tîm yn ystod y flwyddyn – Llythrennedd cyfrwng Cymraeg, Llythrennedd cyfrwng Saesneg, Rhifedd CA2 a Rhifedd CS. Mae'r athrawon yma wedi eu secondio i GwE o ysgolion y rhanbarth ac wedi eu hadnabod fel ymarferwyr rhagorol. Yn 11 o'r ysgolion, un ymweliad fu gan y PC, neu bu'r PC yn darparu hyfforddiant neu sesiwn i glwstwr neu grŵp o ysgolion e.e. hyfforddiant ar Ymresymu Rhifyddol i ysgolion cylch Amlwch. Yn y pump ysgol arall fe roddwyd cefnogaeth mwy dwys a hirdymor, oedd yn cynnwys cyd-gynllunio gyda athrawon dosbarth, y PC yn modelu gwersi, addysgu ar y cyd ayyb. Yn yr achosion hyn cytunodd y PC a'r ysgol ar y camau gweithredu ar ddechrau'r cyfnod o gefnogaeth, ac roedd copiau adroddiadau'r ymweliadau yn cael eu rhannu gyda'r Ymgynghorywr Her, er mwyn iddynt hwy fedru monitro effaith y gweithredu.

**Gweithredu pellach eleni:**
Mae GwE wedi derbyn gwybodaeth gan y Rhaglen Gefnogaeth Genedlaethol am anghenion cefnogaeth holl ysgolion Môn ym maes llythrennedd a rhifedd. Y gofyn mwyaf yw am gefnogaeth i gyflwyno gwybodaeth am y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd i rieni a llywodraethwyr [cais gan 58% o ysgolion]. Y RhGG fydd yn darparu'r gefnogaeth hon. O ran dysgu ac addysgu, sef y gefnogaeth sy'n cael ei gynnig gan PC GwE, y gofyn mwyaf oedd cefnogaeth ym maes rhifedd [35% o ysgolion]. Mae hyfforddiant ar *Ymresymu Rhifyddol* wedi ei drefnu ar gyfer mis Tachwedd 2014. Mae'r gofyn am gefnogaeth ym maes llythrennedd yn is ym Môn [19% o ysgolion].

Mae GwE hefyd wedi dadansoddi canlyniadau'r profion ac wedi adnabod yr ysgolion sy'n perfformio orau a gwanaf ym mhob ALl a byddwn yn targedu cefnogaeth y PC i'r ysgolion hynny ble mae'r perfformiad wanaf, ac yn gofalu bod cyfleoedd i'r rhai sy'n perfformio orau i rannu eu harferion effeithiol.

**Rhagflas o weithredu penodol sydd i ddigwydd yn ystod 2014-2015 :**

*Hyrwyddo cydweithio Ysgol>Ysgol*

i. rol amlycach i Ymgynghorywr Her GwE wrth hwyluso, hyrwyddo, herio a monitro'r gweithredu
ii. sicrhau cyllid i bob ysgol i hwyluso cydweithio gydag ysgolion eraill y teulu
iii. yn y sector cynradd, hyrwyddo cydweithio gydag ysgolion eraill y rhanbarthol trwy ganiatau mynediad i hyd at £10,000
iv. datblygu rhwydwaith o ysgolion/adrannau/unigolion '*arweiniol*' gan sicrhau bod cyllid ar gael i hwyluso cydweithio gyda phartneriaid '*datblygol*'
v. cydweithio gyda phartneriaid allweddol i gynnal 3 cynhadledd rhannu arfer dda [cynradd/uwchradd/arbennig]

*Datblygu arweinyddiaeth a phedagogiaeth*

i. cyflwyno prosbectws o raglenni datblygol ym maes arweinyddiaeth a phedagogiaeth fydd yn cael eu cyflwyno/brocera gan GwE o dymor y gwanwyn 2015 ymlaen [ffocws penodol yn y cam cyntaf i ddatblygu arweinyddiaeth ganol ac i symud dysgu da>rhagorol]
ii. datblygu rhwydwaith o o ysgolion/adrannol '*arweiniol*' ym maes arweinyddiaeth a hwyluso cydweithio gyda phartneriaid '*datblygol'*
iii. datblygu rhwydwaith o ymarferwyr '*arweiniol*' ym maes addysgeg a hwyluso cydweithio gyda phartneriaid '*datblygol*
iv. ym maes arweinyddiaeth, datblygu pecyn '*hunan-ddatblygu'* i uwch arweinwyr ei ddefnyddio i gynnal sesiynau hyfforddi a chefnogi yn fewnol yn yr ysgol
v. trefnu cynhadledd ar gyfer Penaethiaid Gweithredol *[Executive Heads]* i rannu arferion effeithiol
vi. hyrwyddo gwaith yr is-fforwm strategol uwchradd [Grwp Camu] i wella ansawdd arweinyddiaeth [*datblygu rol weithredol/executive y grwp; rhannu arferion da; cynnal ymarferiadau craffu dwys ar y cyd; gwella ansawdd arweinyddiaeth mewn adrannau craidd Saesneg a Mathemateg*]

*Hyrwyddo cydweithio ar gyfer grymuso gweithdrefnau safoni a chymedroli*

i. sefydlu ac hyfforddi tim rhanbarthol o ymarferwyr arweiniol [cynrychiolaeth cynradd ac uwchradd ar gyfer pob un o'r pynciau craidd] i gyflwyno rhaglen o hyfforddiant a chefnogaeth ym maes safoni a chymedroli
ii. datblygu portfolio rhanbarthol [wedi'i safoni] ar gyfer pob pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol
iii. blaenoriaethu asesu a safoni fel rhan o raglen hyfforddiant pedagogiaeth GwE yn nhymor y gwanwyn 2015

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MôN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD AT:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **DYDDIAD:** | **27 Tachwedd 2014** |
| **PWNC :** | **Adroddiad Blynyddol - 'Gwrando ar Gwynion a Dysgu oddi wrthynt'** |
| **AELODAU PORTFOLLIO( AU):** | **Kenneth P. Hughes** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Sophie Shanahan / Gareth Llwyd**<br>**01248 752717 / 01248 752708**<br>**slsss@anglesey.gov.uk / gllss@anglesey.gov.uk** |

## 1.0 ARGYMHELLION

A1 – Nodi natur y cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2013/14 ynglyn â'r gwasanaethau a ddarparwyd gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol.

A2 – Nodi perfformiad yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithredu'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion ac yn delio â chwynion.

A3 - Nodi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer datblygu'r trefniadau i ddelio'n effeithiol gyda'r sylwadau a chwynion a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr.

## 2.0 RHESWM

2.1 Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn Gweithredu Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion statudol yng Nghymru. Hyd Awst 2014, roedd hyn yn unol â'r rheoliadau a'r cyfarwyddyd 'Gwrando a Dysgu' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2006 (o 01/08/2014, ac y mae'r rhain wedi eu disodli gan reoliadau a chyfarwyddyd newydd gan Lywodraeth Cymru, 'Gwneud pethau'n well'). Mae ymrwymiad i lunio Adroddiad Blynyddol ar weithrediad y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion a'i gyflwyno i Bwyllgor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol i bwrpasau sgriwtini ac er mwyn monitro'r trefniadau ar gyfer delio'n effeithiol â chwynion a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr.

2.2 Ystyrir ei bod yn hanfodol bod cofnod yn cael ei gadw o sylwadau a chwynion er mwyn i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol allu dysgu gwersi oddi wrthynt, fel rhan o wella'r ddarpariaeth o wasanaeth. Ystyrir ei bod yn arfer dda i rannu'r adroddiad cwynion blynyddol ag aelodau'r Cyngor er mwyn sicrhau tryloywder.

| | |
|---|---|
| Awdur: | Sophie Shanahan |
| Teitl Swydd: | Swyddog Cwynion a Datblygu Gofal Cwsmer Dros Dro |
| Dyddiad: | 14.10.2014 |

| |
|---|
| ATODIAD 1-  Adroddiad Blynyddol: 'Gwrando ar Gwynion a Dysgu oddi wrthynt' |

| |
|---|
| ATODIAD 2-  Cynllun Gweithredu 2014/15 |

| |
|---|
| ATODIAD 3- Papur Briffio: 'Gwneud Pethau'n Well' - Proses Gwynion Newydd y Gwasanaethau Cymdeithasol |

**ATODIAD 1**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2013/14: 'Gwrando ar Gwynion a Dysgu oddi wrthynt'

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at y modd y gweithredwyd ar Drefn Gwyno a Sylwadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant yn y cyfnod rhwng mis Ebrill 2013 a diwedd mis Mawrth 2014.

1.2 Y Swyddog Cwynion a Gofal Cwsmer yng Ngwasanaethau Cefnogi'r Gymuned, yr Adran Gymuned oedd yn gyfrifol am y Drefn Gwyno a Sylwadau yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Er mwyn rheoli'r Drefn Gwyno mae'r Swyddog Cwynion yn atebol i'r Cyfarwyddwr Cymuned ac yn cael ei reoli a'i oruchwylio'n ddyddiol gan Reolwr yr Uned Cefnogi Busnes.

## 2. Sylwadau – Cadarnhaol a negyddol

### 2.1 Sylwadau Cadarnhaol

2.1.1 Cofnodwyd cyfanswm o 34 o sylwadau cadarnhaol oddi wrth ddefnyddwyr y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn, sy'n is na chyfanswm y llynedd oedd yn 44. Mae'n bosib mai'r rheswm am hyn oedd nad oedd sylwadau cadarnhaol yn cael eu hanfon ymlaen i gael eu cofnodi. Yn ddiweddar cafodd staff eu hatgoffa am bwysigrwydd anfon sylwadau cadarnhaol a negyddol ymlaen at y Swyddogion Cwynion. Derbyniwyd 25 o'r sylwadau hyn yn 2013/14 oddi wrth ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u cynrychiolwyr; roedd 9 o ffynonellau proffesiynol. Roedd y 34 sylw cadarnhaol wedi'u categoreiddio fel a ganlyn:

| **Sylwadau Cadarnhaol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Plant** | | **Gwasanaethau Oedolion** | |
| Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal ac Ôl-Ofal | 2 | Gofal Preswyl | 5 |
| Tîm Lleoli Plant | 3 | Gofal Cartref | 2 |
| Tîm Ymyriad Teuluol | 2 | Cludiant Cymunedol Môn | 1 |
| Cyllid Cleientiaid Dyletswydd | 1 | Tîm Iechyd Meddwl | 1 |
| Gwasanaethau Plant - arall | 4 | Tîm Anableddau Dysgu | 1 |
| | | Canolfan Byron | 2 |
| | | Cyllid Cleientiaid | 1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cyllid Cleientiaid / Gofal Preswyl | 1 |
| | | POVA | 1 |
| | | Tîm Oedolion – y gogledd | 2 |
| | | Tîm Oedolion – y de | 1 |
| | | Gwasanaethau Oedolion - arall | 4 |
| **Cyfanswm** | **12** | **Cyfanswm** | **22** |

2.1.2 Isod ceir enghreifftiau o sylwadau cadarnhaol gan ddefnyddwyr y gwasanaeth:

*"Bu ei hadwaith cyflym a'i hagwedd gadarnhaol o gymorth i gael y cymorth angenrheidiol.... dymunaf i a fy nheulu ddiolch o waelod calon am wasanaeth a chefnogaeth yr ofalwraig gartref yn ystod yr amser anodd hwn"* - **Gwasanaeth Gofal Cartref**

*"Mae hi wedi bod yn bleser gweithio gyda chi gan i chi fod mor agored a gonest gyda mi, yr ysgol a'n pobl ifanc ac yn gefnogol ohonom"* - **Tîm Ymyriad Teuluol**

"*Roedd ganddo wastad amser i drafod fy ngofidiau fy hun ac mae ei gyngor wedi bod yn hynod werthfawr yn ystod yr adegau mwyaf blinderus"* – **Tîm Ymyrryd Teuluol**

*"Yn aml iawn mae'r staff yn mynd y tu draw i rôl eu swydd yn ogystal â dangos urddas yn eu gofal a'u tosturi ac yn cymryd amser i gymdeithasu gyda'r preswylwyr. Maent yn glod i ofal cymdeithasol a gellid gwneud gydag efelychu eu hesiampl mewn mannau eraill* **– Gofal Preswyl**

*"Roedd y gweithiwr cymdeithasol yn gymorth mawr ac yn gymwynasgar. Gwrandawodd ar y pryderon niferus yr oedd gennym gan awgrymu amryfal atebion"* - **Tîm Oedolion - y gogledd**

## 2.2 Sylwadau Negyddol

2.2.1 Cofnodwyd cyfanswm o 13 o sylwadau negyddol yn ystod y flwyddyn, o gymharu â saith y llynedd. Cafodd y 13 o sylwadau negyddol eu categoreiddio fel a ganlyn:

| **SYLWADAU NEGYDDOL** | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Plant** | | **Gwasanaethau Oedolion** | |
| Tîm Dyletswydd | 5 | Uned Ddarparu | 2 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Anabledd Dysgu | 1 |
| | | Gofal Preswyl | 1 |
| | | Tîm Oedolion - y gogledd | 1 |
| | | Canolfan Byron | 1 |
| | | Rheoli | 2 |
| **Cyfanswm** | **5** | **Cyfanswm** | **8** |

## 3. Cwynion Cam 1 – Penderfyniad Lleol

3.1 Yn y tabl isod crynhoir nifer y cwynion a ddaeth i law dros y chwe blynedd diwethaf am y Gwasanaethau Oedolion a Phlant dan Gam 1, Cam 2 a Cham 3 y Drefn Gwyno a Sylwadau. I roi'r ffigurau hyn mewn persbectif, mae Tabl 1b yn dangos ystadegau ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir gan Gwasanaethau Plant, ac mae Tabl 1c yn dangos ystadegau ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir gan Gwasanaethau Oedolion yn 2013-14.

**Tabl 1a**

| Blwyddyn | Oedolion Cam 1 | Plant Cam 1 | Cyfanswm Cam 1 | Oedolion Cam 2 | Plant Cam 2 | Cyfanswm Cam 2 | Oedolion Cam 3 | Plant Cam 3 | Cyfanswm Cam 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2008/09 | 45 | 13 | **58** | 2 | 0 | **2** | 1 | 0 | **1** |
| 2009/10 | 29 | 23 | **52** | 4 | 1 | **5** | 1 | 0 | **1** |
| 2010/11 | 37 | 20 | **57** | 1 | 2 | **3** | 0 | 0 | **0** |
| 2011/12 | 25 | 40 | **65** | 3 | 4 | **7** | 0 | 0 | **0** |
| 2012/13 | 32 | 24 | **56** | 2 | 4 | **6** | 2 | 3 | **5** |
| 2013/14 | 24 | 26 | **50** | 5 | 6 | **11** | 0 | 0 | **0** |

**Tabl 1b**

| Children's Services | |
|---|---|
| Nifer y Plant mewn Angen ar 31 March | **224** |
| Nifer y Plant mewn Gofal ar 31 March | **78** |
| Plant a roddwyd ar y Gofrestr yn ystod y flwyddyn | **83** |
| Cysylltiadau | **3230** |
| Cyfeiriadau | **1464** |
| Cysylltiadau â'r Heddlu | **1765** |
| Asesiadau Cychwynnol | **514** |
| Asesiadau Craidd | **110** |

**Tabl 1c**


| Adult Services | |
|---|---|
| Nifer yr oedolion yn cael gwasanaeth ar 31 Mawrth | **1,609** |
| Cynlluniau gofal newydd wedi'u cwblhau (Gofal Preswyl a Chartref) | **739** |
| Cynnal asesiadau o ofalwyr newydd | **403** |
| Pobl yn cael Taliad Uniongyrchol | **44** |
| Pobl yn cael gofal cartref preswyl/nyrsio | **690** |

| | |
|---|---|
| Cynnal adolygiadau | **941** |
| Pobl yn cael technoleg gynorthwyol | **469** |
| Pobl yn cael offer i'w cynorthwyo gyda  gweithgareddau bywyd beunyddiol | **579** |
| Pobl yn cael offer i'w cynorthwyo gydag addasiadau mawr neu fach i'w tai | **125** |
| Pobl yn cael gwasanaeth ailalluogi | **438** |


3.2.1 Mae Tabl 1a yn dangos bod nifer y cwynion a gofnodwyd dan Gam 1 y Drefn wedi gostwng rhyw fymryn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.  Fodd bynnag mae nifer y cwynion sydd wedi'u trosglwyddo i Gam 2 y Drefn wedi codi. Rydym yn parhau i roi pwyslais ar wella ein trefniadau ar gyfer cofnodi sylwadau a chwynion dan Gam 1 y Canllawiau a gwneir pob ymdrech i ymdrin â chwynion ac ymateb iddynt yn gynt er mwyn datrys problemau ac osgoi trosglwyddo pryderon yn uwch.  Er enghraifft, cynigir cyfarfodydd i achwynwyr sy'n anhapus gyda'r ymatebion y maent yn eu cael yng Ngham 1 er mwyn ceisio datrys materion heb eu trosglwyddo ymlaen i Gam 2.

3.2.2 Mae'r Siart Olwyn isod yn dangos y perfformiad o ran ymateb i Gwynion Cam 1 o fewn yr amser statudol o ddeg diwrnod gwaith:

**GWASANAETHAU PLANT**




**GWASANAETHAU OEDOLION**




3.2.3 Dengys y ffigyrau uchod na ymatebwyd i nifer sylweddol o gwynion o fewn yr amser statudol o ddeg diwrnod gwaith. Roedd cyfran y cwynion yr ymatebwyd iddynt y tu allan i'r amser wedi codi o gymharu â 2012/13 ar gyfer Gwasanaethau Plant, ond wedi gostwng ar gyfer Gwasanaethau Oedolion (53% y tu allan i'r amser ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a 33% y tu allan i'r amser ar gyfer Gwasanaethau Plant yn 2012/13). Bydd raid i Reolwyr roi mwy o bwyslais ar flaenoriaethu cwynion er mwyn gwella perfformiad yn y maes hwn . Fodd bynnag cydnabyddir y gall ffactorau megis staffio a maes yr ymchwiliad weithiau ei gwneud yn anos cwblhau ymateb o fewn yr amser.

3.2.4 Yn Nhabl 2 dangosir cymhariaeth tair blynedd o'r meysydd gwasanaeth ble daeth sylwadau a chwynion i law dan Gam 1 y Canllawiau yn y Gwasanaethau Plant ac Oedolion.

**Tabl 2**

| CYMHARIAETH PEDAIR BLYNEDD | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GWASANAETH | Sylwadau Cadarnhaol 2013/14 | Cwynion a Sylwadau Negyddol Cam 1 2013/14 | Cyfanswm 2013/14 | Sylwadau Cadarnhaol 2012/13 | Cwynion a Sylwadau Negyddol Cam 1 2012/13 | Cyfanswm 2012/13 | Sylwadau Cadarnhaol 2011/12 | Cwynion a Sylwadau Negyddol Cam 1 2011/12 | Cyfansw m 2011/12 | Sylwadau Cadarnhaol 2010/11 | Cwynion a Sylwadau Negyddol Cam 1 2010/11 | Cyfans wm 2010/11 |
| Plant | 12 | 31 | 43 | 7 | 25 | 32 | 10 | 41 | 50 | 6 | 21 | 27 |
| Pobl Hŷn | 4 | 3 | 7 | 5 | 13 | 18 | 3 | 7 | 15 | 1 | 20 | 21 |
| Anableddau Corfforol | 0 | 3 | 3 | 3 | 6 | 9 | 4 | 6 | 6 | 5 | 4 | 9 |
| Anableddau Dysgu | 1 | 2 | 3 | 0 | 3 | 3 | 0 | 2 | 2 | 3 | 4 | 7 |
| Iechyd Meddwl | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 | 2 | 3 | 5 |
| Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol | 11 | 21 | 32 | 27 | 13 | 40 | 30 | 13 | 42 | 78 | 32 | 110 |
| Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol yn yr Ysbyty | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 3 | 2 | 2 |
| Rheoli a Gweinyddu | 5 | 3 | 7 | 2 | 1 | 3 | 1 | 2 | 4 | 2 | 0 | 2 |
| CYFANSYMIAU | 34 | 63 | 97 | 44 | 63 | 107 | 48 | 72 | 120 | 100 | 86 | 186 |

3.3 Roedd dadansoddiad o natur y cwynion Cam 1 yn y Gwasanaethau Plant yn dangos bod y cwynion yn ymwneud, yn bennaf, â:

- Cyfathrebu annigonol gyda theuluoedd sy'n derbyn gwasanaeth;
- Cyfathrebu annigonol rhwng asiantaethau;
- Anfodlonrwydd gyda chofnodi gwybodaeth anghywir;
- Anfodlonrwydd gyda gweithredoedd neu agwedd staff Gwaith Cymdeithasol, gan gynnwys rhagfarn ganfyddedig;
- Oedi wrth ddarparu gwasanaeth neu wybodaeth y gofynwyd amdani gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u rhieni o dan Adran 7 Deddf Gwarchod Data 1998.

3.4 Yn y Gwasanaethau Oedolion, roedd y cwynion Cam 1 yn ymwneud, yn bennaf, â:

- Dim cyfathrebu effeithiol wrth ymateb i negeseuon ac adrodd yn ôl i ddefnyddwyr y gwasanaeth a/neu berthnasau/gofalwyr;
- Anfodlonrwydd gyda dirwyn gwasanaethau i ben neu eu cwtogi;
- Anfodlonrwydd gyda gweithredoedd staff Gofal Cartref;
- Anfodlonrwydd gyda defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu rhoi mewn llety a ganfyddir yn amhriodol.

## 4. Trosolwg o'r Cwynion Ffurfiol (Cam 2)

4.1.1 Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd blaenoriaeth i geisio datrys problemau cyn gynted â phosib a chafodd Rheolwyr eu hannog i ymchwilio'n drwyadl ac ymateb i'r achwynydd o fewn deg diwrnod gwaith er mwyn datrys materion yn gynnar ac osgoi trosglwyddo cwyn i Gam 2 y Drefn. Bryd hynny byddai raid i Swyddog Ymchwilio Annibynnol edrych i mewn i'r gŵyn. Cynigiwyd cyfarfodydd i amryfal achwynwyr er mwyn ceisio datrys materion.

4.1.2 Yn ystod y flwyddyn cofrestrwyd cyfanswm o 11 cwyn dan Gam 2, sef cynnydd o gymharu â 6 yn ystod y flwyddyn flaenorol. Er y gwneir pob ymdrech i ddatrys cwynion yng Ngham 1, ceir adegau lle nad oes modd gwneud hyn, yn enwedig felly gyda'r achosion mwyaf cymhleth neu pan fo'r achwynydd wedi mynnu mynd yn ei flaen i Gam 2. At hyn, mae'n bwysig cofio bod gan achwynwyr yr hawl i osgoi Cam 1 a gofyn am ystyriaeth ffurfiol dan Gam 2 pe byddant yn dymuno hynny. Ymdriniwyd eisoes dan Gam 1 â chwech o'r achwynwyr yr ymchwiliwyd iddynt dan Gam 2. Mi aeth y cwynion eraill yn syth i Gam 2, un ai oherwydd bod yr achwynydd wedi gofyn am gael mynd yn syth i Gam 2 neu oherwydd difrifoldeb y gŵyn er, yn y rhan fwyaf o achosion, bu gohebiaeth arall eisoes. Yn aml iawn mae trosglwyddo cwyn i fyny i Gam 2 yn symudiad cadarnhaol i'r achwynydd a'r Cyngor.

4.1.3 Ni chafodd yr un o gwynion Cam 2 yr ymchwiliwyd iddynt yn ystod y flwyddyn eu cwblhau o fewn yr amserlen 25 diwrnod gwaith. Yr amser hiraf a gymerwyd i gwblhau'r broses oedd 77 diwrnod gwaith o pan ddaeth llythyr cwyno Cam 2 i law (neu 56 diwrnod gwaith o pan lofnododd yr achwynydd y rhestr gwynion a gadarnhawyd gyda'r Swyddog Ymchwilio Annibynnol). Y byrraf oedd 35

diwrnod gwaith (neu 28 o pan lofnodwyd y rhestr cwynion). Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod nifer o gwynion Cam 2 a ddaeth i law yn 2013/14 yn gymhleth ac yn ymwneud â nifer o gwynion, gan ei gwneud yn ofynnol cael cyfweliadau gyda nifer o staff. Mewn achosion penodol, bu oedi hefyd oherwydd bod angen ceisio cyngor cyfreithiol cyn rhyddhau adroddiad y Swyddog Ymchwilio Annibynnol i'r achwynydd neu oherwydd nad oedd ymchwilwyr ar gael, yn enwedig felly dros fisoedd yr haf.

## 4.2 Gwasanaethau Plant a'u Teuluoedd

4.2.3 Yn ystod 2013/14, cofrestrwyd chwech o gwynion ym maes Gwasanaethau Plant o dan Cam 2 y Drefn. Trefnwyd ymchwiliadau gan Swyddogion Ymchwilio Annibynnol gyda Pherson Annibynnol yn goruchwylio tegwch a chydraddoldeb yr ymchwiliad, ac eithrio mewn un achos lle'r oedd y gŵyn yn ymwneud â'r Gwasanaeth yn cymryd camau yng nghyswllt oedolyn yn hytrach na phlant.

4.2.4 Dyma'r gwersi a ddysgwyd:

- Gwella ymdrechion i roi gwybod i deuluoedd am fanylion y brosesau ymchwilio
- Eithriadau dan y Ddeddf Gwarchod data am gael eu cydnabod, a'r sawl a ofynnodd yn eu cylch am gael gwybod amdanynt
- Defnyddwyr gwasanaeth i gael gwybod am newidiadau i bynciau agenda cyfarfodydd
- Defnyddwyr y gwasanaeth neu eu gofalwyr/rhieni am gael gwybod am brotocolau os cânt eu heithrio o gymryd rhan mewn cyfarfodydd, ond nid o reidrwydd y rhesymau am y penderfyniad
- Dylid darparu cofnodion cyfarfodydd mewn amser rhesymol
- Dylid cynnal cyswllt rheolaidd os oes pryderon ynghylch lles plentyn
- Rhaid egluro'n glir yn y Drefn yr amgylchiadau pryd y cwblheir asesiad risg
- Rhaid nodi'n yn glir ac yn bendant resymau dros beidio ag anfon copïau o Asesiadau Cychwynnol at rieni a dylid eu cofnodi
- Gydag achosion lle mae gweithwyr cymdeithasol gyda phlant yn y tymor hir dylid creu trefn amser o ran Digwyddiadau Arwyddocaol
- Rhaid i'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl, y Gwasanaeth Plant a CAMHS gydgysylltu a chydweithio'n well
- Rhaid datblygu llwybr Trawsnewid rhwng gwasanaethau
- Rhaid gwella'r cyfathrebu gyda rhieni a'r gefnogaeth a roddir iddynt
- Rhaid cael eglurder ynghylch cyfrifoldeb mewn achosion sy'n ymwneud â gwahanol asiantaethau
- Rhaid i fframwaith a systemau rheoli perfformiad sicrhau bod asesiadau'n cael eu cwblhau ar amser
- Sicrhau bod y broses datgofrestru'n cael ei hegluro'n glir i ofalwyr maeth
- Angen mwy o adnoddau er mwyn ymateb i Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth dan y Ddeddf Gwarchod Data mewn amser
- Trafod trefniadau cyswllt gyda'r rhai y mae'r rhain yn cael effaith arnynt a chytuno ar y trefniadau hyn

- Parhau i neilltuo eiriolwyr i bob plentyn sy'n derbyn gofal ac sy'n caniatáu i dderbyn y cyfryw gefnogaeth
- Cefnogaeth a chwnsela arbenigol i blant yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael sylw asesiad a Chynlluniau Gofal ac iddo gael ei ddarparu

## 4.3 Gwasanaethau Oedolion

4.3.1 Yn ystod 2013/14, daeth pum cwyn i law dan Gam 2 y Drefn. Yn nhabl 4 isod edrychir yn fanylach ar y pum cwyn:

4.3.2 Dyma'r gwersi a ddysgwyd:

- Parhau i wneud pob dim posib i osgoi gormod o oedi ynghylch penderfyniadau am gymorth ariannol
- Parhau i hyrwyddo cydgysylltiad gydag ymatebion gwasanaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a CSYM er mwyn hwyluso gwaith rhyddhau effeithiol ac amserol
- Protocol yng nghyswllt rhannu gwybodaeth allweddol am risgiau yn gysylltiedig gyda defnyddwyr y gwasanaeth gyda staff perthnasol am gael eu hadolygu

## 5. Panel Adolygu Annibynnol – Cam 3

Yn ystod 2013/14, ni wnaed yr un cais i gynnal adolygiadau annibynnol gan Ysgrifenyddiaeth Annibynnol y Cwynion.

## 6. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

6.1 Cyflwynwyd un achos newydd i'r Ombwdsmon yn ystod y flwyddyn iddo gynnal ymchwiliad i achos o gamweinyddu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd y gŵyn hon yn ymwneud â chŵyn yr ymchwiliwyd iddi eisoes dan Gam 2 y Drefn Gwyno (MH001- gweler Tabl 3 uchod). Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ag ymchwilio i'r gŵyn hon oherwydd bod rhai o'r pryderon yn dyddio'n ôl dros flwyddyn a bod yr holl bryderon diweddar wedi cael sylw dan Gam 3 Trefn Gwyno'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac na fyddai dim i'w elwa o gynnal ymchwiliad ychwanegol. At hyn, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod y Cynllun Gweithredu'n dystiolaeth bod yr Awdurdod yn parhau i weithredu ar yr argymhellion gwella a wnaed yng Ngham 2.

6.2 Gwnaed penderfyniad ar un achos a gyflwynwyd i'r Ombwdsmon yn 2012/13. Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ag ymchwilio i'r gŵyn hon, yr ymchwiliwyd eisoes iddi dan Gam 1 y Drefn Gwyno, oherwydd nad oedd yr achwynydd wedi achub ar y cyfle i gyflwyno digon o resymau dros anghytuno gyda dogfennau a phenderfyniadau ac nid oedd wedi rhoi digon o gyfle i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ymateb i'r gŵyn.

**7. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – "Gwneud Pethau'n Well"**

Rhoddwyd ystyriaeth i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru "Gwneud Pethau'n Well" a chafwyd trafodaeth arno trwy AWCOG (Grŵp Swyddogion Cwynion Cymru Gyfan) a NWASH (Penaethiaid Gogledd Cymru o Wasanaethau i Oedolion). Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghorol 'Gwrando a dysgu: Canllawiau ar ddelio â chwynion a sylwadau yng ngwasanaethau cymdeithasol llywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2013. Y prif newidiadau yn y canllawiau, y mae disgwyl gweithredu arnynt o fis Awst 2014 ymlaen, yw gwneud i ffwrdd â Cham 3 y Panelau Adolygu Annibynnol, a rhoi pwyslais ar gynnig i gwrdd ag achwynwyr fel rhan o Gam 1 y broses gwyno. Gweler Atodiad 3 yr adroddiad hwn os gwelwch yn dda am grynodeb o'r weithdrefn newydd.

**Sophie Shanahan,**
**Swyddog Cwynion a Datblygu Gofal Cwsmer Dros Dro**

**Gareth Llwyd,**
**Rheolwr yr Uned Cefnogi Busnes.** **Dyddiad: Mis Mai 2014**

**O.N. Dyma fersiwn fer o'r adroddiad llawn.**

**ATODIAD 2**

**Cynllun Gweithredu 2014/15**

| Maes | Gweithredu | Camau gan Bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| 1. Cryfhau Gweithrediad y Drefn Gwyno a Sylwadau | i) Rhaid i ni sicrhau'n barhaus bod holl staff yr Adran – yn yr holl wasanaethau, yn dilyn y Canllawiau ac yn cofnodi sylwadau cadarnhaol a negyddol a chwynion fel bod modd i'r Swyddog Cwynion allu cadw ystadegau cywir | Penaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr Tîm | Parhaus |
| 2. Ymdrin â chwynion yn effeithiol ac amserol dan Gam 1 Cham 2 y Drefn | i) Cynnal ymchwiliad trylwyr i gwynion yng Ngham 1 y Drefn i sicrhau ymateb cynhwysfawr mewn ymgais i leddfu anfodlonrwydd ac osgoi trosglwyddo ymlaen i Gam 2<br><br>ii) Sicrhau ymatebion amserol i gwynion o fewn yr amser penodol o ddeg diwrnod gwaith dan Gam 1 y Drefn. (Bydd yr amser hwn yn newid i ddeg diwrnod gwaith i gwrdd â'r achwynydd a phymtheg diwrnod gwaith ar gyfer yr ymateb ysgrifenedig pan weithredir ar y canllawiau newydd.) | Penaethiaid Gwasanaeth / Rheolwyr Gwasanaeth<br><br>Penaethiaid Gwasanaeth / Rheolwyr Gwasanaeth | Parhaus<br><br>Parhaus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (iii) Sicrhau ymatebion amserol i gwynion o fewn yr amser penodol o bum diwrnod gwaith ar hugain dan Gam 2 y Drefn. | Swyddog Cwynion Dynodedig | |
| 3. Dysgu gwersi o ymchwiliadau i gwynion | Llunio cynlluniau gwaith mewn ymateb i argymhellion mewn adroddiadau ymchwilio i gwynion | Penaethiaid Gwasanaeth / Rheolwyr Gwasanaeth | O fewn 20 diwrnod o roi i'r achwynydd ymateb ysgrifenedig ffurfiol a chopi o adroddiad yr ymchwiliad |
| 4. Rhoi gwybodaeth am weithrediad y Drefn Gwyno a Sylwadau | i) Sicrhau bod y llyfryn gwybodaeth am y Drefn Gwyno'n cael ei chylchredeg yn eang i bob plentyn mewn angen sy'n cael gwasanaeth gan yr Adran | Arweinyddion Tîm | Parhaus |
| | ii) Dosbarthu taflenni cwyno i bob defnyddiwr / gofalwr sy'n cael asesiad o anghenion a gwasanaethau cefnogi gan yr Adran. | Arweinyddion Tîm | Parhaus |
| | iii) Sicrhau bod Rheolwyr Gwasanaeth a Rheolwyr Tîm yn llwyr ymwybodol o Drefn Gwyno a Sylwadau newydd y Gwasanaethau Cymdeithasol y mae disgwyl ei gweithredu o fis Awst 2014 ymlaen. | Swyddog Cwynion Dynodedig | Mis Gorffennaf 2014 |
| 5. Rhoi hyfforddiant ar weithrediad y Drefn Gwyno a Sylwadau | Rhoi sesiynau hyfforddi blynyddol ar ymdrin â chwynion yn effeithiol a defnyddio sgiliau cyfryngu | Uned Datblygu'r Gweithlu | Mis Hydref 2014 |

**ATODIAD 3**

# Papur Briffio:
# 'Gwneud Pethau'n Well' - Proses Gwynion Newydd y Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cyd-destun

Cafodd y drafft cyn ymgynghori 'Cyfarwyddyd ar drin cwynion a sylwadau gan wasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol' ei ryddhau ar 14 Mai 2014. Dyddiad gweithredu'r cyfarwyddyd a'r rheoliadau newydd yw **1 Awst 2014**.

Mae'r cyfarwyddyd newydd yn disodli 'Gwrando a Dysgu' ac mae'n cefnogi gweithrediad rheoliadau Gweithdrefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014.

Mae'n sicrhau y bydd y broses ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn cyd-fynd gyda'r Polisi a'r Canllawiau Enghreifftiol ar gyfer Cwynion a Phryderon a chyda Gweithdrefn Gwynion GIG Gweithio i Wella.

## Y Prif Newidiadau o 1 Awst 2014:

| Materion | Gwrando a Dysgu (Ebrill 2006) | Gwneud pethau'n well (01/08/14) |
|---|---|---|
| 1. Diffiniad o gŵyn | Dim diffiniad pendant, ond yn dweud y gall cwyn godi oherwydd:-<br>- gwrthod gwasanaeth,<br>- ansawdd, amlder, cost gwasanaeth,<br>- gwrthwynebu penderfyniad, ansawdd gwasanaeth,<br>- oedi mewn gwasanaeth,<br>- darparu/dim darparu gwasanaeth,<br>- ymdrin ag achos,<br>- agwedd ac ymddygiad staff,<br>- y modd y defnyddir meini prawf asesu a chymhwysedd. | Yn cynnwys yr holl gwynion i ALl. Cwyn yw:-<br>- Mynegiant o anfodlonrwydd neu bryder,<br>- Ysgrifenedig, llafar neu yn cael ei gwneud drwy unrhyw ddull cyfathrebu arall,<br>- Yn cael ei gwneud gan un aelod o'r cyhoedd neu fwy,<br>- Am weithrediad darparwr gwasanaeth cyhoeddus neu ddiffyg gweithredu,<br>- Neu am safon gwasanaeth.<br><br>Nid yw cwyn yn:- |

| | | |
|---|---|---|
| | | - Gais cychwynnol am wasanaeth,<br>- Yn apêl yn erbyn penderfyniad priodol,<br>- Yn ceisio cael newid i ddeddf neu bolisi ‘a wnaed yn briodol’,<br>- Yn lobïo i hyrwyddo achos. |
| 2. Cyfyngiad amser ar y gŵyn | Dim cyfyngiad o ran amser | Blwyddyn i wneud cwyn o ddyddiad y digwyddiad. |
| 3. Pwy all wneud cwyn? | Amlinelliad clir o gymhwysedd gwasanaethau plant ac oedolion i gwyno. | - Pobl y mae gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau iddynt,<br>-Person y mae’r ALl wedi methu â darparu gwasanaethau iddo / iddi, cynrychiolydd plentyn sy’n derbyn gwasanaeth. |
| 4. Ymchwiliadau sy’n cyd-redeg | Rhaid ystyried a fyddai’r gŵyn yn rhagfarnu gweithgareddau - cyfreithiol neu ddisgyblaethol. Ymchwiliadau’r Heddlu neu’r Cyngor Gofal, gweithgareddau sifil ac y mae hefyd yn cynnwys cyfarfod rhyngasiantaethol ar faterion Diogelu Plant a Diogelu Oedolion Bregus.<br>Trafodaeth llawer mwy clir ar y broses diogelu plant ac oedolion yn y cyfarwyddyd hwn. Hefyd trafodaeth ar gwynion sawl ALl, cwynion iechyd/Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, addysg a chwynion yn cael eu rheoleiddio gan AGGCC. | Rhaid ystyried a fyddai’r gŵyn yn rhagfarnu gweithgareddau - cyfreithiol neu ddisgyblaethol, ymchwiliadau’r Heddlu neu Cyngor Gofal a gweithgareddau sifil. Nid yw’n dweud yn hollol glir bod angen rhoi ystyriaeth i faterion Diogelu Plant neu Ddiogelu Oedolion Bregus. |
| 5. Egwyddorion allweddol | 15 o egwyddorion allweddol yn cael eu sefydlu | Mae rhai yn debyg i egwyddorion allweddol Gwrando a Dysgu.<br>Maent yn canolbwyntio ar:-<br>Gwasanaeth sy’n canolbwyntio |

| | | |
|---|---|---|
| | | ar y dinesydd, canolbwyntio ar gwynion a dim ar y broses, mynediad rhwydd, trin gydag urddas a pharch, staff sy'n delio gyda chwynion wedi'u hyfforddi'n dda, darparu taflen gwynion yn y cyswllt cyntaf, canolbwyntio llawer mwy ar yr iaith Gymraeg ac egwyddor trosfwaol 'Mwy na Geiriau' i ddiogelu a hyrwyddo lles yr achwynydd. Cyfarwyddyd ar sut i greu a chael mynediad a phroses syml, deg a diduedd, amserol, effeithiol a chyson, ymatebol ac yn darparu gwelliant parhaol.<br>Mae Adran 39 yn benodol yn amlinellu rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fel:-<br>- un sy'n cymryd perchnogaeth o'r broses gwynion,<br>- yn rheolaidd yn adolygu ac yn sgriwtineiddio ei effeithlonrwydd,<br>- yn derbyn adroddiad monitro cwynion yn rheolaidd,<br>- gwersi a ddysgwyd o gwynion,<br>- adroddiadau rheolaidd i'r Cabinet,<br>- adroddiad cwynion blynyddol. |
| 6. Swyddogaethau | Angen uwch swyddog gyda chyfrifoldeb cyffredinol. Yn amlinellu cyfrifoldebau allweddol. Yn rhoi amlinelliad o swyddogaeth y Swyddog Cwynion. | Yn dweud bod angen uwch swyddog gyda chyfrifoldeb cyffredinol. Newidiadau bychan iawn i Gwrando a Dysgu.<br>Rôl y Swyddog Cwynion yr un fath ag yn Gwrando a Dysgu.<br>Yn amlinellu swyddogaeth Swyddog Ymchwilio Anibynnol a Pherson Annibynnol – mae hyn yn newydd ac yn llawer mwy llym oherwydd bod yn rhaid i'r swyddogaeth fod yn un annibynnol. Dyma fu'r ymarfer |

| | | |
|---|---|---|
| | | yn hanesyddol yng Ngwynedd ac Ynys Mon. |
| 7. Cyfnod Datrysiad Lleol | Yn trafod datrysiad lleol yn hytrach na datrysiad 'anffurfiol'. Yn cynnig cyfarwyddyd ar agweddau tuag at gam 1 e.e. gweithredu, ymddiheuriad, cyfryngu ac ati.<br>Amserlen: 10 niwrnod gwaith, gyda phosibilrwydd o ymestyn 10 diwrnod gwaith arall gyda chytundeb yr achwynydd. | Y prif newid yw bod yn rhaid i'r gwasanaeth gynnig trafod cwyn gyda'r achwynydd.<br>Os caiff y gŵyn ei datrys, rhaid wedyn ysgrifennu at yr achwynydd gyda thelerau'r datrysiad o fewn 5 diwrnod gwaith.<br>Sicrhau cyngor a hyfforddiant i staff.<br>Amserlen – Rhaid cydnabod derbyn o fewn 2 ddiwrnod gwaith.<br>10 niwrnod gwaith, estyniad ond mewn amgylchiadau 'eithriadol' ac mewn cytundeb gyda'r achwynydd. |
| 8. Cam 2 | Ymchwiliad Annibynnol.<br>Gall yr ymchwilydd fod yn fewnol cyn belled ag nad yw'n rhan o reoli llinell y gwasanaeth dan sylw. Amserlen - 25 diwrnod o'r amser y gwnaeth yr achwynydd nodi ei fod ef/hi eisiau gwneud cwyn. | Yn debyg ond yn gofyn i'r Ymchwilydd fod yn allanol.<br>Syniad o drefniant dwyochrog gyda Chynghorau eraill.<br>Amserlen – yn debyg ond gellir cytuno ar y dyddiad cychwyn – mae rhywbeth tebyg i'r arferion cyffredin ar hyn o bryd ar yr amserlen bresennol yn amhosibl.<br>Rhaid i bob achos o oedi oherwydd amgylchiadau eithriadol gael eu cytuno gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Rhaid gwneud cofnod o benderfyniad y Cyfarwyddwr a'i gadw. |
| 9. Cam 3 | Panel Annibynnol Cam 3 | Dim panel. Ombwdsmon. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I :** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **DYDDIAD:** | **27 Tachwedd 2014** |
| **PWNC :** | **Diweddariad Blynyddol – Trefniadau Diogelu ar gyfer Oedolion Bregus ym Môn** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **Cynghorydd Kenneth P. Hughes** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Alwyn Jones / Iola Richards**<br>**01248 752707 / 01248 752744**<br>**arjss@ynysmon.gov.uk / irss@ynysmon.gov.uk** |

## 1.0 <u>ARGYMHELLION</u>

A1 Nodi'r diweddariad ynghylch diogelu yn yr adroddiad sydd ynghlwm, Ynys Môn - Diogelu Oedolion Bregus, Adroddiad Amlygu 2013/14 – Atodiad 1.

A2 Nodi a chytuno'r datblygiadau a amlinellir yn rhan 5 yr Adroddiad Amlygu sef:-

- Bod y Gwasanaeth Oedolion a phartneriaid allweddol yn cydnabod yr angen i gytuno a gweithredu cynllun i baratoi ar gyfer y canllawiau diogelu newydd fel yr amlinellir hwy yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) a Llesiant.

- Gwerthuso profiadau dioddefwyr honedig, teuluoedd a thramgwyddwyr honedig o ymgysylltu gyda'r broses, gan gyfeirio'n benodol at ansawdd, dwyster ac effeithiolrwydd y cyfathrebu trwy gydol y cyfnodau ymchwiliol.

- Archwiliadau cryfach o ffeiliau achos i sicrhau cydymffurfiaeth gyda chanllawiau cenedlaethol gyda golwg ar sefydlu dull gweithredu cyson ar draws y gwasanaethau, ac i fod mewn sefyllfa dda i raeadru dysgu a phrofiadau gwella gyda phartneriaid allweddol.

- I gydnabod y rôl Ddiogelu uwch, bydd cynllun hyfforddiant lleol yn cael ei ddatblygu, ei weithredu a'i werthuso gan y cydlynydd POVA.

- Cydnabod bod rôl Eiriolaeth yn rhan annatod o'r broses a bod angen cryfhau'r ddarpariaeth fel ei bod ar gael ar draws pob maes gwasanaeth.

- I gydnabod y gall materion Diogelu godi trwy faterion ansawdd o fewn y ddarpariaeth gofal un ai yng nghartref yr unigolyn ei hun neu o fewn sefydliad preswyl, argymhellir y dylid sefydlu swyddogaeth fusnes briodol o fewn y Gwasanaethau Oedolion er mwyn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer monitro contractau a'r gofal a ddarperir yn gadarn.

A3 Nodi'r diweddariad ynghylch y trefniadau Rhanbarthol a Lleol ar gyfer y Bwrdd Diogelu Oedolion– Atodiad 2.

A4 Nodi a chytuno'r argymhellion a amlinellir yn rhan 3 yr adroddiad hwn, sef:-

- Bod Aelodau'n cytuno bod y ddyletswydd statudol i sefydlu Bwrdd Diogelu Oedolion yn cael ei chyflawni ar ran yr Awdurdod gan Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru.

- Bod yr Aelodau'n cytuno'r strwythur ar gyfer y Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol, a elwir yn Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru, fel y dangosir yn Rhan 4.8 y ddogfen berthnasol. Cefnogir y Bwrdd hwn gan grwpiau rhanbarthol swyddogaethol a'r Grwpiau Cyflawni isranbarthol.

- Bod Aelodau'n cytuno y bydd y strwythur newydd yn cael ei sefydlu cyn gynted ag y bo modd.

- Bod mater cyllido'r Bwrdd Diogelu Oedolion yn cael ei gynnwys yn y trafodaethau ar gyllideb 2015/16.

A5 Parhau i gefnogi ymwneud yr Aelodau â'r Rhaglen Ddiogelu gyffredinol.

## 2.0 <u>RHESYMAU</u>

2.1 Mae diogelu oedolion bregus yn bwysig i ni. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ni gael cydbwysedd rhwng:

- Annog Annibyniaeth

  a

- Diogelu Oedolion sy'n dueddol o gael eu cam-drin

2.2 Mae diogelu yn rhan greiddiol o ddyletswydd y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion. Mae'n hollbwysig felly bod gennym strwythurau a systemau effeithiol ar gyfer cyflawni'r nod hwn. Rydym yn ymrwymedig felly i sicrhau bod strwythurau a systemau yn gynaliadwy a'u bod yn rhoi Diogelu wrth wraidd ein gwaith partneriaeth ar draws y sector cyhoeddus a'r sector gofal yn gyffredinol.

Nid mater i asiantaethau statudol yn unig mo diogelu, fe ddylai fod yn fusnes pob un ohonom. Mae gan Ddarparwyr Gwasanaethau, cyrff statudol, yr heddlu a phob dinesydd rôl i'w chwarae yn hyn o beth mewn gwirionedd.

**Awdur:** Alwyn Jones
**Teitl Swydd:** Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Ynys Môn
**Dyddiad:** 27.10.2014

| ATODIAD 1- Ynys Môn- Diogelu Oedolion Bregus, Adroddiad Amlygu 2013/14 |
|---|

| ATODIAD 2- TREFNIADAU LLEOL A RHANBARTHOL BWRDD DIOGELU OEDOLION |
|---|

**ATODIAD 1**

**YNYS MÔN**
**DIOGELU OEDOLION BREGUS**

**ADRODDIAD AMLYGU 2013/14**

## 1. Rhagarweiniad– Materion allweddol

1.1 Nod Gweithdrefnau a Pholisi Cymru gyfan ar gyfer Diogelu Oedolion Bregus rhag camdriniaeth yw llywio'r gwaith diogelu a wneir gan bawb sy'n ymwneud â lles oedolion bregus yn y sector statudol, y trydydd sector, y sector annibynnol, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yr heddlu a gwasanaethau eraill.

1.2 Mae gweithio rhyngasiantaethol da yn sicrhau bod yr holl gyfeiriadau'n cael eu rheoli'n effeithiol ac yn effeithlon gan wella perfformiad yn barhaus a diogelu'r dinasyddion mwyaf bregus yn Ynys Môn

1.3 Cydnabyddir bod defnyddio Tîm Datblygu Arferion BIPBC i gefnogi cartrefi gofal ar yr ynys yn ymyrraeth effeithiol o ran gwella arferion gofal, hyrwyddo gofal o ansawdd a lleihau nifer y cyfeiriadau diogelu. Mewn achosion o'r fath mae staff nyrsio proffesiynol o BIPBC yn cynorthwyo cartrefi gofal ar ffurf hyfforddiant a chyngor i sicrhau gwelliannau mewn safonau dogfennaeth ac arferion i gefnogi darparu gofal nyrsio da. Mae angen gwerthuso effaith lawn eu rôl gefnogol o safbwynt yr ymarferwyr a'r darparwyr gofal ar gyfer buddsoddiad parhaus.

1.4 Rydym wedi parhau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r rhaglen ddiogelu ar lefel Gorfforaethol ac wedi gweithio mewn partneriaeth gydag adrannau eraill yn y Cyngor i hyrwyddo cyfrifoldeb corfforaethol tuag at ddiogelu. Yn ddiweddar lansiodd yr Adain Safonau Masnach ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gynlluniau ariannol twyllodrus. Mae sawl achos wedi dod i'n sylw o bobl hŷn yn cael eu cam-drin yn ariannol gan fasnachwyr a thwyllwyr drygionus.

1.5 Y themâu allweddol sy'n codi o'r cyfeiriadau yw materion o gwmpas codi a chario, gofal Dementia, rheoli meddyginiaeth, gwybodaeth wael ymysg darparwyr gofal am y llwybrau ar gyfer cyfeiriadau amserol i wasanaethau arbenigol, a chamdriniaeth ariannol.

1.6 Mae Cydlynydd POVA newydd gychwyn yn y swydd fel cam dros dro hyd nes y bydd yr Awdurdod Lleol wedi cwblhau cynlluniau ar gyfer datblygu Uned Ddiogelu Gorfforaethol ar draws y Gwasanaethau Oedolion a Phlant.

## 2. Hyfforddiant

2.1 Mae Fframweithiau Diogelu Oedolion a Phlant wedi eu hymgorffori'n ffurfiol yn y broses Gynefino Gorfforaethol ar gyfer pob gweithiwr newydd.

2.2 O gofio bod rôl AGGCC yn newid, mae'r Gwasanaethau Oedolion wedi cydnabod bod hyfforddiant arbenigol ar gyfer ymchwiliadau ar sail amlasiantaethol yn allweddol ar gyfer gwella hyder ac arferion ymarferwyr rheng-flaen wrth i'w swyddogaethau barhau i esblygu.


2.3 Mae rhaglen hyfforddi barhaus yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol, gan sicrhau bod staff sy'n darparu gofal ar draws y sectorau gofal yn ymwybodol o'r Polisi a'r Gweithdrefnau Cymru Gyfan ar gyfer Diogelu Oedolion Bregus.

3. **Crynodeb o weithgareddau POVA yn 2013/14**


- Proseswyd 108 o gyfeiriadau allan o 147 trwy'r broses POVA ffurfiol. Ystyriwyd felly bod 23% ohonynt yn amhriodol.
- Mae'r data yn awgrymu mai'r dioddefwyr nodweddiadol yw merched hŷn sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain, sy'n dioddef camdriniaeth emosiynol, seicolegol a chorfforol gan ddynion.
- Y ganran uchaf o gyfeiriadau POVA yw'r rheini ar gyfer Pobl Hŷn, gyda nifer y cyfeiriadau ar gyfer pobl gydag Anabledd Dysgu bron mor uchel.
- Cynhaliwyd 15 o ymchwiliadau gan yr heddlu yn ystod 2013/14.
- Mae'r perfformiad yn erbyn dangosyddion Cenedlaethol yn 2013/14 wedi bod yn is na'r disgwyl oherwydd bod 10 o unigolion wedi gwneud dewisiadau gwybodus ynghylch aros mewn sefyllfa o berygl.

**Nifer y cyfeiriadau a dderbyniwyd**

Mae nifer y cyfeiriadau ar gyfer diogelu oedolion wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn a aeth heibio (147 yn 2013/14 o gymharu â 134 yn 2012/13). Mae'r graff isod yn dangos patrwm y cyfeiriadau dros y 2 flynedd ddiwethaf.



## Ffynhonnell y cyfeiriadau





Cofnodwyd y nifer uchaf o gyfeiriadau gan ysbytai (18) a chafwyd 13 gan berthnasau a 10 gan ddarparwyr gofal.

Mae'r data yn awgrymu bod mwy o ymwybyddiaeth o'r sbardunau ar gyfer cyfeiriadau POVA a bod gwell dealltwriaeth o'r llwybr cyfeirio yn sgil hyfforddiant effeithiol a chyfundrefnol ar draws y sectorau.


Roedd dadansoddiad o'r data yn cadarnhau bod y gyfran uchaf o'r cyfeiriadau a ddaw o'r ysbytai yn rhai ar gyfer unigolion sy'n derbyn gofal fel cleifion preswyl.

## Yr amgylchedd lle digwyddodd y gamdriniaeth





Mae'r ganran uchaf o gamdriniaeth yn digwydd yng nghartref yr unigolyn ei hun gyda'r ganran o gamdriniaeth sy'n digwydd mewn sefydliadau preswyl / nyrsio bron yr un mor uchel. Mae hyn yn adlewyrchu patrymau'r flwyddyn flaenorol.

## Mathau o Gamdriniaeth Honedig





## Categori Breguster




Mae data ar gyfer Pobl Hŷn wedi ei gynnwys yn y categori Anabledd Corfforol

## Dangosyddion Perfformio

Mae ein perfformiad mewn perthynas â rheoli risg mewn cyfeiriadau diogelu oedolion yn ystod 2013/14 yn adlewyrchu tuedd at i lawr, gyda 10 dioddefwr honedig allan o 90 yn gwrthod y camau a argymhellwyd gan y Tîm Amlddisgyblaethol ac felly yn cael eu categoreiddio fel 'risg nad yw'n cael ei rheoli'. Mae ein data perfformiad dros y 3 blynedd diwethaf wedi ei adlewyrchu yn y siart a ganlyn.




Mae'n bwysig nodi bod y cwymp ym mherfformiad 2013/14 yn hyn o beth yn adlewyrchu penderfyniadau unigolion i aros mewn sefyllfaoedd o risg. Mae'r cyngor yn parhau i weithio gyda'r holl unigolion i sicrhau bod ganddynt opsiynau i ostwng risgiau ym mhob achos.

## 4. Cynadleddau Achos

4.1 Mae nifer y cyfeiriadau sy'n mynd i gynadleddau achos yn parhau i fod yn gymesurol isel, sef 10 bob blwyddyn. Mae hyn yn arwydd bod risgiau yn cael sylw a'u rheoli yn ystod cyfnodau cychwynnol yr ymyrraeth amlasiantaethol.

4.2 Mae cynadleddau achos amlasiantaethol yn rhoi cyfleon i deuluoedd ymgysylltu ac i gytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer diogelu. Fodd bynnag ac fel mae data perfformiad yn cadarnhau yn unol â chyfarwyddiadau unigol yn seiliedig ar eu galluedd meddyliol, mae'n parhau i fod yn anodd gostwng y risgiau i bob dioddefwr honedig.

4.3 Mae'n werth nodi bod angen cynyddu ymgysylltiad dioddefwyr, perthnasau ac eiriolwyr mewn cynadleddau achos ac rydym wedi cymryd camau i sicrhau bod partïon arwyddocaol eraill yn chwarae cymaint o ran â phosib yn y cyfnodau allweddol yn ystod y broses ymchwiliol.

## 5 Meysydd ar gyfer eu datblygu

5.1 Mae'r Gwasanaeth Oedolion a phartneriaid allweddol yn cydnabod yr angen i gytuno a gweithredu cynllun i baratoi ar gyfer y canllawiau diogelu newydd fel yr amlinellir hwy yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) a Llesiant. Mae Bwrdd Diogelu Gwynedd a Môn yn amlinellu'r gyrwyr a'r gweithdrefnau ar gyfer newid arferion a roddir ar waith gan reolwyr gwasanaeth allweddol ar draws y sectorau. Cydnabyddir hyn ym mhrif rôl y Cydlynydd Oedolion Bregus mewn partneriaeth gyda chydranddeiliaid allweddol.

5.2 Cam allweddol fydd gwerthuso profiadau dioddefwyr honedig, teuluoedd a thramgwyddwyr honedig o ymgysylltu gyda'r broses, gan gyfeirio'n benodol at ansawdd, dwyster ac effeithiolrwydd y cyfathrebu trwy gydol y cyfnodau ymchwiliol.

5.3 Rydym yn bwriadu cryfhau ein harchwiliadau o ffeiliau achos i sicrhau cydymffurfiaeth gyda chanllawiau cenedlaethol gyda golwg ar sefydlu dull gweithredu cyson ar draws y gwasanaethau ac i fod mewn sefyllfa dda i raeadru dysgu a phrofiadau gwella gyda phartneriaid allweddol.

5.4 I gydnabod y rôl Ddiogelu uwch, bydd cynllun hyfforddiant lleol yn cael ei ddatblygu, ei weithredu a'i werthuso gan y cydlynydd POVA.

5.5 Rydym yn cydnabod bod rôl eiriolaeth yn rhan annatod o'r broses a bod angen cryfhau'r ddarpariaeth fel ei bod ar gael ar draws pob maes gwasanaeth.

5.6 Rydym yn cydnabod y gall materion Diogelu godi trwy faterion ansawdd o fewn y ddarpariaeth gofal un ai yng nghartref yr unigolyn ei hun neu o fewn sefydliad preswyl. Argymhellir y dylid sefydlu swyddogaeth fusnes briodol o fewn y Gwasanaethau Oedolion er mwyn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer monitro contractau a'r gofal a ddarperir yn gadarn.

Hydref 14

**ATODIAD 2**

**TREFNIADAU RHANBARTHOL A LLEOL Y BWRDD DIOGELU OEDOLION**

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn gofyn i Gyngor Sir Ynys Môn gytuno bod yr angen statudol i sefydlu Bwrdd Diogelu Oedolion yn cael ei gyflawni ar ran yr awdurdod gan Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru.

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Mae Adran 134 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn dweud bod yn rhaid i Fyrddau Diogelu Plant (BDP) a Byrddau Diogelu Oedolion (BDA) gael eu sefydlu. Bydd hyn yn sicrhau bod diogelu oedolion ar sylfaen debyg i'r hyn a welir gyda diogelu plant.

2.2 Bydd rheoliadau'n dilyn y Ddeddf a byddant yn nodi ardaloedd yng Nghymru lle mae'n rhaid cael Byrddau Diogelu ("Ardaloedd Byrddau Diogelu"). Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn gyson y bydd yr Ardaloedd Byrddau Diogelu yn dilyn troedbrint y gwasanaethau cyhoeddus a osodwyd gan y Byrddau Iechyd ac Awdurdodau'r Heddlu: y chwe Sir sy'n ffurfio Gogledd Cymru.

2.3 Mae gwaith wedi cael ei wneud i ddatblygu trefniadau rhanbarthol ar gyfer y Byrddau Plant ac Oedolion cyn dyfodiad y ddeddfwriaeth, a chafodd adroddiad ar strwythur arfaethedig ar gyfer y Byrddau Diogelu Oedolion ei gylchredeg i asiantaethau partner perthnasol yn 2013. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnig trefniant dwy haen, sef trefniant tebyg i'r hyd a oedd yn bodoli gyda'r Byrddau Plant ar y pryd.

2.4 Mae Byrddau Diogelu Plant wedi bod yn statudol ers 2006, ac y mae byrddau isranbarthol ar y cyd wedi bod yn eu lle ers cryn amser. Mae hyn wedi golygu bod y Byrddau Plant wedi gallu symud tuag at ranbartholi yn gyflymach na'r byrddau oedolion; fodd bynnag, mae hyn yn golygu yn awr y gall y byrddau oedolion ddysgu o brofiadau'r byrddau plant.

2.5 I gydnabod maint ac amrywiaeth ardal Gogledd Cymru, fe ddatblygodd y byrddau plant fodel a oedd yn cadw swyddogaethau statudol y Byrddau Diogelu Plant Lleol (BDPLl) isranbarthol presennol ar y lefel isranbarthol. Hefyd, sefydlwyd bwrdd rhanbarthol er mwyn lleihau dyblygu, rhannu arferion gorau a darparu cyfeiriad strategol; gyda'r olaf yn cynnwys cyfarwyddo 4 is-grŵp rhanbarthol i gyflawni rhai o swyddogaethau'r byrddau. Galwyd hwn yn fodel 'dwy haen'. Roedd y model hwnnw yn wahanol i'r hyn a fabwysiadwyd ar draws y rhan fwyaf o Gymru lle sefydlwyd trefniadau rhanbarthol llawn. Mae'r model dwy haen a'r model rhanbarthol llawn wedi cael eu gwerthuso gan Brifysgol Sheffield ac y mae adroddiad manwl ar gael ar gais..

2.6 Mewn ymateb i'r gwersi a ddysgwyd o weithrediad y system dwy haen mae'r byrddau plant yn awr yn bwriadu symud i ffwrdd oddi wrth y model hwn tuag at fwrdd rhanbarthol cryfach. Yn y model newydd hwn, bydd swyddogaethau statudol yn fater i'r Bwrdd Rhanbarthol, a bydd y grwpiau cyflawni isranbarthol yn sicrhau bod arferion lleol yn bodloni angen lleol. Mae adroddiad sy'n cynnig hyn wedi cael ei roi gerbron yr asiantaethau partner perthnasol, a'r bwriad yn awr yw mabwysiadu'r model newydd hwn ar gyfer y byrddau oedolion.

2.7 Ar hyn o bryd felly, bydd y Bwrdd Diogelu Oedolion amlasiantaethol presennol sy'n cael ei gynnal ar y cyd rhwng Ynys Môn a Gwynedd yn cael ei ddisodli gan Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru. Yn ei le, ochr yn ochr â'r Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru fe fydd Grŵp Cyflawni isranbarthol ar gyfer Diogelu Oedolion ar y cyd yn Ynys Môn a Gwynedd, strwythur fydd yn cael ei efelychu yn Sir Ddinbych a Chonwy a Sir y Fflint a Wrecsam.

2.8 Mae'r Cynllun ar gyfer sefydlu'r Bwrdd Diogelu Oedolion yn cael ei weithredu ar hyn o bryd, ac mae cyfarfodydd cychwynnol wedi eu cynnal.

**3. ARGYMHELLIAD(ION) / OPSIYNAU**

3.1 Bod Aelodau'n cytuno bod yr angen statudol i sefydlu Bwrdd Diogelu Oedolion yn cael ei gyflawni ar ran yr Awdurdod gan Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd (Cymru).

3.2 Bod yr Aelodau'n cytuno y bydd y strwythur ar gyfer y Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol a elwir Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru (BDOGG) fel a ddangosir yn Adran 4.2 yr adroddiad sydd ynghlwm yn Atodiad 1. Bydd y BDOGG yn cael ei gefnogi gan Grwpiau sy'n seiliedig ar swyddogaethau a Grwpiau Cyflawni isranbarthol.

3.3 Bod Aelodau'n cytuno i'r strwythur newydd gael ei sefydlu mor fuan ag sy'n bosibl.

3.4 Bod cyllid ar gyfer y Bwrdd Diogelu Oedolion yn cael ei gynnwys o fewn y trafodaethau cyllidebol presennol am 2015/16.

**4. GWYBODAETH GEFNDIROL**

4.1 Mae gan Ynys Môn a Gwynedd Fwrdd Diogelu Oedolion ar y cyd. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam Bwyllgor Diogelu Oedolion eu hunain sy'n gweithredu o fewn ffiniau'r Awdurdod Lleol.

4.2 Yn ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, amcanion y Byrddau Diogelu Oedolion yw :-

a) Diogelu oedolion o fewn ei ardal sydd ag anghenion i ran gofal a chefnogaeth (p'un a yw awdurdod lleol yn bodloni unrhyw un o'r anghenion ai peidio); ac
b) Sy'n dioddef, neu sydd mewn peryglo o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso
c) Atal yr oedolion hynny o fewn ei ardal y soniwyd amdanynt ym mharagraff (a) (i) rhag bod perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

4.3 Bydd rheoliadau yn dilyn y ddeddf, a byddant yn nodi'r ardaloedd yng Nghymru lle y sefydlir Byrddau Diogelu ("ardaloedd Bwrdd Diogelu"). Mae datganiadau a ryddhawyd gan y Dirprwy Weinidog dros Blant a Gwasanaethau Cymdeithasol o 2011 ymlaen wedi nodi y byddai'n well petai ardaloedd y bwrdd diogelu yn dilyn troedbrint y gwasanaeth cyhoeddus a sefydlwyd gan y Byrddau Iechyd a'r Awdurdodau Heddlu.

4.4 Cynhaliwyd seminar Diogelu Oedolion Rhanbarthol ym mis Ionawr 2013. Yn dilyn y seminar, datblygwyd papur opsiynau a nodwyd opsiwn oedd yn cael ei ffafrio. Roedd yr opsiwn a ffefrir yn dilyn y strwythur sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer Byrddau Diogelu Plant, ac roedd yn cynnig strwythur dwy haen gyda Bwrdd Rhanbarthol a thri bwrdd isranbarthol. Roedd y byrddau isranbarthol i'w sefydlu gan y 6 awdurdod lleol yn ffurfio byrddau ar y cyd. Roedd y strwythur hwn eisoes yn bodoli yn Ynys Môn a Gwynedd.

4.5 Roedd y papur hefyd yn cynnig y dylai elfennau fel hyfforddiant, perfformiad ac archwilio, polisi, ac adolygiadau achosion difrifol gael eu cyflawni'n rhanbarthol, unwaith yn rhagor fel yr oedd yn cael ei ddatblygu ar gyfer y Byrddau Diogelu Plant. Wedyn cylchredwyd adroddiad 'Sgript Cyffredin' i bartneriaid i bwrpasau adrodd yn ôl. Cafodd y papur opsiynau a'r adroddiad sgript cyffredin eu trafod ymhellach yn y cyfarfod o'r Bwrdd Rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd ar 2 Mai 2013.

4.6 Bydd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru yn :-


- Ychwanegu gwerth ac yn gwella canlyniadau i oedolion bregus sydd angen eu diogelu a'u hamddiffyn.
- Yn datblygu ac yn darparu cyfeiriad strategol rhanbarthol.
- Yn cyfarwyddo ac yn monitro grwpiau rhanbarthol ar gyfer Hyfforddi a Datblygu Gweithlu, Polisïau a Gweithdrefnau, Cyfathrebu ac Ymgynghori ac Adolygiadau o Arferion yn y maes Oedolion.
- Yn datblygu ac yn monitro fframwaith rheoli perfformiad.
- Yn darparu her a chefnogaeth i asiantaethau rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol.
- Yn cytuno ar y gyllideb ac yn ei rheoli.
- Yn darparu'r rhyngwyneb gyda Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diogelu Cenedlaethol.

4.6.2 Bydd y Grŵp Darparu Diogelu Oedolion isranbarthol yn :-

- Gweithredu strategaeth ranbarthol a'r cynllun busnes
- Yn cydlynu ac yn monitro gweithgaredd amlasiantaethol isranbarthol
- Yn edrych ar ddata perfformiad lleol, e.e. Canlyniadau, atgyfeiriadau, POVAs, uchafu pryderon, diogelu oedolion a gorchmynion cefnogaeth.
- Yn bresennol mewn cyfarfodydd strategol
- Yn monitro hyfforddiant a'i effaith.
- Yn cynnal archwiliadau a darparu sicrwydd ansawdd
- Yn ystyried achosion o ddiddordeb arbennig / achosion a gawsant eu blocio / achosion 'ond y dim'.
- Yn darparu dehongliad lleol o brotocolau rhanbarthol
- Yn arwain ar faterion ar gais y bwrdd rhanbarthol.

4.7 Aethpwyd â'r cynigion hyn ers hynny i'r Pwyllgorau Diogelu Oedolion presennol ac i Fwrdd Diogelu Oedolion ar y cyd Ynys Môn a Gwynedd.

4.8 Diagram 1 – Strwythur arfaethedig ar gyfer Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru




## 5.0 YMGYNGHORI

**5.1** Rhoddodd y Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol ystyriaeth i, a chytuno ar adroddiad yn amlinellu'r newidiadau i drefniadau'r Bwrdd Plant, oedd yn nodi y byddai'r Bwrdd Oedolion yn cael ei ddatblygu yn seiliedig ar yr un model. Mae'r holl bartneriaid perthnasol hefyd wedi derbyn yr adroddiad hwn ers hynny. Ymgynghorwyd â Bwrdd Diogelu Oedolion Ynys Môn a Gwynedd ar y cyd a'r Pwyllgorau Diogelu Oedolion Lleol ar draws y pedair Ardal Awdurdod Lleol arall oedd ar ôl ynglŷn â'r awgrymiadau i newid. Mae eu sylwadau wedi cyfrannu at y cynigion terfynol.

## 6. GOBLYGIADAU ADNODDAU

6.1 Mae'r Bwrdd Diogelu Oedolion yn Fwrdd statudol a bydd angen iddo gael ei gyllido gan gyfraniadau gan ei bartneriaid. Mae'r adroddiad hwn yn gofyn i'r cyllid ar gyfer y Bwrdd gael ei gynnwys yn y trafodaethau cyllidebol ar gyfer 2015/16.

## 7. RISG

7.1 Y risg fwyaf i'r Bwrdd Diogelu ac i'r Awdurdod Lleol yw'r perygl o ddigwyddiad difrifol fydd yn dod i'r casgliad fod y Bwrdd Diogelu neu un neu fwy o'i asiantaethau partner wedi methu yn eu dyletswydd o ddiogelu. O fewn gofal cymdeithasol nid oes y fath beth a dim risg, ond bydd y strwythur newydd yn ceisio sicrhau bod yr asiantaethau partner yn cymryd yr holl gamau rhesymol i ddiogelu oedolion sydd mewn peryglo o gamdriniaeth ac esgeulustod.

7.2 Mae yna risg na ellir cael cytundeb ynglŷn â chyllid o fewn yr amserlenni a nodwyd oherwydd yr anawsterau o negodi cyllidebau ar draws y 6 Awdurdod Lleol a'r partneriaid statudol eraill: Heddlu, Iechyd, Gwasanaeth Prawf, a'r Cwmnïau Ailsefydlu Cymunedol.

## 8. GYRWYR A GOBLYGIADAU

8.1 Cysylltiadau i'r Cynllun Corfforaethol a'r Gofrestr Risg

Mae Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion yn Fyrddau statudol sy'n cyfrannu tuag at gyflawni cyfrifoldebau'r Cyngor dros blant ac oedolion bregus.

8.2 Unrhyw oblygiadau cydraddoldebau, cynaliadwyaeth bioamrywiaeth.

Nod diogelu plant ac oedolion bregus yw sicrhau na fydd plant ac oedolion bregus o unrhyw gefndir yn dioddef esgeulustod neu gamdriniaeth.

8.3 Effaith ar bolisïau a gweithdrefnau cyfredol.

Fe all rhanbartholi olygu mwy o deithio i rai o Aelodau'r Bwrdd Diogelu, ond bydd defnydd llawn yn cael ei wneud o gyfathrebu electronig lle bo hynny'n bosibl. Bydd y gostyngiad net yn nifer y cyfarfodydd ar draws Gogledd Cymru yn golygu y bydd llai o deithio mewn ceir a throedbrint carbon is.

8.4 Bydd newidiadau i strwythur y Byrddau Diogelu yn cael effaith ar y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n bodoli ar hyn o bryd.

## 9. CYHOEDDI

9.1 d / b

## 10. RHESWM(AU) AM YR ARGYMHELLIAD(ION)

10.1 I leihau dyblygu a gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Byrddau Diogelu ar draws Gogledd Cymru. Bydd cynigion hefyd yn bodloni anghenion Llywodraeth Cymru i sefydlu Bwrdd Diogelu.

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

Cadeirydd: Y Cynghorydd Derlwyn Hughes
Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd Alun Mummery

Y tabl isod yw Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio o fis Mai 2014 i fis Mai 2015. Adroddir ar y Rhaglen Waith i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu ohirio/tynnu eitemau yn ôl.

Cyswllt: Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: gwrce@ynysmon.gov.uk

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad/Amser cychwyn |
|---|---|---|---|

**Eitemau Sefydlog ar phob Rhaglen Pwyllgor:**

- **Ymddiheuriad**
- **Cofnodion**
- **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd.**
- **Rhaglen Gwaith**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **13 Mai 2014** | Enwebiadau Pwyllgor i'r Panel Rhiant Corfforaethol | Enwebu aelod o'r Pwyllgor at y Panel sy'n gweithredu ar ran y Cyngor, sy'n sicrhau gwasanaethau i blant a pobl ifanc mewn gofal o safon uchel. | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yp |
| | Cynllun Integredig Sengl | Ymgynghoriad | |
| | Clirio ffeiliau o hen Ysgol y Graig | Sgriwtini | |
| | | | |
| **11 Gorffennaf 2014** | Cyfarwyddwyddyd Cynllunio Atodol – Adeilad Niwcliar Newydd | Sgriwtini o flean penderfyniad | Siambr y Cyngor/10.30 yb |
| | | | |
| **24 Gorffennaf 2014** | Heddlu Gogledd Cymru | Cyflwyniad gan Heddlu Gopgledd Cymru are eu canolfan Cyfathrebu. | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yp |
| | Trefniadau Rhanbarthol a Lleol i Ddiogelu Plant ac Oedolion | Sgriwtini o flean penderfyniad | |
| | Comisiynu Gwasanaeth Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc yn Rhanbarthol | Diweddariad | |
| | Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Ynys Fenter | Mae tri bwrdd wedi eu sefydlu gan y Cyngor i yrru newid a gwelliant ac i gouchwylio rhaglen o waith. Yn disgyn o cylch gorchwyl y Pwyllgor yma yw " Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Ynys Fenter" ac y bydd diweddariad yn cael ei roi ar y sefyllfa bresennol a gwaith ar y gweill. | |
| | | | |

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad/Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar phob Rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriad**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd.**<br>• **Rhaglen Gwaith** | | | |
| **25 Medi 2014** | Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ynys Mon ac Gwynedd | Gwybodaeth | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yp |
| | Cymunedau Cyntaf Môn | Monitro cynnydd | |
| | Strategaeth Tai | Sgriwtini o flaen penderfyniad | |
| | Ffioedd a Thaliadau ar gyfer cychod pleser /wedi eu llogi o amgylch Ynys Môn | Sgriwtini o flaen penderfyniad | |
| | Rhaglen Gwaith Bwrdd Cyflawni Iechyd a Gofal Integredig ar Gyfer Ynys Môn | Gwybodaeth | |
| | Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru- Cynllun Gwella a Lleihau Risg 2015-2016 | Ymgynghoriad | |
| | | | |
| **27 Tachwedd 2014** | Cynllun Integredig Sengl | Diweddariad ar :<br>• Cynllun Integredig Môn a Gwynedd; ac<br>• Sgriwtni ar y cyd o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol gyda Cyngor Gwynedd | |
| | Budd-dal Cyfrif Refeniw Tai | Sgriwtini o flaen penderfyniad | |
| | Newidiadau i Polisi Grantiau Tai | Sgriwtini o flaen penderfyniad | |

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad/Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar phob Rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriad**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd.**<br>• **Rhaglen Gwaith** | | | |
| | GwE- Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol i Ogledd Cymru | Perfformiad yn erbyn cytundeb lefel gwasanaeth | |
| | Broses Cynrychiolaeth a Cwynion Gwasanethau Cymdeithasol 13-14 ( Adroddiad Blynyddol Cwynion) | Perfformiad | |
| | Diogelu Oedolion | Sgriwtini o flaen penderfyniad | |
| | | | |
| **14 Ionawr 2015** | Craffu Bwrdd Gwasanaethau Lleol- Opsiynau | Diweddariad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yp |
| | Fframwaith Adrodd Blynyddol - adolygiad blynyddol a gwerthusiad o berfformiad 2013/2014 llythyr gan CSSIW | Perfformiad | |
| | Diogelu Corfforaethol | Perfformiad | |
| | | | |
| **12 Mawrth 2015** | Diogelwch Cymunedol | Trosolwg Blynyddol ar Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yp |
| | | | |